



Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

gan gynnwys

yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a Nodiadau
Esboniadol

Chwefror 2023

Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru. Cafodd ei baratoi a'i osod yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Mehefin 2022, a gosodir Memorandwm diwygiedig yn awr yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a gyflwynwyd gennyf ar 7 Mehefin 2022 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Hannah Blythyn AS

Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
Yr Aelod o'r Senedd sy'n gyfrifol am y Bil

28 Chwefror 2023

Tudalen gynnwys

Geirfa	Tudalen 5
Rhan 1 – Memorandwm Esboniadol	
1: Disgrifiad	Tudalen 7
2: Cymhwysedd deddfwriaethol	Tudalen 8
3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	Tudalen 9
Y cyd-destun	Tudalen 9
Yr Achos dros Newid	Tudalen 12
Cefndir y Bil	Tudalen 18
- Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol	Tudalen 18
- Partneriaeth Gymdeithasol a	Tudalen 20
- Datblygu Cynaliadwy	
- Gwaith Teg	Tudalen 26
- Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol	Tudalen 27
Tystiolaeth	Tudalen 36
- Partneriaeth Gymdeithasol	Tudalen 36
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015	Tudalen 38
- Gwaith Teg	Tudalen 39
- Caffael	Tudalen 40
4: Ymgynghori	Tudalen 43
5: Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	Tudalen 49
Rhan 2 – Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol	
6: Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Tudalen 54
7: Opsiynau	Tudalen 58

8: Costau a Manteision	Tudalen 60
- Costau a Manteision Rhan 1: Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol	Tudalen 61
- Costau a Manteision Rhan 2: Partneriaeth Gymdeithasol a Datblygu Cynaliadwy	Tudalen 77
- Costau a Manteision Rhan 3: Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol	Tudalen 92
9: Asesiadau effaith	Tudalen 117
10: Asesu'r gystadleuaeth	Tudalen 122
11: Adolygiad ôl-weithredu	Tudalen 126
Rhan 3 – Atodiadau	
Atodiad 1. Nodiadau Esboniadol	Tudalen 129
Atodiad 2. Mynegai o ofynion Rheolau Sefydlog	Tudalen 144
Atodiad 3. Cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Bil	Tudalen 148
Atodiad 4. Asesiad Effaith Rheoleiddiol Tablau Crynhoi Costau	Tudalen 149
Atodiad 5. Cyrff sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau caffael cyhoeddus	Tudalen 154
Ôl-nodiadau	Tudalen 155

Geirfa

Acronym/ Term	Diffiniad
Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol	Y gofyniad bod pobl sy'n caffael gwasanaethau cyhoeddus yn meddwl am sut y gallant sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. ¹
Comisiwn Gwaith Teg, y	Roedd y Comisiwn Gwaith Teg yn gweithredu rhwng 2018 a 2019, ac roedd yn cynnwys grŵp o unigolion o'r tu allan i Lywodraeth Cymru a benodwyd gan Weinidogion Cymru i ystyried sut y gellir hyrwyddo ac annog gwaith teg yng Nghymru.
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
CPG	Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol
CPGC	Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol
Cyd-bwyllgor Gweithredol	Cyd-bwyllgor Gweithredol Cyngor Partneriaeth y Gweithlu. Mae'r Pwyllgor hwn yn atebol i Gyngor Partneriaeth y Gweithlu ac yn hwyluso ei waith mewn ymgynghoriad â chyrrff cynrychioliadol. Mae aelodau'r Cyd-bwyllgor Gweithredol yn gweithredu mewn partneriaeth gyfartal, ac mae ei aelodau'n adlewyrchu strwythur partneriaeth gymdeithasol deirochrog Cyngor Partneriaeth y Gweithlu, gyda chynrychiolwyr o'r Undebau Llafur, Cyflogwyr a Llywodraeth Cymru.
Cyngor Partneriaeth y Gweithlu	Mae Cyngor Partneriaeth y Gweithlu yn strwythur partneriaeth gymdeithasol deirochrog sy'n cynnwys yr undebau llafur, cyflogwyr a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru a fforwm ar gyfer materion gweithlu ar draws y gwahanol gwasanaethau cyhoeddus.
Datblygu Cynaliadwy	Yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, dyma'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni'r nodau llesiant a amlinellir yn adran 4 o'r Ddeddf hon.
Dwyochrog	Math o bartneriaeth gymdeithasol lle mae partneriaid cymdeithasol yn cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr ac undeb(au) llafur cydnabyddedig. Gall partneriaeth

	gymdeithasol ddwyochrog fodoli ar lefel y gweithle, lefel sector, lefel rhanbarth a lefel genedlaethol.
Gwaith Teg Cymru² (2019)	A elwir hefyd yn 'adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg'. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2019 ac mae'n amlinellu casgliadau'r Comisiwn Gwaith Teg.
KAS	Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Partner Cymdeithasol	Aelod dibynadwy o 'bartneriaeth gymdeithasol' sydd naill ai'n gyflogai, yn gynrychiolydd cyflogwyr neu'n gynrychiolydd undeb llafur. Gellir defnyddio'r term 'Partner Cymdeithasol' hefyd am gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru.
Partneriaeth Gymdeithasol	Gweithio i gyflawni nod y cytunwyd arno ar y cyd, er budd yr holl grwpiau cysylltiedig.
Rhanddeiliad	Parti sydd â diddordeb/buddiannau ym mholisïau'r Bil.
Teirochrog	Math o bartneriaeth gymdeithasol lle mae partneriaid cymdeithasol yn cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr, gweithwyr a Llywodraeth Cymru. Gall trefniadau partneriaeth gymdeithasol deirochrog fodoli ar lefel sector, lefel rhanbarth a lefel genedlaethol.
Y Ddeddf Llesiant	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

Pennod 1 – Disgrifiad

1. Mae Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn darparu ar gyfer fframwaith i wella llesiant pobl Cymru, gan wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol.
2. Yn fras, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer:
 - sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (CPG);
 - dyletswydd statudol ar gyrrff cyhoeddus penodol i geisio consensws neu gyfaddawd gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig neu (pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill eu staff, wrth bennu eu hamcanion llesiant a chyflawni'r amcanion hynny o dan adran 3(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;
 - dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol, cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr, drwy'r CPG, wrth gyflawni eu hamcanion llesiant o dan adran 3(2)(b) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;
 - diwygio adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 drwy roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas' o fewn y nod presennol 'Cymru lewyrchus';
 - dyletswydd statudol ar gyrrff cyhoeddus penodol i ystyried caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol wrth gynnal eu gweithgareddau caffael, i bennu amcanion mewn perthynas â nodau llesiant ac i gyhoeddi strategaeth gaffael;
 - rhai cyrrff cyhoeddus yn cyflawni dyletswyddau rheoli contractau i sicrhau bod canlyniadau cymdeithasol gyfrifol yn cael eu ceisio drwy gadwyni cyflenwi;
 - gosod dyletswyddau adrodd ar y cyrrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael;
 - is-grŵp caffael yr CPG i ddarparu gwybodaeth a chynghori i'r CPG ynghylch y dyletswyddau caffael a roddir ar awdurdodau contractio.

Pennod 2 – Cymhwysedd Deddfwriaethol

3. Mae gan Senedd Cymru ('y Senedd') y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ('y Bil') yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006³ fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Y Cyd-destun

Partneriaeth Gymdeithasol

4. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i adeiladu economi sy'n hyrwyddo gwaith teg, cydraddoldeb a chyfiawnder economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae Rhaglen Lywodraethu 2021–2026 yn amlinellu'r deg amcan llesiant y mae'r Llywodraeth yn gweithio tuag atynt er mwyn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
5. Bwriedir i'r Bil hwn ategu deddfwriaeth arall, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf Llesiant) a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn benodol mae'n rhyngweithio'n agos â'r Ddeddf Llesiant ac yn ategu'r ffordd y mae'n gweithredu, gyda'r uchelgais arfaethedig o wella datblygu cynaliadwy drwy nodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol tebyg.
6. Yn ôl y Ddeddf Llesiant, 'datblygu cynaliadwy' yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy i gyflawni'r nodau llesiant. Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hynny sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf hon weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw. Nod y Bil hwn yw ategu ac adeiladu ar y pum ffordd o weithio sy'n rhan o'r egwyddor datblygu cynaliadwy, drwy gyflwyno egwyddor partneriaeth gymdeithasol fel ffordd hanfodol o weithio ar gyfer y Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus.
7. Drwy drefniadau partneriaeth gymdeithasol, mae llywodraeth, cyflogwyr ac undebau llafur (neu gynrychiolwyr cyflogeion os nad oes undeb) yn cael eu dwyn ynghyd mewn meysydd sydd o ddiddordeb i bob parti, i gynllunio a gweithredu atebion gwell. Mae partneriaeth gymdeithasol yn ffordd o weithio sy'n anelu at gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt ar y cyd, er budd pawb sy'n gysylltiedig. Fel ffordd o weithio, gall wella'r ffordd mae cyrff cyhoeddus yn pennu ac yn cyflawni eu hamcanion llesiant, sydd â'r nod o gynyddu'r cyfraniad mae'r cyrff hyn yn ei wneud at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol cymaint ac y bo modd.
8. Mae cynnwys cyflogwyr a gweithwyr yn y prosesau o gynllunio a gwneud penderfyniadau ar y cyd yn gallu cryfhau'r broses o lunio polisiau a chyfrannu hefyd at atebion arloesol. Drwy gynnwys y gweithlu mewn penderfyniadau allweddol, gallwn gefnogi gweithlu brwdfrydig ac ymroddedig sy'n hanfodol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol yng Nghymru.

9. Mae'r Bil yn rhoi cyfle i gyrff cyhoeddus gynnwys egwyddorion gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau, pan fyddant yn ymdrin â materion strategol, gan sicrhau y gall llais cyflogeion a'r rhai a gynrychiolir gan undebau llafur ddylanwadu ar benderfyniadau strategol. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymdrin â pholisi a chyflawni mewn modd cydweithredol ers amser maith, gydag egwyddor partneriaeth gymdeithasol yn ganolog i'r dull hwn. Mae partneriaeth gymdeithasol yn bodoli mewn amrywiaeth o ffurfiau lle, gan weithio ar y cyd ar draws llywodraeth, undebau a chyflogwyr, rydym yn cytuno ar amcanion cyffredin ac yn eu cyflawni. Mae partneriaeth gymdeithasol yn dod â manteision i weithwyr a chyflogwyr, gyda'r nod o sicrhau bod gan y ddau barti lais cyfartal a'u bod yn gallu dod i gytundebau sy'n fuddiol i'r ddau barti sy'n deg ac yn gyfiawn.

Gwaith Teg

10. Sefydlodd Llywodraeth Cymru y Comisiwn Gwaith Teg yn 2018 i wneud argymhellion i hyrwyddo ac annog gwaith teg. Roedd adroddiad y Comisiwn, sef '*Gwaith Teg Cymru*' (2019)⁴ yn cynnwys 48 o argymhellion ar gyfer hyrwyddo gwaith teg. Roedd yr adroddiad yn cydnabod bod cyfyngiadau ar yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud o dan y setliad datganoli presennol, ac y gall gwaith teg gyfrannu at les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Argymhellodd yr adroddiad hefyd y dylai camau gweithredu gan gyrff cyhoeddus o dan y Ddeddf Llesiant gynnwys gwaith teg. I'r perwyl hwnnw, mae'r Bil hwn yn diwygio'r nod llesiant 'Cymru lewyrchus', gan roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas'.

Caffael

11. Mae Llywodraeth Cymru a Plaid Cymru yn rhannu uchelgais i ddefnyddio ein hysgogiadau caffael yng Nghymru i gefnogi twf economaidd cynaliadwy, i annog cymunedau lleol cadarn ac i feithrin busnesau lleol sy'n ffynnu ym mhob rhan o Gymru. Rhannwn uchelgais i gynyddu lefelau caffael cynnyrch a gwasanaethau lleol yn y sector cyhoeddus a byddwn yn cydweithio, gan ddefnyddio Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ynghyd â'r diwygiadau caffael ehangach fel ffordd o helpu i gyflawni'r uchelgais honno.

12. Caffael yw un o'r arfau pwysicaf sydd gennym i gefnogi'r Gymru fwy cyfartal, cynaliadwy a llewyrchus yr ydym i gyd am ei gweld dros y blynyddoedd nesaf. Mae'n weithgaredd hanfodol sy'n ychwanegu gwerth, gan helpu sector cyhoeddus Cymru i gyflawni blaenoriaethau'r Gweinidogion a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol. Mae caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn ymwneud â gweithredu, wrth brynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith, i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Gall ein helpu i adeiladu'r seilwaith modern sydd ei angen arnom i gyrraedd sero net; cefnogi adferiad gwyrdd, helpu i hyrwyddo'r Gymraeg, a chyfrannu at hyrwyddo

gwaith teg. Yn y Bil hwn, mae caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol yn cael ei gyflawni drwy gadwyni cyflenwi gyfan, ac nid cyflenwyr a chontractwyr haen gyntaf yn unig. Gall helpu i fynd i'r afael â risgiau cam-drin hawliau dynol a helpu i sicrhau mwy o ffocws ar gyfrifoldeb byd-eang. Mae'r Bil yn cynnwys dyletswyddau rheoli contractau ar gyfer gwaith adeiladu mawr ac allanoli gweithgareddau caffael.

13. Bydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn sicrhau bod llesiant yn ystyriaeth allweddol ym maes caffael cyhoeddus, gan ddefnyddio pŵer y pwrs cyhoeddus i ysgogi gwelliannau a sicrhau canlyniadau sydd o fudd i'r gymdeithas.

Yr achos dros newid

Gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru

14. Bydd gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol yn rhoi cyfle i adeiladu economi sy'n hyrwyddo gwaith teg a chydaddoldeb, ynghyd a chyfiawnder economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Drwy bartneriaethau cymdeithasol, mae cyfle i gynnwys a chydweithio ag eraill i ddatblygu'r gweithredu ar y cyd a'r ymdrech sydd eu hangen i ddatrys problemau cyffredin, i greu swyddi newydd yn niwydiannau'r dyfodol ac i drawsnewid ein heconomi yn un sy'n wyrddach ac yn decach.
15. Byddai dull partneriaeth gymdeithasol cydweithredol yn ein galluogi i ddefnyddio gwybodaeth, profiad a syniadau cyfunol cyflogwyr, gweithwyr ac undebau llafur wrth ddatblygu atebion i heriau cyffredin. Fel ym mhob gwlad arall, mae'r economi yng Nghymru yn wynebu amrediad o heriau a chyfleoedd strwythurol, strategol ac ariannol. Credwn fod partneriaethau cymdeithasol yn hanfodol i fynd i'r afael â'r problemau anodd a heriol hyn, ac i wireddu ein dyheadau hirdymor ar gyfer economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.
16. Mae disgrifiad y Ddeddf Llesiant o 'Gymru lewyrchus' yn cynnwys cyfeiriad at waith addas, sy'n cynnwys llawer o nodweddion gwaith teg ac a oedd yn sail i waith y Comisiwn Gwaith Teg. Fodd bynnag, yn ei hadroddiad⁵ blynyddol yn 2020, nododd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod cyrff cyhoeddus yn colli cyfleoedd yn gyson i adlewyrchu gwaith addas yn eu hamcanion ac wrth geisio cyflawni'r nod llesiant 'Cymru lewyrchus'.

Ymateb i bandemig COVID-19 drwy Bartneriaeth Gymdeithasol

17. Yn ystod pandemig COVID-19, roedd trefniadau partneriaeth gymdeithasol yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus yng Nghymru a ledled y byd i lunio ymatebion cenedlaethol. Gwnaeth Sefydliad Undebau Llafur Ewrop ddadansoddi ymatebion amryw o lywodraethau cenedlaethol i'r pandemig, ac fe welodd fod llunio polisïau mewn modd cynhwysol, a rhoi rhagor o ystyriaeth i anghenion gweithwyr, yn gysylltiedig â defnyddio partneriaethau cymdeithasol yn fwy helaeth⁶.
18. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol i ddeall y pwysau mae busnesau, gweithwyr a gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn eu hwynebu, a sut y gall yr heriau fod yn wahanol oherwydd pandemig COVID-19 ac effaith ymadael â'r UE. Mae'r mecanweithiau partneriaeth gymdeithasol presennol wedi bod yn berthnasol i sectorau penodol i raddau helaeth, gyda gwahanol lefelau o hyblygrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y trefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol hyn. Mae'r modelau partneriaeth gymdeithasol anstatudol hyn yn cynnwys llawer o enghreifftiau o gynnydd da, ond hefyd yn dangos diffyg cysondeb o ran dulliau gweithredu.

19. Mae angen arweinyddiaeth genedlaethol i ddarparu cyfeiriad ac enghreifftiau o arfer da ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol ledled Cymru. Byddai corff statudol cenedlaethol yn darparu'r arweinyddiaeth hon ac yn modelu ar gyfer partneriaeth gymdeithasol effeithiol. Mae cyfyngiadau ar ba mor effeithiol y gellir cydgysylltu gwelliannau i'r ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu â llesiant, oni bai bod sail statudol i'r dull partneriaeth gymdeithasol. Rydym am hyrwyddo dull gweithredu mwy cyson, a chredwn y gellir cryfhau effeithiolrwydd y trefniadau partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru drwy ddeddfwriaeth.
20. Y bwriad yw y bydd gan yr CPG statudol rôl amlwg ac y bydd yn dryloyw yn y ffordd y mae'n gweithio. Bydd llawer o'r wybodaeth a'r cyngor a anfonir at Weinidogion Cymru yn cael eu cyhoeddi, fel y bydd cofnodion cyfarfodydd a chylch gorchwyl y grŵp. Bydd gwefan ar gyfer y Cyngor yn cael ei datblygu hefyd at y diben hwn, ynghyd â darparu gwybodaeth am waith y Cyngor. Bydd yr holl wybodaeth hon ar gael i grwpiau eraill sy'n defnyddio partneriaethau cymdeithasol, fel y gallant ddysgu oddi wrth yr arferion da a ddangosir neu a argymhellir gan yr CPG.
21. Hefyd, nid yw'r rhai sydd agosaf at y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus (gweithwyr a'u cyflogwyr) yn cyfrannu'n gyson at y broses o wneud penderfyniadau i wella gwasanaethau cyhoeddus, felly nid yw eu harbenigedd a'u dealltwriaeth yn cael eu defnyddio'n llawn. Byddai corff teirochrog fel yr CPG yn ystyried barn gweithwyr a chyflogwyr o bob sector, gan y byddai cynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr yn gallu gweithio gyda Gweinidogion Cymru wrth drafod materion a phenderfyniadau sy'n effeithio ar y gweithle.
22. Er mwyn cynnwys y safbwyntiau hyn ymhellach, mae angen newid y diwylliant o fewn sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru. Mae gweithwyr ac undebau llafur yn aml yn cael eu heithrio o'r cynllunio strategol a'r penderfyniadau a wneir gan eu cyflogwyr. Gallwn ddechrau datrys hyn drwy roi partneriaeth gymdeithasol ar sail statudol i sicrhau bod gweithwyr yn cymryd rhan fwy amlwg mewn trafodaethau ynghylch materion sy'n effeithio arnyn nhw. Yn y pen draw, bydd llwyddiant yn ddibynnol ar newid gwerthoedd ac ymddygiadau er mwyn ymgorffori safon genedlaethol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol y gellir gwneud hyn.
23. Mae effaith economaidd pandemig COVID-19, ynghyd â diwedd y trefniadau pontio gyda'r UE ar 31 Rhagfyr 2020, yn peri heriau sylweddol ar gyfer busnesau. Yng nghyd-destun ansicrwydd cynyddol ein cysylltiadau masnachu rhyngwladol a'r tueddiadau tymor canolig a hirdymor wrth gyflwyno technolegau aflonyddgar, mae hyn yn peri sefyllfa gymhleth iawn i fusnesau Cymru wrth iddynt gynllunio'n ddigonol ar gyfer twf cynaliadwy a swyddi diogel. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'n bwysig bod gennym strwythurau cadarn sy'n addas i'r diben a all ei gwneud yn haws i lywodraeth, cyflogwyr a'r undebau gydweithio i gyflawni canlyniadau er budd pawb, gyda dealltwriaeth o'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau. Mae'n

bwysig bod gennym yr un agenda, ynghyd â ffocws ar gyfer ymgysylltu a gweithgareddau.

24. Mae Llywodraeth, cyflogwyr a'r undebau i gyd yn elwa ar dwf economaidd sefydlog a chynhwysol, ac mae ganddynt ddiben cyffredin o ran cefnogi economi lewyrchus, lle mae busnesau ac unigolion yn rhannu'r manteision. Ymhlith y gwledydd lle mai dyma'r norm yw Awstria, yr Almaen, Gwlad Belg a Sweden, lle mae strwythurau sefydliadol partneriaeth gymdeithasol wedi ymwreiddio'n ddwfn ac mae'r system iechyd a'r economi yn seiliedig ar ddiwylliant o gydweithredu.

Gwaith Teg

25. Ymhlyg yn adroddiad Gwaith Teg Cymru⁷ roedd y ddealltwriaeth na all Llywodraeth Cymru wireddu'r uchelgais i fod yn genedl Gwaith Teg ar ei phen ei hun. Mae gennym dirwedd gymhleth lle y gall cyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat sy'n gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol gael effaith, a lle mae ysgogiadau a chyfrifoldebau yn rhychwantu meysydd datganoledig a meysydd nad ydynt wedi'u datganoli.
26. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod bargen well i weithwyr yn hanfodol er mwyn sicrhau Cymru decach a mwy cyfartal. Mae angen cymryd camau pellach i annog rhagor o swyddi sy'n darparu gwaith teg ac, ochr yn ochr â hyn, mae angen inni ddarparu'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen ar y gweithlu i gael swyddi sy'n darparu gwaith teg.
27. Mae'r agenda hon yn cwmpasu materion datganoledig a materion a gedwir yn ôl, sy'n gosod cyfyngiadau ar y camau y gallwn ni yng Nghymru eu cymryd. Mae gennym bŵer mewn perthynas â'r sector cyhoeddus datganoledig a chyrrff datganoledig yng Nghymru. Yn yr un modd, gallwn weithredu i gefnogi unigolion drwy ymyriadau mewn perthynas â sgiliau a chyflogadwyedd a fydd yn sicrhau eu bod mewn sefyllfa well i gael gwaith teg. Mae gennym rywfaint o ddylanwad dros ymddygiad y rhai y mae gennym berthynas â nhw drwy weithgareddau caffael neu grant. Mae gennym lai o ddylanwad dros y mwyafrif llethol o gyflogwyr yn y sector preifat, er y gallwn berswadio ac ymgysylltu â'r sector preifat a darparu cymorth busnes, datblygu economaidd ac ymyriadau seilwaith i helpu i gefnogi, creu a denu cyflogaeth o ansawdd gwell yng Nghymru.
28. Mae'r sector cyhoeddus datganoledig yn gyflogwr sylweddol yng Nghymru. Mae'n effeithio'n uniongyrchol ar brofiad o waith y rhai sy'n gweithio ynddo a gall gael dylanwad anuniongyrchol ledled y sector cyhoeddus a'r economi ehangach drwy arwain drwy esiampl ar ddulliau blaengar o ymdrin â'i weithlu. Bydd gallu'r cyrrff cyhoeddus datganoledig i gyflawni'r rôl uniongyrchol ac anuniongyrchol honno yn cael ei wella gan y Bil hwn. Y rheswm dros hyn yw y bydd y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn cefnogi cyrrff cyhoeddus, wrth bennu a chyflawni eu hamcanion llesiant yn y Ddeddf Llesiant, i ffurfio perthynas adeiladol ag undebau llafur neu (pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill eu staff; bydd y ddyletswydd caffael cyhoeddus

cymdeithasol gyfrifol yn helpu i wella canlyniadau sy'n deillio o gaffael cyhoeddus; a bydd diwygio'r nodau llesiant yn y Ddeddf Llesiant, i gynnwys cyfeiriad at waith teg, yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynllunio amcanion sy'n cyfrannu at waith teg, fel rhan o'r disgrifiad diweddaraf o'r nod llesiant 'Cymru lewyrchus'

Gwella Darpariaeth Gwasanaethau Cyhoeddus

29. Eto, dangosodd y pandemig COVID-19 pa mor ddibynnol yw Cymru ar wasanaethau cyhoeddus effeithiol ac, felly, pa mor gyd-ddibynnol ydynt ar berthynas weithio adeiladol a chydweithredol rhwng cyflogwyr a'u gweithlu. Mae'r sector cyhoeddus wedi dangos manteision gweithlu cynhyrchiol ac ymroddedig, ac wedi ymateb i heriau pandemig COVID-19, gan weithio'n effeithiol ar draws sectorau i ddarparu gwasanaethau allweddol.
30. Mae'r trefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol wedi cael eu defnyddio'n effeithiol i reoli amrediad eang o faterion yn ymwneud â'r gweithlu a darparu gwasanaethau, ond nid oes digon o gynrychiolaeth ehangach yn y broses o wneud penderfyniadau mewn cyrff cyhoeddus. Nid yw'r rhai sydd agosaf at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus (gweithwyr a'u cyflogwyr) bob amser yn cymryd rhan yn y trafodaethau ynghylch penderfyniadau i wella gwasanaethau cyhoeddus, nid yw eu harbenigedd a'u dealltwriaeth bob amser yn cael eu defnyddio. Mae gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd gwell yn ystyried barn y gweithwyr a'r cyflogwyr sy'n darparu'r gwasanaethau hyn.
31. Dangosodd bandemig COVID-19 bwysigrwydd hyblygrwydd i ymateb i her genedlaethol ar lefel leol ac ar lefel sector. Mae hyn wedi amlygu'r angen am system o bartneriaeth gymdeithasol sy'n ymgorffori hyblygrwydd lleol a hyblygrwydd o fewn sectorau mewn fframwaith sy'n sicrhau bod pob partner yn gallu gweithredu mewn ffordd gydgyssylltiedig a chysylltiedig, sydd wedi'i sefydlu ar draws gwasanaethau cyhoeddus datganoledig, ar lefel genedlaethol, lefel sector a lefel leol.
32. Mae'n bwysig deall a harneisio'r dylanwad posibl y gellir ei gael wrth gaffael i sicrhau canlyniadau sy'n gyfrifol yn gymdeithasol – mae tua £7bn o arian cyhoeddus yn cael ei wario bob blwyddyn gan y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Ni all gweithwyr sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus a gyflogir gan sefydliadau'r sector preifat a'r trydydd sector ddibynnu'n llwyr ar gytundebau a wneir gan y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, ac maent yn dibynnu ar reoli contractau caffael yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio â gorbwysleisio'r effaith y gall caffael cyhoeddus ei chael. Mewn rhai sectorau, er enghraifft bwyd, cyfran fach yn unig o'r farchnad yn gyffredinol y mae'r sector cyhoeddus yn ei chynrychioli.

Cyfraniad Caffael Cyhoeddus at Ganlyniadau Llesiant

33. Mae'r cyfraniad y gall caffael ei wneud at amcanion polisi ehangach wedi cael ei gofnodi'n dda, a dyma faes lle mae'r Llywodraeth wedi gwneud

cynnydd da. Roedd y dull hwn yn cefnogi ymateb cydweithredol cryf i heriau o fewn y gadwyn gyflenwi yn ystod pandemig COVID-19.

34. Fodd bynnag, dros gyfnod o amser, mae nifer o adolygiadau wedi dangos y gellid gwneud gwelliannau. Dilynwyd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, *Caffael Cyhoeddus yng Nghymru*,⁸ yn 2017 gan adolygiad o waith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru yn ystod yr un flwyddyn. Yn dilyn hynny, aeth Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ati i gynnal ymchwiliad i gaffael cyhoeddus yng Nghymru⁹. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd wedi cyhoeddi adolygiad adran 20 o gaffael¹⁰, ac mae'r dadansoddiad ohono wedi nodi materion tebyg.
35. Ymhlith pethau eraill, mae'r adolygiadau hyn wedi nodi heriau sy'n wynebu cyrff cyhoeddus o ran sicrhau cydbwysedd rhwng blaenoriaethau caffael sy'n gwrthdaro, ymateb i bolisiau, deddfwriaeth a thechnoleg newydd a recriwtio a chadw staff ym maes caffael. Mae tystiolaeth hefyd o bwyslais cynyddol ar gyflawni canlyniadau llesiant drwy gaffael, gyda llai o ffocws ar arbed arian, ac o'r angen am ragor o gymorth i ymgorffori gofynion fel y rhain yn y Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.
36. Nodwyd bod rheoli contractau a diwydrwydd dyladwy hefyd yn feysydd y mae angen eu gwella. Mae angen gwneud mwy i sicrhau y gofynnir am ganlyniadau sy'n gymdeithasol gyfrifol, a'u bod yn cael eu gweithredu a'u monitro drwy gadwyni cyflenwi gyfan. Mae hyn yn gallu gwneud monitro ac adrodd effeithiol yn anodd, a'i gwneud yn anodd cymryd camau effeithiol i ymdrin â sefydliadau pan nad yw'r safonau'n cael eu bodloni. Gall unrhyw ansicrwydd mewn trefniadau contractiol a diffyg diwydrwydd dyladwy yn y gadwyn gyflenwi arwain at dorri corneli, a gall hyn arwain at leihau yn raddol amodau cymdeithasol ac amgylcheddol. Yn ei dro, gall hyn arwain at risgiau gwirioneddol mewn meysydd fel mesurau i ddiogelu'r amgylchedd, cyflogaeth foesegol a chaethwasiaeth fodern, yn enwedig yn y sector adeiladu.
37. Mae cynnydd wedi cael ei wneud o ganlyniad i'r adolygiadau hyn; ond mae deddfwriaeth yn rhoi cyfle i gymryd camau breision yn y cyfeiriad iawn, ac yn benodol i roi rhagor o eglurder a mynd i'r afael â blaenoriaethau sy'n gwrthdaro. Mae hefyd angen mecanweithiau gwell ar gyfer casglu ac adrodd am ddata ar ganlyniadau llesiant.

Rhyngweithio â Bil Diwygio Caffael y DU

38. Ym mis Awst 2021, penderfynodd Llywodraeth Cymru gytuno i Lywodraeth y DU ddeddfu ar weithdrefnau caffael ar ran Awdurdodau Contractio Cymru yn y ei Bil Caffael sy'n mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd. Gofynnwyd am sicrwydd gan Lywodraeth y DU na fyddai'r penderfyniad hwn yn llyffetheirio gallu Llywodraeth Cymru i bennu ei blaenoriaethau polisi ei hun ar gyfer caffael, ac fe gafwyd y sicrwydd hwnnw. Yn y cyhoeddiad am y penderfyniad hwn, cyfeiriwyd at y Bil hwn

fel y mecanwaith a fyddai'n sefydlu'r blaenoriaethau polisi hyn mewn cyfraith. Mae sawl maes lle mae'r Bil yn rhyngweithio â'r Bil Caffael, fel terminoleg a diffiniadau, y cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Biliau, ac wrth sefydlu mecanweithiau ar gyfer goruchwyllo ac atebolrwydd.

Cefndir y Bil

39. Fel y nodir ym mhennod 4, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried ac ymgynghori ar gynigion i gryfhau trefniadau partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru, dull o hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol. Roedd hyn yn cynnwys Papur Gwyn ¹¹ a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019 yn amlinellu cynigion a oedd yn ffurfio rhan o'n huchelgais ehangach i ysgogi rhagor o gydraddoldeb cymdeithasol a thwf economaidd cynhwysol.
40. Ymgynghorwyd ¹² hefyd ar Fil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) drafft, yn seiliedig ar y cynigion a amlinellir yn y Papur Gwyn. Roedd yr ymateb i'r Bil drafft yn dangos cefnogaeth i egwyddorion cyffredinol llawer o ddarpariaethau'r Bil drafft, a chytundeb helaeth ynghylch elfennau allweddol o'i gynnwys.
41. Mae'r tudalennau canlynol yn disgrifio diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael.

Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

42. Drwy drefniadau partneriaeth gymdeithasol, mae llywodraeth, cyflogwyr ac undebau llafur (neu gynrychiolwyr gweithwyr os nad oes undebau llafur) yn cael eu dwyn ynghyd mewn meysydd sydd o ddiddordeb i bob parti, i gynllunio a gweithredu atebion gwell. Gall fod gwahanol fathau o bartneriaeth gymdeithasol, gyda phartïon gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni nod y cytunwyd arno ar y cyd, er budd pawb sy'n gysylltiedig. Mae dau brif fath o bartneriaeth gymdeithasol: dwyochrog a deirochrog:
- mewn partneriaeth gymdeithasol ddwyochrog, mae'r partneriaid cymdeithasol yn gynrychiolwyr cyflogwyr ac undeb(au) llafur cydnabyddedig. Gall partneriaeth gymdeithasol ddwyochrog fodoli ar lefel y gweithle, lefel sector, lefel rhanbarth a lefel genedlaethol;
 - mewn partneriaeth gymdeithasol deirochrog, mae'r partneriaid cymdeithasol yn gynrychiolwyr cyflogwyr, undebau llafur a Llywodraeth Cymru. Gall trefniadau partneriaeth gymdeithasol deirochrog fodoli ar lefel sector, lefel rhanbarth a lefel genedlaethol.

43. Mae Llywodraeth Cymru wastad wedi ceisio gweithio mewn partneriaeth i ddatrys problemau a dod o hyd i atebion i'r heriau economaidd, cymdeithasol a heriau eraill mae Cymru yn eu hwynebu. Mae llawer o drefniadau partneriaeth sefydledig yng Nghymru, yn gweithredu ar wahanol lefelau, ac er bod yr holl bartneriaethau hyn yn cael eu gwerthfawrogi, dim ond rhai y gellir eu hystyried yn drefniadau partneriaeth gymdeithasol mwy ffurfiol, gyda chynrychiolwyr cyflogwyr yn *ogystal ag* undebau llafur. Mae hyn yn cynnwys fforymau partneriaeth gymdeithasol a sefydlwyd yn ddiweddar mewn sectorau fel gofal cymdeithasol a manwerthu. Nid yw'r Bil hwn yn cynnig disodli'r trefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol, ond cryfhau eu rôl yn y broses gynghori strategol.
44. Mae llawer o drefniadau partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru ar hyn o bryd wedi cael eu datblygu'n wirfoddol ac mewn modd organig. Nid ydynt yn seiliedig ar fframwaith cyffredin ar hyn o bryd ac nid ydynt wedi'u cydgysylltu â'r nod o sicrhau'r effaith fwyaf posibl. Gall nifer ac amrywiaeth y partneriaethau roi pwysau ar bartneriaid cymdeithasol – a gallai hyn effeithio ar eu gallu i gyfranogi a chyfrannu'n llawn.

Diben y darpariaethau a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael

45. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer corff cynghori statudol tirochrog, a elwir y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Bydd y Cyngor yn fforwm traws-sector cenedlaethol, dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog a chyda chynrychiolwyr o amrediad o bartneriaid cymdeithasol sy'n cynrychioli cyflogwyr a gweithwyr.
46. Bydd y Cyngor hwn yn gwneud y canlynol:
- darparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru ynghylch materion a dyletswyddau yr ymdrinnir â nhw mewn rhannau eraill o'r Bil – mae partneriaeth gymdeithasol yn gosod dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus i geisio cyflawni'r nod llesiant 'Cymru lewyrchus' a chynnal eu gweithgareddau caffael mewn modd sy'n gymdeithasol gyfrifol. Bydd y wybodaeth a'r cyngor hwn yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru gyda'r nod o wella gwasanaethau cyhoeddus a llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru;
 - drwy gysylltu cymal datblygu cynaliadwy y Ddeddf Llesiant â'r Bil hwn, bydd yr CPG yn gallu rhoi gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Llywodraeth Cymru, a chyrrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant yn Rhan 2 o'r Ddeddf Llesiant, yn cyflawni'r nod 'Cymru lewyrchus'. Yn ymarferol, bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor drafod materion sy'n ymwneud â chyrrff cyhoeddus sy'n cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol, gan gynnwys gwaith teg, a darparu gwasanaethau cyhoeddus cymaint ag y mae hynny'n ymwneud â chyflawni'r nod 'Cymru lewyrchus' (gan gynnwys pan fydd y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu gan endid preifat).

47. Mae'r cyfeiriad at natur deirochrog y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn bwysig gan fod hyn yn ymwneud â dealltwriaeth o bartneriaeth gymdeithasol a roddir ar waith ar lefel llywodraeth genedlaethol, sy'n darparu ar gyfer cyfranogiadau gan dri 'phartner cymdeithasol' allweddol, sef cyflogwyr, gweithwyr drwy eu cynrychiolwyr a Llywodraeth Cymru, i gydweithio ar faterion sydd o ddiddordeb i bob parti. Mewn llawer o achosion, bydd cynrychiolwyr gweithwyr yn cynnwys aelodau o undebau llafur cydnabyddedig.
48. Y gwahaniaeth hwn, sef ffocws ar wahodd safbwyntiau cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr (yn hytrach na dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau) o bob rhan o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector sy'n gwneud yr Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn wahanol i strwythurau partneriaeth traws-sector cenedlaethol eraill sy'n bodoli eisoes.
49. Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael yw gwella gwasanaethau cyhoeddus a llesiant yng Nghymru. Bydd sefydlu'r CPG hefyd yn helpu i ysgogi arferion da a chryfhau rôl partneriaeth gymdeithasol mewn materion sy'n ymwneud â datblygu a gweithredu polisi, gyda'r nod o wella llesiant a gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y Cyngor yn darparu ar gyfer gweithwyr a chyflogwyr yn cymryd rhan fwy ac yn cyfrannu mwy at y gwaith o lunio polisiâu, i lywio agenda fwy uchelgeisiol a chefnogi penderfyniadau mwy cadarn er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl Cymru.
50. Rhagwelir y bydd y Cyngor yn arwain ar faterion sy'n ymwneud â phartneriaeth gymdeithasol, a byddant yn helpu i ddiffinio, drwy wybodaeth a chynghor i Weinidogion Cymru, sut y disgwylir i bartneriaethau cymdeithasol weithredu o fewn cyd-destun Cymru ddatganoledig. Y bwriad yw y bydd llawer o wybodaeth a chynghor gan y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol i Weinidogion Cymru yn cael eu cyhoeddi ac felly bydd ar gael i bawb. Bydd y Cyngor yn darparu sianel ffurfiol a thelerau penodol ar gyfer ymgysylltu a fydd yn hwyluso cyfranogi gan bartneriaid cymdeithasol yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Bydd yn gyfrwng ar gyfer cynnwys partneriaid cymdeithasol, drwy ddarparu gwybodaeth a chynghor ar faterion sy'n ymwneud â datblygu a gweithredu polisiâu wedi'u cynllunio i wella gwasanaethau cyhoeddus a chynyddu lles, drwy bartneriaethau cymdeithasol, cyrff cyhoeddus sy'n ceisio cyflawni'r nod 'Cymru lewyrchus', a dilyn egwyddorion caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol.

Partneriaeth Gymdeithasol a Datblygu Cynaliadwy

51. Proses yw partneriaeth gymdeithasol yn bennaf, ond gall yr egwyddorion¹³ y mae'n seiliedig arnynt helpu i sicrhau newid ymddygiad a diwylliant – a gall hyn yn y pen draw arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer gwasanaethau

cyhoeddus a llesiant. Gall gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol yn gyson ddatblygu perthnasoedd dibynadwy ac arwain at ymddygiadau sy'n hyrwyddo cydweithredu, parch, ymddiriedaeth a rhagor y gyfranogi – yn ogystal â sicrhau manteision i bob parti. Crëwyd y gwerthoedd a'r ymddygiadau hyn i gyfeirio atynt er mwyn sicrhau partneriaethau cymdeithasol llwyddiannus yng Nghymru, ac maent yn cael eu disgrifio isod:

Egwyddorion partneriaeth gymdeithasol	Ymrwymiad a rennir
Cydweithredu	Llwyddiant drwy ddatrys problemau ar y cyd, cyfaddawdu a dod i gonsensws
Parch	Pob parti yn cydnabod buddiannau cyfreithlon a buddiannau a allai wrthdaro
Ymddiriedaeth	Perthnasoedd yn seiliedig ar onestrwydd, diffuantrwydd, tryloywder, bod yn agored ac ystyried pobl eraill
Llais a Chyfranogiad	Gwybodaeth, ymgynghori a chyfranogi rhagweithiol ac amserol
Buddion Cyffredin	Sicrhau gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus ac i ganlyniadau llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a gwaith teg.

Deddfwriaeth bresennol berthnasol – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

52. Er bod y Bil yn ddarn annibynnol o ddeddfwriaeth, mae'r nod o wella llesiant, yn enwedig llesiant cymdeithasol ac economaidd, yn ategu'r Ddeddf Llesiant, sy'n gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus wneud pethau i geisio llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf Llesiant yn sefydlu cyfres o nodau llesiant sydd, gyda'i gilydd, yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol hirdymor Cymru ac yn darparu fframwaith cydgysylltiedig i lywio'r gwaith o wella llesiant mewn modd cynaliadwy. Bydd y nodau llesiant yn galluogi cyrff cyhoeddus i ddeall yr hyn y mae'n rhaid iddynt geisio'i gyflawni er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn yr oes sydd ohoni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Prif ddiben y nodau llesiant yw gosod y cyd-destun y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus

osod amcanion llesiant ynddo. Bydd cyrff cyhoeddus yn ceisio cyflawni'r nodau llesiant drwy gyflawni eu hamcan llesiant eu hunain.

53. Mae adran 3 o'r Ddeddf honno yn darparu bod rhaid i bob corff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Diffiniad y Ddeddf o datblygu cynaliadwy yw 'y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant'.

54. Wrth gyflawni'r ddyletswydd i ymgymryd â datblygu cynaliadwy, rhaid iddynt bennu a chyhoeddi amcanion llesiant. Amcanion yw'r rhain sy'n ymwneud â sut mae'r corff cyhoeddus yn bwriadu cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant (gweler adran 4). Rhaid i gyrff cyhoeddus bennu amcanion llesiant sydd â'r nod o sicrhau eu bod yn cyfrannu cymaint ag y bod modd at y nodau llesiant. Yn ogystal, rhaid iddynt gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni eu hamcanion.

55. Dyma'r nodau llesiant:

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru lewyrchus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
Cymru gydnerth	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru iachach	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).
Cymru o gymunedau cydlynus	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

56. Rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu nodau llesiant, fel y nodir o dan adran 3(2) o'r Ddeddf, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf Llesiant yn amlinelli'r materion y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu hystyried er mwyn 'gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy', sef gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion yr oes sydd ohoni'n cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

57. Mae pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt er mwyn dangos eu bod wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd dilyn y ffyrdd hyn o weithio yn ein helpu i weithio'n well gyda'n gilydd, i osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol ac i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor sy'n ein hwynebu.

- Hirdymor – Wrth bennu a chyflawni eu hamcanion llesiant, rhaid i gyrff cyhoeddus gydbwyso eu hangen i gymryd camau i fynd i'r afael â materion cyfredol (y tymor byr) â'r angen i ddiogelu eu gallu i ddiwallu anghenion hirdymor. Mae hyn yn arbennig o berthnasol lle y gallai eu gweithredoedd tymor byr gael effaith andwyol yn y dyfodol.
- Atal – Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
- Integreiddio – Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- Cydweithio – Mae hyn yn golygu bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio, naill ai gyda chyrff eraill neu rannau eraill o'u corff eu hunain, er mwyn helpu i gyflawni eu hamcanion llesiant neu amcanion llesiant unrhyw gorff cyhoeddus arall sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf.
- Cynnwys – Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

58. Mae'r Bil hefyd yn ategu dyletswyddau statudol eraill yng Nghymru, megis y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol¹⁴, sydd â'r nod o sicrhau canlyniadau gwell i'r rheini sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.
59. Mae'r dirwedd ddeddfwriaethol bresennol eisoes yn rhoi dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i ganolbwyntio ar lesiant y boblogaeth. Yn ogystal â'r ddyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus unigol, mae rhai o'r gyrff hyn wedi cael eu dwyn ynghyd drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i asesu llesiant lleol a pharatoi cynllun llesiant lleol. Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn ddyletswydd ar wahân sydd â'r bwriad o ategu'r ddyletswydd llesiant yn Rhan 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Nid yw'r Bil hwn yn newid rôl na chylch gwaith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, na'r dyletswyddau ar Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan y Ddeddf Llesiant.

Diben y darpariaethau a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael

60. Diben y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol pobl yng Nghymru drwy gryfhau rôl partneriaeth gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus geisio consensws neu gyfaddawd â gweithwyr, drwy eu hundebau llafur cydnabyddedig neu (pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill eu staff wrth bennu amcanion llesiant a gwneud penderfyniadau strategol er mwyn cyflawni'r amcanion hynny o dan y Ddeddf Llesiant.
61. Mae cynnwys cyflogwyr a gweithwyr mewn trafodaethau allweddol ynghylch gwelliannau i lesiant yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad a'r arbenigedd a ddarperir gan y rhai sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau, wrth fynd i'r afael â heriau cyffredin a cheisio atebion arloesol.
62. Yr effaith y bwriedir i'r darpariaethau hyn ei chael yw hyrwyddo cydweithredu, cryfhau polisiâu a gwella canlyniadau, drwy ddeialog rhwng partneriaid cymdeithasol, a hynny drwy bartneriaeth gymdeithasol.
63. Mae'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol geisio consensws neu gyfaddawd â'u hundebau llafur cydnabyddedig neu (pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill eu staff, wrth bennu a chymryd camau rhesymol i gyflawni eu hamcanion llesiant o dan adran 3(2) o'r Ddeddf Llesiant. Mae'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn berthnasol pan fydd gyrff cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau strategol. Wrth gyflawni'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth ystyried yr hyn sy'n 'rhesymol'.

64. Ar gyfer Gweinidogion Cymru mae'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgynghori â Chyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru wrth gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant o dan adran 3(2)(b) o'r Ddeddf Llesiant. Ar gyfer Gweinidogion Cymru mae'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn berthnasol pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol.
65. Dim ond i gydnabod y ffaith bod Gweinidogion Cymru yn pennu amcanion llesiant yn syth ar ôl pob etholiad Senedd y mae'r ddyletswydd yn cael ei chymhwyso i'r Ddeddf Llesiant (adran 3(2)(b)) yn y ffordd fwy cul hon. Ni fyddai'n briodol i Lywodraeth newydd yng Nghymru sydd wedi cael mandad polisi clir gan bobl Cymru gael ei gorfodi wedyn i geisio cyfaddawd neu gonsensws ar yr un materion hynny naill ai fel cyflogwr gyda'i hundebau llafur cydnabyddedig ei hun neu gyda'r partneriaid cymdeithasol a gynrychiolir ar y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.
66. Bydd cyrff cyhoeddus yn adrodd yn flynyddol i'r Cyngor, gan amlinellu sut y maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Rhaid i'r adroddiadau gael eu cyhoeddi a'u cyflwyno i'r Cyngor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd rhaid cytuno ar adroddiadau gydag undeb(au) llafur cydnabyddedig y corff cyhoeddus, neu dylent gynnwys datganiad yn esbonio pam na chytunwyd arnynt.
67. Bydd hefyd yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad blynyddol yn amlinellu sut maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a rhaid cyflwyno'r adroddiad hwnnw i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a'i osod gerbron y Senedd iddyn nhw graffu arno. Rhaid cytuno ar yr adroddiad gyda'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol neu gynnwys datganiad yn esbonio pam na chytunwyd arno.
68. Un ystyriaeth allweddol wrth sefydlu partneriaeth gymdeithasol ar gyfer rhwymedigaethau cyrff cyhoeddus o dan y Ddeddf Llesiant yw cyfrannu at welliannau i lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ystyrir bod y themâu ym mhob un o nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn berthnasol i'r agenda partneriaeth gymdeithasol:
- a. Mae 'Cymru lewyrchus' yn cynnwys cyfeiriad at 'boblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas'; a
 - b. Mae Cymru fwy cyfartal yn cyfeirio at 'Gymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

Gwaith Teg

69. Mae gwaith teg yn ymwneud â sefyllfa lle mae'r amgylchedd gwaith yn cefnogi ac yn rhoi sylw i lesiant gweithwyr. I'r perwyl hwn, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei phwerau, ei pholisïau a'i dylanwad i hyrwyddo gwaith teg yng Nghymru. Adlewyrchir yr agenda hon yn 'Rhaglen Lywodraethu' bresennol Llywodraeth Cymru a'i haddewid i 'adeiladu economi yn seiliedig ar egwyddorion gwaith teg'.
70. Mae agenda gwaith teg Llywodraeth Cymru yn cael ei harwain gan y dull amlinellir yn adroddiad 'Gwaith Teg Cymru'¹⁵. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2019 ac roedd yn deillio o waith a wnaed gan Gomisiwn Gwaith Teg, grŵp o unigolion allanol a benodwyd gan Weinidogion Cymru i wneud argymhellion ar sut y gall Llywodraeth Cymru hyrwyddo gwaith teg.
71. Mae enghreifftiau o weithgareddau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal i hyrwyddo gwaith teg yn cynnwys:
- sefydlu 'Fforwm Gwaith Teg ym Maes Gofal Cymdeithasol', mewn partneriaeth gymdeithasol, sydd hyd yn hyn wedi rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar gyflawni ei hymrwymiad i dalu'r cyflog byw gwirioneddol ym maes gofal cymdeithasol (ac mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ar y cyngor hwn);
 - creu Fforwm Manwerthu mewn partneriaeth gymdeithasol, sy'n llywio gweledigaeth gyffredin ar gyfer sector manwerthu llwyddiannus a chadarn yng Nghymru sy'n hyrwyddo gwaith teg;
 - ariannu Cynnal Cymru, fel partner achredu'r Sefydliad Cyflog Byw yng Nghymru, i wella'r gwaith o hyrwyddo ac achredu cyflogau byw gwirioneddol;
 - defnyddio dulliau fel y Contract Economaidd a'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi i annog arferion gwaith teg;
 - cynnal Fforwm Iechyd a Diogelwch i rannu gwybodaeth, pryderon a'r arferion gorau;
 - gweithio gyda Llywodraeth y DU i hyrwyddo buddiannau Cymru ar faterion sy'n ymwneud â hawliau a dyletswyddau cyflogaeth a gedwir yn ôl.

Diben y darpariaethau a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael

72. Mewn perthynas â gwaith teg, mae'r Bil yn diwygio adran 4 o'r Ddeddf Llesiant drwy roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas' o fewn y nod presennol 'Cymru lewyrchus'.

73. Diben ac effaith arfaethedig y ddarpariaeth hon yw sicrhau gwaith teg fel rhan o'r disgrifiad o'r nod llesiant 'Cymru lewyrchus', i'w ddilyn gan gyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy o dan y Ddeddf Llesiant.
74. Bydd hyn yn golygu y bydd angen i bob corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 – gan gynnwys Gweinidogion Cymru – ystyried gwaith teg yn eu hymdrechion i gyflawni'r nod llesiant 'Cymru lewyrchus'. Bydd yn galluogi ceisio sicrhau gwaith teg drwy'r broses o bennu a chyhoeddi amcanion llesiant ac adrodd ar gynnydd yn eu herbyn.
75. Mae'r diben hwn a'r effaith arfaethedig yn cyd-fynd ag adroddiad Gwaith Teg Cymru¹⁶, a argymhellodd y dylid integreiddio gwaith teg yn y Ddeddf Llesiant.
76. Bydd y ddarpariaeth yn golygu y bydd 'gwaith teg' yn golygu yn union hynny; a bydd rhoi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas', yn y pen draw yn osgoi dyblygu posibl a negeseuon cymysg nad ydynt yn helpu.
77. Byddwn yn ystyried cynhyrchu cyngor ac arweiniad ar sut y gall sefydliadau feddwl yn effeithiol am waith teg yng nghyd-destun datblygu eu hamcanion llesiant, ac yn benodol am geisio cyflawni'r nod 'Cymru lewyrchus'.

Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol

78. Mae tua £7bn o arian cyhoeddus yn cael ei wario bob blwyddyn drwy gaffael yng Nghymru. Pennwyd y fframwaith deddfwriaethol eang y mae caffael yn gweithredu ynddo gan gyfraith yr UE, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020. Mae'r holl gaffael cyhoeddus sy'n uwch na lefelau penodedig wedi dod o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016 a Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 yng Nghymru a Lloegr, gyda deddfwriaeth gyfatebol yn ei lle yn yr Alban. Yn y Memorandwm Esboniadol hwn byddwn yn cyfeirio at y rhain gyda'i gilydd fel y 'Rheoliadau Caffael'. Maent yn nodi'n bennaf fanylion y gweithdrefnau y mae rhaid eu dilyn ar gyfer caffael - o hysbysebu i ddyfarnu. Mae'r fframwaith sy'n sail i'r Rheoliadau Caffael yn cael ei ddiwygio gan Lywodraeth y DU. Ym mis Awst 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi cytuno y dylai Llywodraeth y DU wneud darpariaeth ar gyfer Awdurdodau Contractio Cymru yn ei Bil Caffael¹⁷. Yn fras, bydd hyn yn cwmpasu'r prosesau sy'n sail i gaffael, ond bydd y Bil hwn yn canolbwyntio ar flaenoriaethau a chanlyniadau polisi.
79. Mae caffael yng Nghymru hefyd yn dod o dan y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a gynlluniwyd i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniad a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae cyrff cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd, ac mae'n cynnwys caffael yn gymaint â

phan fydd penderfyniadau strategol yn cynnwys penderfyniadau ynghylch caffael, mae angen rhoi'r sylw dyledus i ddymunoldeb arfer y swyddogaethau hynny er mwyn lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

80. Mae'r egwyddor bod y ffordd mae cyllid yn cael ei wario yn gallu cael effaith ehangach yn egwyddor sydd wedi'i hen sefydlu. Mae gan Gymru fecanweithiau polisi hirsefydlog sy'n ceisio sicrhau'r canlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol mwyaf posibl drwy gaffael. Y pwysicaf o'r rhain yw Pecyn Cymorth Buddion Cymunedol, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2010 ac sydd bellach wedi cael ei ddiweddarau.
81. Mae'r dull Buddion Cymunedol yn ffordd o ymgorffori gofynion cymdeithasol mewn gwaith caffael er mwyn bod o fudd i'r cymunedau yn yr ardaloedd lle mae'r contractau'n cael eu cyflawni. Dyma fu prif fecanwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer creu swyddi a hyfforddiant drwy gaffael. Fel roedd pethau ar ddiwedd mis Mai 2021, roedd 744 o brosiectau, gwerth bron i £2.7 biliwn, wedi defnyddio'r dull, gan gadw 82% o'r £2.7 biliwn hwnnw yng Nghymru fel cyfuniad o refeniw i fusnesau a chyflogau, gan greu 3,060 o swyddi, 1,604 o brentisiaethau a 143,719 wythnos o hyfforddiant.
82. Mae gwaith teg wedi bod yn flaenoriaeth polisi ar gyfer caffael cyhoeddus ers sawl blwyddyn, gyda Nodiadau Polisi Caffael Cymru (WPPNau) ar Fynd i'r Afael â Chosbrestru mewn Contractau Adeiladu ac ar Arferion Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi Sector Cyhoeddus. Mae'r rhain yn nodi sut y dylid defnyddio trefniadau caffael a rheoli contractau yn arf i wneud yn siŵr nad yw arferion anghyfreithlon ac annheg, megis cosbrestru gweithwyr sy'n aelod o undeb, hunangyflogaeth ffug a'r defnydd annheg o gynlluniau cyflogaeth ambarél a chontractau dim oriau, yn cael eu goddef mewn cadwyni cyflenwi sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus.
83. Yn 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru God Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi, a ddatblygwyd¹⁸ mewn partneriaeth gymdeithasol. Mae ei 12 ymrwymiad yn cynnwys cyhoeddi polisiau a datganiad yn erbyn caethwasiaeth, hyfforddi staff, cynnal asesiadau risg ar gategoriâu gwariant, gwneud yn siŵr nad oes arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesebol yn bodoli mewn cadwyni cyflenwi, a mynnu bod sefydliadau yn ystyried talu mwy na'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w holl staff. Mae'r Cod Ymarfer yn wirfoddol ac ar hyn o bryd mae ganddo ychydig dros 450 o lofnodwyr – cyfran fach o'r sefydliadau a allai ymrwymo i'r cod.
84. Er bod y Cod yn wirfoddol, ac nad yw derbyn grant neu gontract yn amodol ar gofrestru, yn ymarferol disgwylir i sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus gofrestru. Yn 2019, gwnaeth adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg yng Nghymru argymhell y dylid ymestyn cynnwys y Cod i gwmpasu ei ddiffiniad ehangach o waith teg ac y dylai fod yn orfodol ar gyfer y rheini sy'n derbyn arian cyhoeddus.

85. Mae cryfhau'r Economi Sylfaenol yng Nghymru yn flaenoriaeth drawslywodraethol, ac mae ymrwymiad cynyddol i ddefnyddio gwariant y sector cyhoeddus i gefnogi busnesau a chadwyni cyflenwi yng Nghymru. Mae caffael yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod cwmnïau o Gymru yn ennill cymaint o fusnes ag y bo modd er mwyn cryfhau'r economi a chynnal a chreu swyddi.
86. Rhoddir cryn bwyslais hefyd ar gynnwys manteision ac amddiffyniadau amgylcheddol mewn prosesau caffael yng Nghymru, gyda llawer o sefydliadau'n defnyddio offeryn Asesu Risg Cynaliadwyedd i fynd i'r afael â materion fel datgarboneiddio, lleihau gwastraff, cydnerthedd yr hinsawdd, a diogelu'r amgylchedd naturiol.

Y Cod Ymarfer ar Faterion y Gweithlu (neu God y Gweithlu Dwy-Haen)

87. Cyhoeddwyd Cod Ymarfer Dwy Haen diwygiedig yn 2014. Wrth fabwysiadu'r Cod, mae awdurdodau contractio yn ymrwymo i ddilyn egwyddorion Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 ('TUPE') hyd yn oed pan nad yw'r rheoliadau hyn yn berthnasol mewn achos penodol, oni bai bod rhesymau hynod dda dros beidio â gwneud hynny. Mae'r Cod yn diogelu gweithwyr pan fydd gwasanaethau'n cael eu darparu gan drydydd parti drwy gontract allanol. Mae mabwysiadu'r Cod hefyd yn golygu nad yw aelodau newydd o wasanaeth sy'n cael ei ddarparu drwy gontract allanol yn cael eu cyflogi ar delerau llai ffafriol o'u cymharu â staff sy'n cael eu trosglwyddo.
88. Mae'r Cod yn elfen bwysig o ddull Llywodraeth Cymru o sicrhau gwaith teg. Mae'n cynnwys canllawiau caffael, telerau contract enghreifftiol, a phroses amgen ar gyfer datrys anghydfodau, gyda disgwyl i undebau llafur cydnabyddedig gymryd rhan yn y trafodaethau. Disgwylir hefyd i ddarparwyr gwasanaethau estyn y gofynion i is-gontractwyr os oes angen. Cynhwysir trefniadau monitro hefyd, gyda disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau ddarparu gwybodaeth i'r corff cyhoeddus pan ofynnir iddynt wneud hynny, er mwyn gallu monitro cydymffurfiaeth. Mae'n ofynnol hefyd i awdurdodau contractio adrodd yn flynyddol i Weinidogion Cymru ynghylch y contractau y maent wedi'u hallanoli yn y flwyddyn flaenorol, gan nodi a gafodd darpariaethau'r Cod eu cymhwyso neu beidio.

Diben y darpariaethau a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael

89. Nodau'r dyletswyddau caffael cyhoeddus yn y Bil yw:
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio ddangos eu bod wedi ymrwymo i agenda polisi caffael Llywodraeth Cymru, er mwyn cefnogi twf economaidd, cynyddu cydraddoldeb a sicrhau cadwyni cyflenwi cadarn a gwasanaethau cyhoeddus sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor;
 - rhoi eglurder ynghylch y nifer fawr o ddisgwyliadau polisi sy'n gysylltiedig â gweithgareddau caffael;

- sicrhau bod y canlyniadau cymdeithasol gyfrifol sy'n gysylltiedig â'r nodau llesiant yn ganolog i strategaethau a phrosesau caffael;
- gwella'r cysylltiad rhwng prosesau caffael a sicrhau canlyniadau drwy reoli contractau;
- gwella tryloywder drwy gofnodi metrigau a chyhoeddi adroddiadau rheolaidd yn rhannu arferion da a meysydd lle mae angen gwella;
- sicrhau bod awdurdodau contractio yn derbyn y cyfrifoldeb am sicrhau bod amodau contract yn cael eu cynnal drwy gadwyni cyflenwi cyfan, yn enwedig mewn contractau adeiladu mawr.

90. Mae'r dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol yn cwmpasu'r cylch caffael llawn h.y. cynllunio, caffael, rheoli contractau, adolygu a chydymffurfio. Mae'r set gyntaf o ddyletswyddau yn ymdrin â sut mae awdurdodau contractio sydd wedi'u cynnwys yn y Bil yn llunio strategaethau ac yn adrodd ar ganlyniadau eu gweithgareddau caffael.
91. Mae dyletswydd gyffredinol i ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol wrth gynnal pob caffaeliad mawr. Bydd hyn yn berthnasol i bob awdurdod contractio, ac i'w holl weithgareddau caffael. Bydd hefyd yn ofynnol i bob awdurdod contractio gyhoeddi Amcanion ar sut y bydd eu gweithgareddau caffael yn cyfrannu at nodau llesiant.
92. Mae dyletswydd arall i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r Amcanion hyn wedi'i chynnwys ar gyfer mathau penodol o gaffael, a ddisgrifir fel 'caffaeliadau rhagnodedig'. Ar gyfer caffael sy'n gysylltiedig ag adeiladu, mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol, fel yn yr Alban, i bob caffaeliad dros £2 miliwn (yn y Bil hwn mae'r £2 miliwn hwn yn cynnwys TAW). Bydd y ddyletswydd hon hefyd yn berthnasol i bob contract allanol ni waeth beth fo ei faint. Ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, bydd y trothwy pan fydd y ddyletswydd hon yn berthnasol yn cael ei bennu gan reoliadau, ond y bwriad polisi yw y bydd y rhain yn adlewyrchu trothwyon sy'n deillio o drothwyon Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael gan Lywodraethau ac yn cael eu diweddarau bob dwy flynedd.
93. Bydd yn ofynnol i awdurdodau contractio roi sylw i ganllawiau statudol wrth gyflawni eu dyletswyddau. Mae nifer o ganllawiau a phecynnau cymorth eisoes ar gael sy'n cwmpasu llawer o'r meysydd hyn, a bydd cyhoeddi canllawiau statudol newydd yn rhoi cyfle i dynnu'r rhain at ei gilydd, eu symleiddio lle bo angen, a mynd i'r afael â meysydd sy'n gorgyffwrdd o fewn y canllawiau presennol.
94. Mae cefndir datblygu caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol a gwaith teg, gan gynnwys Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi, yn cael eu hamlinellu ym Mhennod 3.

Mae'r Cod hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, a chan ei fod yn cynnwys gwaith teg mewn cadwyni cyflenwi, bydd yr elfennau hynny y mae'n addas eu gwneud yn orfodol yn cael eu hymgorffori yn y canllawiau statudol. Bydd angen i'r Cod fodoli ar ei ben ei hun hefyd fel y gall busnesau a sefydliadau'r trydydd sector, er enghraifft, ei fabwysiadu'n helaeth.

95. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys dyletswydd i gyhoeddi strategaeth gaffael. Mae llawer o gyrff cyhoeddus eisoes yn cyhoeddi dogfen o'r fath, ond mae nifer o'r adolygiadau a ddisgrifir uchod wedi dangos bod eu hansawdd yn anghyson. Mae hyn yn caniatáu i bob corff ymdrin â'i flaenoriaethau a'i brosesau sefydliadol ei hun yn ogystal â chynnwys a amlinellir yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau, a bydd hyn yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch ansawdd a chysondeb. Bydd hefyd yn ofynnol i awdurdodau contractio gyhoeddi cofrestr o'r holl gontractau presennol sy'n cael eu rhagnodi yn y rheoliadau.
96. Bydd yn ofynnol i awdurdodau contractio sydd wedi cynnal 'contractau rhagnodedig' yn y flwyddyn flaenorol gyhoeddi adroddiad blynyddol yn disgrifio eu gweithgareddau caffael dros y flwyddyn flaenorol ac i ba raddau y maent wedi cyflawni eu Hamcanion. Bydd hyn yn caniatáu cyhoeddi cyflawniadau a rhannu arferion da. Bydd yr adrodd hwn yn cael ei integreiddio mor agos â phosibl i ofynion adrodd y Ddeddf Llesiant. Bydd yr adroddiadau hyn hefyd yn cynnwys manylion gweithgareddau caffael sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol. Ar ôl i'r adroddiadau hyn gael eu cyhoeddi, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi adroddiad cryno yn tynnu sylw at arferion da a meysydd gwan, ac yn cynnwys data perthnasol eraill.
97. Yr effeithiau y bwriedir i'r dyletswyddau hyn eu cael yw y rhoddir rhagor o flaenoriaeth i ganlyniadau sy'n gymdeithasol gyfrifol ym maes caffael, a byddant yn cael eu hystyried yn ofalus fel rhan o ddiffiniad mwy cyfannol a hirdymor o werth am arian.

Dyletswyddau rheoli contractau

98. Nodir dwy ddyletswydd benodol ar gyfer rheoli contractau yn y Bil. Mae eu cynnwys yn adlewyrchu pwysigrwydd cryfhau'r cysylltiad rhwng gofynion sydd wedi'u cynnwys mewn ymarferion caffael a diwydrwydd dyladwy mewn cadwyni cyflenwi adeiladu mawr a chontractau sy'n cael eu hallanoli. Mae'r dyletswyddau hyn yn codi mewn perthynas ag ystyried a chynnwys cymal gweithiau cyhoeddus cymdeithasol a chymal gweithlu cyhoeddus cymdeithasol o fewn contractau penodedig. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi cymalau enghreifftiol.
99. Mae un o'r dyletswyddau rheoli contractau yn cynrychioli cryfhau Cod Ymarfer y Gweithlu (dwy haen). Mae rhagor o fanylion ynglŷn â'r Cod Ymarfer yn Adran 3 o'r ddogfen hon. Yn gryno, mae'n darparu y dylai prosesau contractio ac aildendro sy'n cynnwys staff sy'n trosglwyddo o gyrff cyhoeddus gael eu cynnal i sicrhau bod y telerau a'r amodau'n cael eu diogelu a bod y pensiynau'n aros fwy neu lai yr un fath. Mae hefyd yn

sicrhau nad yw pobl newydd sy'n ymuno â gweithlu sydd wedi cael eu trosglwyddo i gontractwr allanol yn cael eu cyflogi ar delerau llai ffafriol.

100. Mae'r Bil yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau contractio i hysbysu Gweinidogion Cymru, drwy eithriad, am benderfyniad i beidio â chynnwys telerau'r contract enghreifftiol wrth allanoli contractau ar gyfer gwasanaethau ymhell cyn hysbysebu'r contract, lle bo hynny'n bosibl. Ar hyn o bryd, unwaith y flwyddyn, a hynny'n ôl-weithredol, y mae'r broses hon yn cael ei chynnal. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu hysbysiaid am eithriadau i asesu a oes sail resymol dros beidio â chynnwys y cymalau. Gellir ceisio arbenigedd allanol, er enghraifft gan is-grŵp y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar gaffael. Rhoddir cyngor i Weinidogion Cymru os bydd angen er mwyn gallu darparu ymateb i'r awdurdod contractio perthnasol (a all gynnwys mynnu ei fod yn cynnwys y cymalau). Bydd crynodeb o ganlyniad pob un o'r prosesau hyn yn cael ei gofnodi a'i gyhoeddi.
101. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd y Cod hwn yn cael ei adolygu i ddarparu ar gyfer y newidiadau hyn, a chyda'r nod pellach o'i gymhwyso i bob awdurdod contractio.
102. Nid oes unrhyw beth tebyg i'r ddyletswydd rheoli contractau arall mewn cyfraith neu bolisiau presennol, ond mae'n mynd i'r afael â'r angen am ragor o ddiwydrwydd dyladwy wrth osod telerau contract sy'n gymdeithasol gyfrifol drwy gadwyni cyflenwi cyfan. Mae'r ddyletswydd hon yn canolbwyntio ar y sector adeiladu lle y gall fod yn anodd mynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â rhwymedigaethau cymdeithasol, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud ag arferion cyflogaeth annheg ac anghyfreithlon, drwy gadwyni cyflenwi hir a chymhleth.
103. Bydd y ddyletswydd yn debyg i ddyletswydd y cymal gweithlu cyhoeddus cymdeithasol y cyfeirir ati uchod, gan fod rhaid i gyrff sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd hysbysu Gweinidogion Cymru, ymlaen llaw, pryd bynnag nad ydynt yn bwriadu cynnwys cymalau contract cymdeithasol gyfrifol mewn contractau mawr. Diffinnir y rhain fel contractau adeiladu neu gontractau yn ôl y gofyn o fframweithiau sydd â gwerth amcangyfrifedig o £2 miliwn neu fwy (gan gynnwys TAW). Bydd canllawiau statudol yn cynnwys manylion am yr hyn y dylid ei gynnwys o fewn y telerau contract hyn.
104. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol, os yw corff sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn cynnwys cymalau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn ei brif contract, iddo hefyd sicrhau bod y cymalau contract hyn yn cael eu estyn drwy gadwyni cyflenwi cyfan a bod proses yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau bod hyn yn digwydd. Un o brif nodau'r ddyletswydd hon yw trosglwyddo gofynion i gadwyni cyflenwi cyfan a gorfodi awdurdodau contractio i fonitro eu cadwyni cyflenwi i sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu bodloni.

105. Er mai'r bwriad yw canolbwyntio ar y diwydiant adeiladu ac ar gontractau mwy yn y lle cyntaf, er mwyn profi sut y rhoddir y ddyletswydd hon ar waith, ac i wneud yn siŵr bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau posibl, caiff Gweinidogion Cymru estyn y ddyletswydd hon i sectorau eraill yn economi Cymru yn nes ymlaen.
106. Yr effaith y bwriedir i'r dyletswyddau rheoli contractau hyn ei chael yw bod canlyniadau sy'n gymdeithasol gyfrifol yn cael eu hymgorffori mewn contractau ac yn cael eu cyflawni, a bod y rhwymedigaethau hyn yn cael eu trosglwyddo i is-gontractwyr mewn cadwyni cyflenwi. Bydd hyn yn rhoi rhagor o sicrwydd ynghylch safonau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys ar gyfer gweithwyr a'r amgylchedd. Bydd hefyd yn rhoi rhagor o hyder i gynigwyr y byddan nhw a'u cystadleuwyr yn cael eu gorfodi i gyflawni eu rhwymedigaethau cytundebol.

Craffu a Herio

107. Ar gyfer y dyletswyddau caffael cyhoeddus yn y Bil hwn, y prif gyfrwng ar gyfer gwella perfformiad fydd rhagor o dryloywder drwy gyhoeddi adroddiadau a data blynyddol ar ganlyniadau sy'n gymdeithasol gyfrifol. Cyflawnir gwaith craffu drwy'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a'i is-grŵp ar gaffael cyhoeddus fel rhan o'i gylch blynyddol.
108. O ran dyletswyddau'r cymal gweithiau cyhoeddus cymdeithasol a'r cymal gweithlu cyhoeddus cymdeithasol, mae cam herio pellach ar gyfer adrodd ar eithriadau wedi cael ei gynnwys, fel y'i disgrifir uchod. Bydd canlyniadau'n cael eu hadrodd i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a'i is-grŵp ar gaffael cyhoeddus, ac wedyn byddant yn cael eu cyhoeddi. Yn ogystal, bydd crynodeb o'r adroddiadau hyn hefyd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar gaffael a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.
109. Gwneir darpariaeth hefyd i ymchwiliadau caffael gael eu cynnal gan Weinidogion Cymru ar sut y mae awdurdod contractio yn cynnal caffael cyhoeddus. Gall ymchwiliadau ymwneud â gwaith caffael penodol neu sut y mae awdurdod contractio cynnal caffael yn fwy cyffredinol. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd Gweinidogion Cymru yn cael pwerau ymchwilio o ganlyniad i Fil caffael y DU. Bydd y rhain yn ymwneud â chydymffurfio â phrosesau caffael yn hytrach nag â chanlyniadau llesiant, ond bydd achlysuron pan fydd materion o dan ymchwiliad yn ymwneud a'r ddau ddarn o ddeddfwriaeth.
110. Un achlysur a allai achosi ymchwiliad fyddai pe bai awdurdod contractio heb gynnwys y cymalau gweithlu neu weithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn contract adeiladu mawr neu gontract allanoli, ac wedi methu hysbysu Gweinidogion Cymru o hyn, a'i resymau dros wneud hynny. Achlysur arall fyddai pan fo awdurdod contractio wedi methu cyhoeddi ei strategaeth, adroddiad blynyddol neu amcanion caffael heb reswm da, neu os yw'r dogfennau hyn yn methu'n sylweddol â bodloni'r disgwyliadau a nodir yn y canllawiau statudol. Achlysur arall fyddai pe bai awdurdod

contractio wedi methu casglu ac adrodd data y mae rheoliadau ar adroddiadau blynyddol yn eu gwneud yn ofynnol, neu os yw'r ffigurau a gyhoeddwyd yn dangos perfformiad gwaeth o lawer na pherfformiad sefydliadau tebyg, a hynny heb reswm da.

111. Gallai'r dystiolaeth a allai achosi ymchwiliad o dan adran 41 ddod o nifer o ffynonellau, ond y ffynhonnell fwyaf debygol fyddai is-grŵp caffael statudol yr CPG, drwy ystyried adroddiadau blynyddol cyhoeddedig ac unrhyw dystiolaeth arall. Bydd ffynonellau eraill o dystiolaeth, gan gynnwys y swyddogaeth goruchwyllo yr ydym yn disgwyl ei gosod i reoli cydymffurfedd â Bil caffael y DU. Mae dulliau ar gyfer goruchwyllo ac atebolrwydd yn faes rhyngweithio rhwng y ddau Fil hyn. Nid yw'r manylion ar gyfer gosod a gweithredu'r dulliau hyn ar gael eto ond rydym yn disgwyl i'r rhain gael eu symleiddio i osgoi dyblygu, a byddwn yn egluro sut y bydd hyn yn rhyngweithio â is-grŵp caffael yr CPG.

112. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu gwasanaeth adborth fel ffordd i ymgeiswyr aflwyddiannus a rhanddeiliad eraill godi pryderon ynghylch cydymffurfio â'r weithdrefn ddeddfwriaethol caffael newydd yng Nghymru. Mae potensial i'r is-grŵp caffael ddarparu cyngor yn deillio o adborth yn ymwneud â dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol. Os yw'r cyngor hwn yn dangos achosion niferus o ddiffyg cydymffurfio, gallai hefyd arwain at ymchwiliad caffael. Ymysg enghreifftiau o faterion a allai gael eu codi â'r gwasanaeth adborth ac achosi ymchwiliad mae achosion niferus o beidio â gorfodi taliadau yn brydlon mewn cadwyni cyflenwi, neu fethiannau niferus i sicrhau bod canlyniadau llesiant y cytunwyd arnynt ac a nodwyd mewn amcanion a chontractau yn cael eu bodloni."

Canlyniadau anfwriadol

113. Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau ar gyfer caffael cyhoeddus yn y Bil yn gysylltiedig â disgwyliadau polisi presennol, ac maent wedi'u cynllunio i atgyfnerthu polisiâu a chryfhau'r mecanweithiau presennol. Mae darpariaethau yn y gyfraith sy'n cyfateb i rai o'r darpariaethau hyn, sydd wedi bod ar waith yn llwyddiannus ers cryn amser – er enghraifft y Ddyletswydd Caffael Cynaliadwy yn Neddf Diwygio Caffael (yr Alban) 2014. Felly, ni ddisgwylir unrhyw ganlyniadau anfwriadol mawr.

114. Mae dyletswyddau rheoli contractau adeiladu'n ddull newydd o fodloni'r angen am ragor o ddiwydrwydd dyladwy mewn cadwyni cyflenwi. Mae offerynnau mapio cadwyni cyflenwi yn cael eu defnyddio mewn rhai rhannau o'r diwydiant adeiladu, ond nid oes model penodol ar gael i olrhain canlyniadau cymdeithasol. Un canlyniad anfwriadol a allai ddeillio o'r ddyletswydd hon yw y bydd nifer o offerynnau sy'n debyg i'w gilydd yn cael eu datblygu ar gyfer archwilio a sicrhau tryloywder mewn cadwyni cyflenwi yn y diwydiant adeiladu. Gallai rhoi'r rhain ar waith fod yn gostus a chynyddu costau i gyflenwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig. Rhaid lliniaru'r canlyniad hwn drwy gweithio gyda gweithredwyr bach a

chanolig yn y diwydiant adeiladu, yn ogystal â chontractwyr haen gyntaf wrth i systemau newydd gael eu harchwilio a'u datblygu.

115. Os na chymerir gofal i sicrhau bod y disgwyliadau a roddir ar gyflenwyr o ganlyniad i'r Bil hwn yn berthnasol ac yn gymesur, gallai hyn leihau cystadlu iach am gontractau gan rai mathau o gynigwyr – er enghraifft, busnesau bach a chanolig a sefydliadau sydd hefyd yn gweithredu y tu allan i Gymru. Rhaid lliniaru hyn drwy ystyried cymesuredd yn ofalus wrth i ganllawiau statudol a chanllawiau eraill gael eu datblygu, a thrwy ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid wrth i ganllawiau gael eu datblygu.

Tystiolaeth

Partneriaeth gymdeithasol

116. Mae ein cynigion i sefydlu partneriaeth gymdeithasol yn seiliedig ar gorff o ymchwil¹⁹²⁰ sy'n tynnu sylw at y manteision y gall gweithio mewn partneriaeth eu cynnig i gyflogwyr a gweithwyr, gan gynnwys gwella cynhyrchiant, perfformiad, arloesedd, llesiant ac amodau gwaith. Gall partneriaethau cymdeithasol gyfrannu at sicrhau cymdeithas fwy cyfartal a gwella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd. Bydd uchelgais y Bil yn cyfrannu at wella'r ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu a gwella llesiant pobl fel unigolion ac fel grŵp.
117. Mae llawer o fodolau partneriaeth gymdeithasol yn bodoli ledled y byd – rhai statudol a rhai anstatudol – ac yn llywodraethu gwahanol elfennau o'r economi a gwasanaethau cyhoeddus. Gan ddysgu oddi wrth brofiadau ac arferion da ledled y byd, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu adeiladu ar y modelau partneriaeth gymdeithasol sydd wedi dod i'r amlwg ac sydd wedi datblygu yng Nghymru ers datganoli.

Partneriaethau cymdeithasol yng Nghymru

118. Fel y nodwyd eisoes, mae'r dull partneriaeth gymdeithasol wedi'i hen sefydlu yng Nghymru, ac mae wedi bod yn arbennig o berthnasol mewn cyfnod o her ac ansicrwydd, gyda'r Uwchgynadleddau Economaidd mewn ymateb i argyfwng ariannol 2008, ac yn fwy diweddar wrth ymateb i COVID-19.
119. Cafodd Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol (SSPC) Llywodraeth Cymru ei sefydlu yn sianel gychwynnol i Weinidogion Cymru gysylltu â phartneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid ehangach, gan greu partneriaeth wirfoddol i ddarparu ar gyfer llais a chyfranogiad partneriaid cymdeithasol, mewn ymateb i bandemig COVID-19. Fe wnaeth y Cyngor roi cyngor ar ganllawiau, llacio'r cyfyngiadau a'r blaenoriaethau ar bob cam. Mae'r Cyngor Cysgodol wedi dod i ben a'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol wedi'i sefydlu i baratoi ar gyfer yr CPG. Mae'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol yn gweithio ar y cyd â phartneriaid cymdeithasol i gynghori ar osod a datblygu trefniadau partneriaeth gymdeithasol i'r dyfodol yng Nghymru.
120. Mae tystiolaeth ymchwil yn awgrymu, mewn partneriaethau cymdeithasol aml-ochr, ei bod yn bwysig bod rhanddeiliaid anllywodraethol yn cyfrannu'r un lefel o fewnbwn â rhanddeiliaid llywodraethol²¹. Rhaid i bob partner fod yn rhydd ac yn gyfrifol wrth lywodraethu a negodi ar y cyd²². Ymhlith y ffactorau sy'n bwysig ar gyfer sefydlu partneriaethau cymdeithasol effeithiol mae sefydlogrwydd, cydweithredu sefydliadol, rheoli gwrthdaro ac ymrwymiad parhaus²³. Mae'r darpariaethau yn y Bil i sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol gyda chynrychiolaeth gan Weinidogion

Cymru a chynrychiolaeth gyfartal gan gyflogwyr ac undebau llafur yn seiliedig ar y cysyniad hwn.

121. Mae strwythurau partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru yn bodoli ar amrywiaeth o lefelau – lefel leol, lefel sector a lefel genedlaethol, ac maent wedi parhau i datblygu dros amser mewn ymateb i gyd-destunau a gofynion sy'n newid. Mae adolygiad diweddar o'r Cyngor Datblygu Economaidd gynt wedi arwain at gyflwyno Bwrdd Cyngori Gweinidogol ar yr Economi, Cyfarfodydd Bord Gron ar yr Economi bob chwarter ac uwchgynadledau economaidd ddwywaith y flwyddyn yn ei le, gyda'r nod o estyn a chryfhau ymgysylltiad ag amrywiaeth eang o randdeiliaid. Arweiniodd adolygiad o Gyngor Partneriaeth y Gweithlu at gyflwyno trefniadau newydd yn 2018, gyda Chyd-bwyllgor Gweithredol a chyd-ysgrifenyddiaeth yn cael eu cyflwyno; fodd bynnag, wrth i'r ymrwymiad i gryfhau partneriaethau cymdeithasol ddod i rym ar draws y Rhaglen Lywodraethu newydd, mae rôl a phwrpas Cyngor Partneriaeth y Gweithlu yn cael eu hailarchwilio, gan gydnabod bod y strwythur hwn bellach yn bodoli fel rhan o system partneriaeth gymdeithasol gysylltiedig sy'n dod i'r amlwg lle mae angen archwilio ymhellach y perthnasoedd a'r rolau rhwng gwahanol drefniadau partneriaeth gymdeithasol. Hefyd, mae'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol wedi herio rhagdybiaethau ynghylch natur a strwythur partneriaethau cymdeithasol a'r ffordd maent yn cael eu gweithredu, gan dynnu sylw at ddulliau amgen a mwy hyblyg a ddeilliodd o'r angen i ymateb i bandemig COVID yn gyflym. Tynnodd ei waith sylw at werth gweithredu mewn modd hyblyg ac addasol sy'n gallu mynd i'r afael â'r materion dan sylw ac sydd o bwys i bartneriaid cymdeithasol, gyda phartneriaid yn cyfrannu'n amlach ac yn agosach. Bydd Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol yn adeiladu ar rôl partneriaethau cymdeithasol ledled Cymru y mae'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol, y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol a strwythurau cenedlaethol eraill eisoes wedi gosod y sylfeini ar eu cyfer, ac yn cryfhau'r partneriaethau hynny ymhellach.

Partneriaethau Cymdeithasol yn Ewrop

122. Mae ymchwil a wnaed ym mis Gorffennaf 2020, *Mitigating the COVID-19 effect: Emergency economic policy-making in Central Europe*²⁴ yn dadansoddi'r broses o lunio polisïau economaidd ar ddechrau'r epidemig mewn pum gwlad yng nghanol Ewrop, Awstria, Tsiecia, Hwngari, Slofacia a Slofenia. Mae'r dystiolaeth yn dangos, lle mae partneriaethau cymdeithasol yn gryf, fel yn Awstria, fod y gwaith o lunio polisïau'n fwy cynhwysol gydag amrediad ehangach o fusnesau ac undebau'n cymryd rhan yn o broses o lunio polisïau, ac arweiniodd hyn at bolisïau a oedd yn cefnogi rhagor o weithwyr a busnesau. Mae'r ymchwil hon hefyd yn dangos bod mecanweithiau partneriaeth gymdeithasol yn newid y ffordd mae polisïau'n cael eu gwneud ac yn arwain at ganlyniadau gwell.

123. Nododd dadansoddi a gynhaliwyd gan Lywodraeth yr Alban yn 2002 enghreifftiau perthnasol o arfer da, egwyddorion allweddol, materion i fynd i'r afael â nhw ac opsiynau i'w hystyried yng nghyd-destun yr Alban. Mae'r prif ganfyddiadau'n dangos y canlynol:

- mae partneriaeth gymdeithasol yn parhau i fod y norm yng ngorllewin Ewrop ac yn aml mae'n cynnwys ymgynghori ar bolisi cyflogaeth. Dim ond yn Awstria ac Iwerddon y gwelir yr arfer o ddatblygu polisiau ar y cyd yn cael ei ddefnyddio'n helaeth iawn. Mae partneriaeth gymdeithasol yn gyfyngedig yn y DU, lle nad oes unrhyw gyd-ddatblygu polisi sylweddol yn digwydd ar hyn o bryd;
- mae cysyniadau allweddol ynghylch partneriaethau cymdeithasol yn amrywiol iawn ac yn aml yn benodol i'r wlad;
- mae dulliau partneriaeth gymdeithasol yn arbennig o briodol mewn gwledydd llai fel Awstria, Gwlad Belg ac Iwerddon sy'n tueddu i fod yn fwy agored i newidiadau yn yr economi ryngwladol ac yn fwy abl i ddod â'r prif randdeiliaid gwleidyddol ac economaidd at ei gilydd;
- y dadleuon mwyaf cyffredin o blaid partneriaethau cymdeithasol yw eu bod yn lleihau gwrthdaro ac yn arwain at fanteision economaidd;
- cytundeb rhwng partneriaid ar fanteision economaidd partneriaeth gymdeithasol yw'r ffactor allweddol wrth benderfynu a yw polisiau'n cael eu llunio ar y cyd yn helaeth;
- mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau cymdeithasol llwyddiannus yn dechrau wrth ymateb i broblemau cenedlaethol difrifol fel rhyfel, chwyddiant, diffyg twf economaidd ac ati. Mae'r gallu i greu senarios 'ennill-ennill' lle mae pob parti dan sylw yn elwa ar gyfranogi yn hanfodol i lwyddiant a hirhoedledd y bartneriaeth gymdeithasol.

Datblygu Cynaliadwy a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

124. Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus adroddiad 'Cyflawni ar Gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: 'Y Stori Hyd Yma' ym mis Mawrth 2021, a ganfu nad yw cyrff cyhoeddus wedi gwneud digon i feithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith eu defnyddwyr gwasanaeth o'r newid i ddatblygu cynaliadwy ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Yn eu canfyddiadau, roeddent yn ystyried nad yw cyrff cyhoeddus, hyd yma, wedi manteisio'n llawn ar yr arbenigedd a'r gallu yn y trydydd sector a'r sector preifat i gefnogi eu gwaith o dan y Ddeddf. Felly, gallai cyrff cyhoeddus sicrhau manteision ychwanegol drwy weithio ochr yn ochr â sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat i fabwysiadu egwyddorion y Ddeddf pan fyddant yn darparu gwasanaethau, ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus ac ar ei ran.

125. Yn 'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020: Yn Fras²⁵, cydnabuwyd nad yw rhai nodau'n cael eu deall cystal, ac mae diffyg eglurder ynghylch sut mae cyrff cyhoeddus yn eu cyflawni. Mae hyn yn arbennig o wir am 'Gymru lewyrchus', 'Cymru gydnherth' a 'Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang'. Mae tuedd i ddibynnu ar deitl y nodau, gan anwybyddu hyd a lled eu diffiniadau cyfreithiol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd cynllun corfforaethol/adroddiad blynyddol corff cyhoeddus yn dweud 'Mae'r amcan hwn yn ymwneud â chodi cyrhaeddiad addysgol ac felly, yn bodloni Cymru lewyrchus', heb archwilio'r cysylltiadau rhwng y diffiniad llawn o'r nod hwnnw (er enghraifft, sgiliau sy'n addas ar gyfer y dyfodol, cymdeithas carbon isel, gwaith teg a gwaith addas), nodau eraill a sut y gallent integreiddio meysydd gwaith a chynyddu eu cyfraniad at lesiant cymaint ag y bo modd.
126. Yn yr adroddiad *Gwaith Teg Gymru*²⁶ mae'r Comisiwn Gwaith Teg yn cydnabod bod gwaith teg yn elfen hanfodol mewn datblygu cynaliadwy ac wedi'i ddiffinio gan adran 2 o'r Ddeddf fel 'y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru'. Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn pwysleisio'r angen i gynnwys gwaith teg o fewn set ehangach o amcanion economaidd a chymdeithasol, y gellid eu hategu drwy integreiddio gwaith teg yn benodol o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Gwaith Teg

127. Dengys tystiolaeth y gall gwaith teg fel y'i diffinnir gan y Comisiwn Gwaith Teg yn yr adroddiad *Gwaith Teg Cymru*²⁷ gyfrannu at ragor o ymrwymiad a morâl gan y gweithlu, lefelau is o absenoldeb, recriwtio mwy effeithiol, trosiant staff is, cynhyrchiant gwell a gwella agweddau eraill ar berfformiad²⁸. Yn yr un modd, gall gwaith teg effeithio'n uniongyrchol ar lesiant pobl fel unigolion ac fel grŵp. Ceir tystiolaeth glir sy'n dangos yn gyson fod unigolion mewn swyddi diogel, sicr sy'n cael eu gwobrwyo'n deg yn byw bywydau hapusach ac iachach²⁹.
128. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod gwaith teg yn galluogi unigolion i ddiwallu eu hanghenion, yn rhoi ymdeimlad o foddhad ac yn cefnogi unigolion i ddatblygu a thyfu. Ar lefel gymdeithasol, mae gwaith teg yn helpu i hyrwyddo cydlyniant, cyfranogiad a chyfiawnder cymdeithasol ac economaidd. Am y rhesymau hyn, mae gwaith teg yn fodd i helpu i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
129. Cafodd gwaith y Comisiwn Gwaith Teg yng Nghymru ei lywio gan amrediad o ymchwil a dadansoddiadau sydd wedi'u restru yn llyfryddiaeth *Gwaith Teg Cymru*³⁰. Mae'r deunyddiau ymchwil sydd ar gael yn nodi manteision economaidd a chymdeithasol gwaith teg yn y tymor hir³¹. Mae model a ddatblygwyd gan Ganolfan Ymchwil Gyflogaeth yr Alban yn dangos beth yw rôl gwaith teg o ran sbarduno arloesedd a chynhyrchiant yn y gweithle, a lle mae cyflogwyr a gweithwyr yn elwa ar fanteision y

gwaith hwnnw (Confensiwn Gwaith Teg 2016³²). Drwy weithredu arferion gwaith teg yn eang, mae potensial ar gyfer twf economaidd sy'n gynhwysol (Confensiwn Gwaith Teg 2016³³).

130. Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu bod gwobrwyo teg yn cynyddu lefelau cynhyrchiant, gan ddangos bod cynhyrchiant yn cael ei adlewyrchu'n uniongyrchol gan gyflogau; hynny yw, po isaf yw'r cyflog cyfartalog o fewn rhanbarth penodol, po isaf yw'r perfformiad o ran cynhyrchiant yn yr un rhanbarth³⁴ (gweler Felstead 2020).
131. Gall busnesau sy'n gallu cynnig y cyfle i ddatblygu gyrfa ddisgryl manteision fel cronfa ehangach a chyfoethocach o dalent, effaith gadarnhaol ar recriwtio, cadw staff ac enw da, a dyrannu adnoddau'n fwy effeithlon (Findlay 2016). Yng nghyd-destun gwasanaethau cyhoeddus, gall canlyniadau buddiol o'r fath gael effaith gadarnhaol ar les gweithwyr a gwella'r ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu.
132. Mae sicrwydd ynghylch swyddi yn cynnig amrediad o fanteision, gan gynnwys rhagor o hyblygrwydd a'r gallu i addasu ar gyfer busnesau, effaith ar refeniw treth a llywodraeth sy'n gwario llai ar fudd-daliadau, llai o dlodi ymhlith plant, a gwell cyrhaeddiad, iechyd a llesiant ar lefel gymdeithasol (Findlay 2016).
133. Mae gweithlu hyblyg o fudd i'r economi drwy greu cyfleoedd i gyflogwyr a gweithwyr, heb yr amgen am ymrwymïadau hirdymor gan y naill grŵp na'r llall³⁵.
134. Mae tystiolaeth sy'n cysylltu gwaith teg ac ansawdd gwaith ag incwm cartref gwell a mwy diogel, a safonau byw a chyfleoedd bywyd gwell. O'r herwydd, gall gwaith teg gael effaith gadarnhaol ar y gweithiwr unigol a'i ddibynyddion, gan gynnwys plant. Mae cyfran sylweddol o blant sy'n byw mewn tlodi ar aelwydydd lle mae o leiaf un rhiant mewn gwaith – yn anffodus mae ansawdd y gwaith yn golygu nad yw'n eu codi allan o dlodi a dyma un o'r rhesymau pam mae gwaith tecach yn bwysig.

Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol

135. Mae nifer o ffynonellau ymchwil a chyhoeddiadau academiaidd a llywodraeth ar gaffael cyhoeddus cynaliadwy sy'n gymdeithasol gyfrifol. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau cryno megis *UN Procurement Practitioner's Handbook*, *Green Public Procurement* gan y Comisiwn Ewropeaidd, a *Sustainable Procurement in the United Kingdom public sector*³⁶, sy'n canolbwyntio ar y tri math o ddatblygu cynaliadwy – amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.
136. Yn y deunyddiau hyn mae pwyslais llawer cryfach ar fentrau amgylcheddol nag ar fentrau cymdeithasol mewn caffael cyhoeddus cynaliadwy/cymdeithasol gyfrifol. Gall hyn fod oherwydd bod mentrau cymdeithasol yn anoddach eu mesur a gallant fod yn llai pwysig i gyflenwyr³⁷. Mae diddordeb cynyddol yn y deunyddiau o ran sut y cynhelir

amcanion cymdeithasol gyfrifol drwy gadwyni cyflenwi cyfan, gyda'r rhan fwyaf o astudiaethau'n cadarnhau bod cadwyni cyflenwi modern hir a chymhleth yn gwneud hyn yn arbennig o anodd.

137. Mae rhai ymchwilwyr wedi dangos y gall caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol fod o fudd ariannol i fusnesau drwy gynnal perfformiad ariannol, er enghraifft drwy osgoi sylw negyddol yn y cyfryngau³⁸. Mae astudiaethau eraill wedi dangos y gall hyrwyddo arloesedd³⁹, ac y gall cwsmeriaid ffyddlon o ganlyniad i arferion caffael moesegol arwain at gontractau hwy⁴⁰.
138. Mae un astudiaeth yn nodi, er y gall caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol fod yn fwy costus, y gall fframwaith rheoleiddio a arweinir gan y llywodraeth gyflwyno cystadlu sy'n cynnwys rheolau a gwobrau sy'n arwain at ganlyniadau er budd y gymdeithas gyfan⁴¹. Mae hyn yn golygu nad yw cwmnïau sy'n cadw at y rheolau o dan anfantaes gystadleuol oherwydd costau uwch. Mae'r awduron, Ertl a Schebesta, hefyd yn nodi y byddai angen i'r fframwaith rheoleiddio hwn hwyluso partneriaeth i leihau costau a biwrocratiaeth ddiangen.
139. Mae'r fframwaith rheoleiddio hwn eisoes ar waith mewn rhannau o'r DU. Mae Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio yn Lloegr ystyried sut y gallant sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach pan fyddant yn cynnal gweithgareddau caffael. Yn yr Alban, mae Deddf Diwygio Caffael (yr Alban) 2014 yn rhan o'r ddeddfwriaeth caffael cyhoeddus sy'n rheoli sut mae cyrff cyhoeddus yr Alban yn prynu nwyddau, gwaith a gwasanaethau. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi strategaethau caffael i nodi sut y maent yn bwriadu cyflawni eu gweithgareddau caffael a reoleiddir a chyhoeddi Adroddiadau Caffael Blynyddol. Mae'r Adroddiad Blynyddol ar Weithgareddau Caffael yn yr Alban yn crynhoi canfyddiadau'r adroddiadau hyn⁴². Roedd y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn 2018/2019 yn cynnwys:
- cynnydd o 8% yn nifer yr hysbysiadau am gyfleoedd contract a oedd yn cynnwys gofynion budd i'r gymuned;
 - Roedd 53% o'r gwariant gyda busnesau yn y 60% o gymunedau mwyaf difreintiedig;
 - Dangosodd 63% o gyrff cyhoeddus eu bod yn ystyried llesiant amgylcheddol a newid hinsawdd wrth gynnal eu gweithgareddau caffael a reoleiddir;
 - Roedd 77% o gyrff cyhoeddus wedi defnyddio meini prawf Gwaith Teg wrth gynnal eu gweithgareddau caffael a reoleiddir.
140. Canfu Adolygiad o'r Ddeddf⁴³ Gwerth Cymdeithasol yn 2015 gan Swyddfa'r Cabinet fod y Ddeddf wedi cael effaith gadarnhaol lle roedd wedi cael ei defnyddio, ond roedd ymwybyddiaeth o'r Ddeddf yn dal i fod

yn gymysg. Roedd 60% o'r ymatebwyr yn credu bod y Ddeddf wedi cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol, roedd 82% yn credu ei bod wedi cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol ac roedd 72% yn teimlo ei bod wedi cael effaith gadarnhaol ar fusnesau lleol. Roedd 66% yn nodi manteision o ran buddsoddiadau ariannol a gwelliannau amgylcheddol, y defnydd o fusnesau lleol yn y gadwyn gyflenwi (70%) a grwpiau difreintiedig (75%) a chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a swyddi lleol (83%).

141. Mae adroddiad Llywodraeth yr Alban yn benodol yn dangos, hyd yn oed pan fydd rheoliadau ar waith, ei bod yn cymryd amser i gyrff cyhoeddus roi mesurau newydd ar waith yn gyson. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn Lloegr a'r Alban yn cynnwys dyletswyddau penodol ar gyfer cydymffurfio a gorfodi mewn perthynas â rheoli contractau. Ni nodwyd unrhyw enghreifftiau eraill o ddeddfwriaeth ar ddiwydrwydd dyladwy wrth reoli contractau yn y sector cyhoeddus, ac felly mae adroddiadau ar reoli contractau yn tueddu i ganolbwyntio ar risg i gyllid a pherfformiad yn hytrach na risgiau i ganlyniadau cymdeithasol gyfrifol, gan gynnwys gwaith teg.
142. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol drwy ddefnyddio offerynnau polisi yn hytrach na deddfwriaeth hyd yn hyn. Mae gweithwyr caffael proffesiynol wedi defnyddio Asesiad Risg Cynaliadwy ers sawl blwyddyn i nodi cyfleoedd i fynd i'r afael â materion polisi megis gwaith teg, datgarboneiddio, egwyddorion economi gylchol a lleihau gwastraff.
143. Un enghraifft o hyn yw Cytundeb Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Darparu Dodrefn. Penodwyd dau Fusnes a Gynorthwyr i'r fframwaith hwn, gan roi cyfle i weithwyr dan anfantais. Roedd y fframwaith yn darparu mecanwaith i sefydliadau ddyfarnu contractau i weithgynhyrchwyr a oedd â nodau cymdeithasol tebyg, arbenigedd mewn ailweithgynhyrchu, a'r economi gylchol. Ymhlith y contractau yn ôl y gofyn o dan y fframwaith mae ailweithgynhyrchu dodrefn a etifeddwyd a chymryd rhan mewn cynllun plannu coed.
144. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cofnodi rhai o'r manteision a ddaeth o ganlyniad i gaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol drwy ddadansoddi dulliau ar gyfer mesur Budd Cymunedol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru.

Pennod 4 – Ymgynghori

145. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol. Ers sefydlu'r Gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg yn Llywodraeth Cymru, mae ein partneriaid cymdeithasol wedi bod yn rhan o'r gwaith o lunio'r polisi ar gyfer y Bil hwn a'r fframwaith gwerthuso sy'n ei ategu.
146. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fil ac Arfarniad Effaith Rheoleiddiol drafft at ddibenion ymgynghori ar 26 Chwefror 2021 – daeth yr ymgynghoriad i ben ar 23 Ebrill. Ochr yn ochr â'r brif ddogfen ymgynghori, cynhaliodd Llywodraeth Cymru wyth gweithdy i randdeiliaid a hwyluswyd yn annibynnol ar yr ymgynghoriad, ynghyd ag amrywiaeth o sesiynau briffio ar gyfer partion â diddordeb.
147. Cafwyd cyfanswm o 85 o ymatebion gan amrediad o bartneriaid cymdeithasol, sefydliadau eraill ac aelodau o'r cyhoedd. Roedd cefnogaeth sylweddol i'r darpariaethau yn y Bil a chytundeb helaeth ynghylch elfennau allweddol o'i gynnwys. At ei gilydd roedd yr ymatebwyr yn cytuno y bydd deddfwriaeth yn cryfhau'r trefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol yng Nghymru. Cyhoeddwyd adroddiad⁴⁴ cryno.
148. Daeth rhai themâu allweddol i'r amlwg yn ystod yr ymgynghoriad:
- mewn perthynas â phartneriaeth gymdeithasol (cwmpas a gofynion y ddyletswydd) roedd consensws cryf ynghylch yr angen am y ddeddfwriaeth. Galwodd ymatebwyr am ragor o eglurder ac alinio rhwng polisiâu. Roedd rhai yn dadlau bod angen ehangu cwmpas y Bil i sicrhau'r effaith fwyaf posibl a bod angen ehangu cyfranogiad hefyd er mwyn gwella cynrychiolaeth;
 - o ran cyrff cyhoeddus, roedd cryn awydd ar draws amrediad eang o ymatebwyr i gynyddu'r rhestr o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol. Diffinnir y rhestr o gyrff yn y Bil drwy gyfeirio at gyrff adran 6 yn y Ddeddf Llesiant a bydd y cyrff hynny'n cael eu hadolygu. Mae Gweinidogion wedi penderfynu defnyddio canlyniad yr adolygiad hwnnw er mwyn penderfynu pa gyrff ychwanegol fydd yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Llesiant yn y dyfodol (ac o ganlyniad yn ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol);
 - roedd cefnogaeth gref i egwyddorion gwaith teg ac awydd am ragor o fanylion am natur amcanion posibl ar gyfer gwaith teg. Nid oedd consensws clir ynghylch y diffiniad o waith teg y dylid ei ymgorffori yn y gyfraith, er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ffafrio diffiniadau lefel uchel a diffiniadau sy'n seiliedig ar weithredu. Roedd cefnogaeth gref ymhlith rhai ymatebwyr i fabwysiadu'n llawn y diffiniad o waith teg a roddwyd yn adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg;

- mewn perthynas â chaffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol (y cyrff o fewn y cwmpas, y ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol a'r ddyletswydd rheoli contractau), ar y cyfan roedd ymatebwyr yn croesawu defnyddio caffael fel sbardun allweddol ar gyfer gwaith teg ac amcanion strategol eraill. Argymhellodd rhai ymatebwyr fod angen bod yn ofalus o ran cyfyngiadau ar adnoddau (yn enwedig ar gyfer busnesau bach a chanolig), yr angen i sicrhau cymorth digonol i roi'r dyletswyddau newydd ar waith a'r angen am gamau dilynol digonol i wella hygredd. Roedd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, prifysgolion ac ymatebwyr y trydydd sector rai pryderon ynghylch goblygiadau posibl i statws elusennol;
- mewn perthynas â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (ei strwythur, ei aelodau a'i gynrychiolwyr), ar y cyfan roedd cefnogaeth i'r dull a amlinellwyd. Cwestiynodd rhai ymatebwyr pa mor gynrychioliadol oedd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol arfaethedig, ac yn dadlau o blaid yr angen i sicrhau amrywiaeth a chynrychiolaeth ar y Cyngor. Dadleuodd nifer o ymatebwyr y byddai angen ymgysylltu'n ehangach y tu hwnt i aelodau'r Cyngor. Nododd ymatebwyr na ddylai gweithgareddau'r Cyngor ddisodli trefniadau lleol. Byddai hefyd angen sicrhau a chynnal amrediad digonol o sgiliau a phrofiad ar y Cyngor er mwyn iddo weithio'n effeithiol;
- mewn perthynas â chefnogi gwelliant a sicrhau y cydymffurfir â'r dyletswyddau newydd a amlinellir yn y Bil, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai'r pwyslais fod ar ddarparu cymorth i gyflawni canlyniadau, gyda mecanweithiau gorfodi'n cael eu defnyddio fel yn opsiwn olaf yn unig. Roedd cefnogaeth i ddefnyddio targedau, safonau ac enghreifftiau o'r arferion gorau i annog cydymffurfiaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn erbyn unrhyw fecanwaith dyfarnu ar lefel genedlaethol drwy'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

149. Yn ogystal â'r cyfnod ymgynghori ffurfiol a'r gyfres o weithdai gyda phartneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill a helpodd i lunio'r ddogfen ymgynghori, cynhaliwyd deialog a thrafodaethau parhaus â phartneriaid cymdeithasol drwy gydol y broses o ddatblygu'r Bil. Yn aml mae'r ymgysylltu hwn wedi cael ei gynnal mewn 'amser real', ac mae wedi helpu swyddogion i gofnodi a bod yn ymwybodol o bryderon a dealltwriaeth allweddol gan bartneriaid cymdeithasol wrth i'r gwaith ar y Bil ddatblygu.

Newidiadau i'r Bil drafft

150. Ar ôl ymgynghori ac ymgysylltu ymhellach â phartneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill, mae nifer o newidiadau polisi yn cael eu hadlewyrchu yn y Bil.

Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

- Bydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn rhoi gwybodaeth a chyngor i Weinidogion ar gyrff cyhoeddus yn ceisio cyflawni'r nod llesiant 'Cymru lewyrchus' yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
- Rhaid i gynrychiolwyr gweithwyr a benodir gan y Prif Weinidog gael eu henwebu gan TUC Cymru.
- Mae'r gofyniad i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r holl wybodaeth a chyngor a gafwyd gan y Cyngor wedi cael ei ddileu. Gall Gweinidogion ddewis cyhoeddi gwybodaeth neu gyngor yn y rhan fwyaf o achosion, ond gall fod adegau pan na fyddai'n briodol cyhoeddi gwybodaeth a dderbynnir gan y Cyngor hwn.

Y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

- Mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus geisio consensws neu gyfaddawd gyda'i undebau llafur cydnabyddedig neu (pan na fo undeb llafur cydnabyddedig) gyda chynrychiolwyr eraill o'u staff, wrth bennu a chyflawni eu hamcanion llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
- Mae dyletswydd ar wahân ar gyfer Gweinidogion Cymru sydd wedi cael ei datblygu ers yr ymgynghoriad yn dilyn ymgynghoriad mewnol â swyddogion mewn meysydd polisi eraill.
- Ychwanegwyd 'datblygu cynaliadwy' yn y pennawd ar gyfer y rhan hon o'r Bil.
- Lle mae cyfeiriad at undebau llafur, ychwanegwyd y geiriau 'neu (pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill eu staff'.

Gwaith Teg

- Mae lle ar gyfer darpariaethau gwaith teg yn y Bil drafft wedi cael ei ddisodli gan ddiwygio'r 'Cymru lewyrchus' yn y Ddeddf Llesiant i roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas'.

Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol

- Mae'r ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol gyffredinol yn cyfeirio at Nodau Llesiant cenedlaethol yn unig ac nid at nod Gwaith Teg ychwanegol.
- Nid yw cyrff sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn cynnwys sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, na landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae rhai Awdurdodau Datganoledig eraill yng Nghymru wedi cael eu cynnwys ac mae'r rhestrau

o gyrrff sydd wedi'u cynnwys yn Nyletswyddau'r Cymal Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol (mewn perthynas â Chod Gweithlu Dwy Haen diwygiedig) yr un peth â'r cyrrff sydd wedi'u cynnwys yn y dyletswyddau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol eraill.

- Mae proses ddiwygiedig ar gyfer adrodd am eithriadau, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion gyhoeddi canlyniad eu hystyriaethau os bydd awdurdod contractio yn eu hysbysu nad ydynt yn bwriadu cynnwys cymal gweithiau cyhoeddus cymdeithasol neu gymal gweithlu cyhoeddus cymdeithasol o fewn contract caffael ('adrodd am eithriadau').
- Cynigir y gwahaniaethir rhwng y broses adrodd am eithriadau a'r darpariaethau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau caffael, sy'n cael eu trin ar wahân, ac fel arfer yn ymdrin â'r ffordd mae sefydliad yn cynnal ei weithgareddau caffael cyhoeddus.
- Cyfeirir at dalu cyflenwyr o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb ddilys. Mae hwn wedi'i ddiweddarau i ganiatáu ar gyfer diwygiadau i'r amserlen hon drwy reoliadau.
- Mae newid bach i'r geiriad yng nghategori 6 o'r cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol i ddarparu ar gyfer cydnerthedd yr hinsawdd.
- Mae'r trothwy o £2 miliwn ar gyfer diffinio 'caffaeliadau rhagnodedig' sy'n gysylltiedig ag adeiladu wedi cael ei ddiwygio i gynnwys TAW.

Gwelliannau i'r Bil yn dilyn craffu cyfnod 2

Cafodd nifer o welliannau eu gwneud i'r Bil o ganlyniad i graffu cyfnod 2 ym mis Ionawr 2023. Roedd y gwelliannau hynny fel a ganlyn:

- Newidiadau i adran 7 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag aelodau'r CPG cyn gwneud unrhyw ddiwygiadau i weithdrefnau'r CPG;
- Newidiadau i adran 24 i roi cyfeiriadau at "nodau llesiant" yn lle cyfeiriadau at "nodau caffael cymdeithasol gyfrifol" i gael gwared ar unrhyw amwysedd posibl ynghylch y berthynas rhwng y ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol a'r nodau llesiant yn Neddf 2015;
- Newidiadau i adran 32 ac adran 43 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol wrth ddatblygu neu ddiwygio wedi hynny yn ôl eu trefn y cod allanol gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu a chanllawiau mewn perthynas â Chaffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol.
- Ychwanegu is-adran newydd 39(3) i ddarparu manylion pellach ynghylch yr hyn y caiff Gweinidogion Cymru ei nodi mewn rheoliadau ynghylch gwybodaeth y dylai awdurdodau contractio ei chynnwys yn eu hadroddiadau blynyddol. Mae'r wybodaeth y caniateir ei nodi mewn

rheoliadau yn cynnwys gwybodaeth ynghylch i ba raddau y mae eu gweithgarwch caffael cyhoeddus, drwy gyflawni eu hamcanion caffael cymdeithasol gyfrifol, yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant; o fudd i'r economi leol, er enghraifft drwy adrodd y gyfran o'r contractau a ddyfarnwyd i fusnesau bach a chanolig; a sut maent yn meddwl am ystyriaethau amgylcheddol a chymdeithasol eraill.

- Newidiadau i adran 40 i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gyhoeddi cyfeiriadau prif fan busnes contractwyr yn eu cofrestrau contractau; a
- Mân welliant technegol i adran 48 i gychwyn yr adran honno ar y diwrnod ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol.

Mae'r gwelliannau hyn wedi cael eu hadlewyrchu yn y Nodiadau Esboniadol yn Atodiad 1.

Yn ogystal â'r gwelliannau hyn, mae sawl newid arall wedi bod i'r Memorandwm Esboniadol hwn i adlewyrchu ymrwymadau a wnaed gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol yn ystod cyfnodau craffu 1 a 2 y Senedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- newidiadau i adran dystiolaeth y Memorandwm Esboniadol ac i adran Costau a Manteision yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu'r ffaith bod y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol wedi dod i ben ers hynny a'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol wedi'i sefydlu;
- nodi a rhoi manylion yr angen posibl am amser cyfleuster ychwanegol, a'r costau sy'n gysylltiedig â hynny, i gyflawni'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol;
- ailymweld â'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau a wnaed yn adran Costau a Manteision yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a, phan fo'n briodol, eu haddasu. Mae holl gostau staff Llywodraeth Cymru wedi cael eu codi i adlewyrchu'r newidiadau i'r weithdrefn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a'r cytundeb cyflog a gafwyd ym mis Tachwedd 2022. Mae costau staff partneriaid cymdeithasol wedi cael eu codi i adlewyrchu data y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022;
- egluro y bydd rhai costau ymgyfarwyddo i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru o ystyried y bydd cyrff cyhoeddus yn y dyfodol yn cyflawni eu dyletswydd partneriaeth gymdeithasol ochr yn ochr â'u dyletswydd datblygu cynaliadwy a'u dyletswydd llesiant;
- deunydd ychwanegol yn yr adran caffael cymdeithasol gyfrol o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar y costau y mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu hysgwyddo wrth ddarparu hyfforddiant a

chanllawiau newydd i fusnesau;

- rhagor o fanylion ac astudiaethau achos yn yr adran caffael cymdeithasol gyfrifol o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn dangos y manteision y gellir eu hennill drwy geisio cyflawni caffael cymdeithasol gyfrifol, a heriau mesur y costau a'r manteision hyd yn oed ar un prosiect yn unig, cyn ystyried sut i allosod dadansoddiad costau a manteision ledled Cymru; a
- mân ddiwygiadau i'r adran Adolygiad Ôl-weithredu o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol i gadarnhau y bydd costau a manteision yn cael eu hystyried, cyhyd â bo modd, fel rhan o'r gwaith adolygu ôl-weithredu ac y bydd aseiad canol tymor sy'n amlinellu costau ariannol hefyd yn cael ei gynnal.

Pennod 5 – Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

151. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a chyhoeddi penderfyniadau. Isod mae tabl o is-ddeddfwriaeth a thabl o gyfarwyddiadau, codau a chanllawiau a amlinellir mewn perthynas â'r rhain:

- (i). y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
- (ii). ar ba ffurf y mae'r pŵer i gael ei arfer;
- (iii). priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
- (iv). y weithdrefn a gymhwysir; hynny yw, 'cadarnhaol', 'negyddol', neu 'dim gweithdrefn', ynghyd â rhesymau pam yr ystyrir ei bod yn briodol.

152. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth os ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir beth fydd union natur yr ymgynghori ar ôl i'r cynigion gael eu ffurfioli.

Tabl yn crynhoi'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
22(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i ddiwygio adran 22 ac Atodlen 1 sy'n rhestru 'awdurdodau contractio'. Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion ychwanegu neu dynnu awdurdodau contractio o'r rhestr o gyrrff sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol yn y dyfodol.	Cadarnhaol	Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol.
24(8)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i ragnodi contractau sy'n 'gontractau rhagnodedig' at ddibenion Rhan 3 o'r Ddeddf. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion i ymateb yng ngoleuni'r angen i osod dyletswyddau mewn perthynas â rhai contractau yn y dyfodol.	Cadarnhaol	Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol.
25(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i ddiwygio adran 25 (sy'n diffinio contractau adeiladu mawr). Mae hyn yn galluogi Gweinidogion i ymateb i newidiadau yn y dyfodol.	Cadarnhaol	Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol.
38(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i ddiwygio adran 38(2) i bennu materion eraill y dylai strategaethau caffael fynd i'r afael â nhw a lleihau nifer y diwrnodau a bennir yn adran	Negyddol	Er y bydd rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol, mater gweithredol i'w

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffur	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
			38(2)(c) (uchafswm y diwrnodau a ganiateir ar gyfer talu anfoneb). Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion i ymateb i newidiadau yn y dyfodol, gan gynnwys newidiadau mewn deddfwriaeth arall ar gaffael.		benderfynu gan Weinidogion Cymru yw natur benodol strategaethau caffael.
39(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer drwy reoliadau i ragnodi gwybodaeth arall y dylai adroddiadau ar gaffael cymdeithasol gyfrifol ei chynnwys.	Negyddol	Mae natur adroddiadau ar gaffael cymdeithasol gyfrifol yn fanwl ac yn fater a fyddai fel arfer o fewn pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru.

Tabl yn crynhoi'r pwerau i wneud cyfarwyddiadau ac i gyhoeddi codau a chanllawiau yn narpariaethau Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
32	Gweinidogion Cymru	Cod	Dyletswydd i gyhoeddi cod ymarfer ar gyfer allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu.	Dim gweithdrefn	Mae'r pŵer hwn yn gysylltiedig â chyhoeddi cod ymarfer sy'n ymdrin â materion gweithredol sy'n gysylltiedig ag allanoli contractau ar gyfer gwasanaethau. Mae dyletswydd benodol ar Weiniogion Cymru wrth baratoi'r cod i ymgynghori â'r personau hynny y maent yn credu ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.
31(2)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddiadau	Pŵer i gyfarwyddo awdurdodau contractio os bydd Gweinidogion Cymru, ar ôl derbyn hysbysiad, o'r farn y dylai awdurdod contractio gymryd camau penodol er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd (y Ddyletswydd Caffael	Dim gweithdrefn	Mae'r pŵer hwn wedi'i gysylltu'n benodol ag arfer dyletswyddau gan awdurdodau contractio ac mae'n ymateb gweithredol y bydd ei angen fesul achos ac y gallai fod angen ei

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			Cymdeithasol Gyfrifol: contractau adeiladu mawr) o dan adran 25.		arfer ar frys ac yn gyflym.
36(4)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddiadau	Pŵer i gyfarwyddo awdurdodau contractio os bydd Gweinidogion Cymru, ar ôl derbyn hysbysiad, o'r farn y dylai awdurdod contractio gymryd camau penodol er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd (y Ddyletswydd Caffael Cymdeithasol Gyfrifol: allanoli contractau ar gyfer gwasanaethau) o dan adran 26.	Dim gweithdrefn	Mae'r pŵer hwn wedi'i gysylltu'n benodol ag arfer dyletswyddau gan awdurdodau contractio ac mae'n ymateb gweithredol y bydd ei angen fesul achos ac y gallai fod angen ei arfer ar frys ac yn gyflym.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Pennod 6 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol – crynodeb

153. Mae Aseiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei gwblhau ar gyfer y Bil ac fe'i ceir isod.

154. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

155. Yn y tabl canlynol crynhoir costau a manteision y Bil cyfan. Mae'r tabl ar ffurf sy'n cyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) ac (ix).

Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Opsiwn a ffefrir: Cyflwyno Bil sy'n creu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol, yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried gwaith teg wrth fynd ati i gyflawni nod llesiant "Cymru lewyrchus" o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus fynd ati i gaffael mewn ffyrdd gymdeithasol gyfrifol.

Cam: Gwelliannau	Cyfnod arfarnu: 2023/24 – 2027/28	Blwyddyn sylfaen pris: 2022/23
Cyfanswm Cost Cyfanswm: £31,552,219 Gwerth presennol: £28,525,800	Cyfanswm y Manteision Cyfanswm: £- Gwerth presennol: £	Gwerth Presennol Net (NPV): £28,525,800

Cost weinyddol

Costau: Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo costau trosiannol o £298,300 yn ymwneud â datblygu canllawiau statudol a chreu presenoldeb digidol ymhlith costau eraill.

Bydd angen i Lywodraeth Cymru dalu costau rheolaidd o £3,017,300 yn ystod cyfnod arfarnu 5 mlynedd y Bil am weinyddu Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol a dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol a chaffael cymdeithasol gyfrifol y Bil, yn ogystal â chost cyfle i aelodau a llunio canllawiau.

Trosiannol: £298,300	Rheolaidd: £3,017,300	Cyfanswm: £3,315,600	PV: £3,004,100
-----------------------------	----------------------------------	---------------------------------	-----------------------

Arbedion cost: *Ni nodwyd unrhyw arbedion cost.*

Trosiannol: £-

Rheolaidd: £-

Cyfanswm: £-

PV: £-0

Cost weinyddol net: £3,315,600

Costau cydymffurfio

Bydd y sector cyhoeddus yn ysgwyddo costau trosiannol o £375,119 am amser staff mewn sesiynau ymwybyddiaeth a hyfforddiant er mwyn ymgyswddo â'r ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol a'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol.

Cyfanswm y costau rheolaidd y bydd rhaid i'r sectorau cyhoeddus eu talu yn ystod y pum mlynedd pan fydd y Bil yn cael ei arfarnu yw £21,395,125, gan gynnwys am gydymffurfio â'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol, yn cynnwys costau casglu data ynghyd, pennu amcanion a rheoli gwaith cynllunio ac adeiladu. Bydd angen hefyd i'r sector preifat dalu costau rheolaidd o £6,466,375 yn ystod y pum mlynedd hyn.

Trosiannol: £375,119

Rheolaidd:
£27,861,500

Cyfanswm:
£28,236,619

PV: £25,521,700

Costau eraill

Mae'r costau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn gostau gweinyddol neu'n gostau cydymffurfio – a amlinellir uchod.

Trosiannol: £=

Rheolaidd: £=

Cyfanswm: £=

PV: £

Cyfanswm cost darpariaethau'r Bil (£)

Darpariaeth y Bil	Blwyddyn Ariannol					Cyfanswm
	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	
Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol	46,300	31,600	31,600	36,300	31,600	177,400
Y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol	310,519	267,000	267,000	288,200	267,000	1,399,719
Y ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol	6,233,200	6,105,700	5,886,400	5,861,400	5,861,400	29,948,100
Darpariaeth gwaith teg	5,400	5,400	5,400	5,400	5,400	27,000
Cyfanswm	6,595,419	6,409,700	6,216,300	6,165,400	6,165,400	31,552,219

Costau ac anfanteision heb eu mesur

Mae costau cyfle na ellir eu mesur yn ymwneud ag adolygiadau barnwrol posibl yn gysylltiedig â'r Bil hwn. Yn ogystal, nid oes unrhyw anfanteision amgylcheddol neu gymdeithasol yn gysylltiedig â'r Bil hwn.

Manteision

Mae manteision y Bil, i wella gwasanaethau cyhoeddus a llesiant, yn mynd y tu hwnt i'r hyn y gellir ei fesur yn ariannol, sef:

- *byddai Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol yn gwella ansawdd y cyngor a roddir i Weinidogion Cymru, ac yn y pen draw yn helpu i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a llesiant yng Nghymru.*
- *Byddai Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol hefyd yn darparu arweinyddiaeth genedlaethol i gryfhau a gwella gwaith partneriaeth yng Nghymru.*
- *byddai cyflwyno dyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn cryfhau'r camau a gymerir gan gyrff cyhoeddus i gyfrannu at saith nod llesiant Cymru, drwy alluogi gweithwyr i gymryd rhan fwy yn y broses o nodi a chyflawni amcanion llesiant.*
- *byddai cyflwyno dyletswyddau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn hoelio sylw cyrff cyhoeddus ar gyflawni canlyniadau cymdeithasol gyfrifol drwy gynnwys cymalau perthnasol mewn contractau, y byddai hynny'n lleihau'n sylweddol rai o'r risgiau a achosir gan ddiffyg tryloywder o fewn cadwyni cyflenwi.*
- *ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried sut y gall gwaith teg gyfrannu at eu hamcanion o ran nod 'Cymru lewyrchus', drwy ddiwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gynnwys cyfeiriad at waith teg, ac o ganlyniad, atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng gwaith teg a llesiant pobl, fel unigolion ac fel grŵp.*

Cyfanswm: £-

PV: £-

Tystiolaeth allweddol, tybiaethau ac ansicrwydd

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi cael ei lywio gan Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft blaenorol, ymgynghoriad ar y Bil ,a thystiolaeth ac argymhellion o gamau craffu 1 a 2 y Senedd.

Drwy'r Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, defnyddiwyd ystod eang o ddata academaidd, data ystadegol rheolaidd a data gwasanaeth wrth asesu manteision a chostau.

Pennod 7 – Opsiynau

156. Ystyriwyd nifer o opsiynau ar gyfer cyflawni pob un o'r bwriadau polisi yn y Bil hwn. Mae gwaith ymgysylltu helaeth â rhanddeiliad ac ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2021 wedi ein hysbysu am wahanol safbwyntiau ynghylch gwella gwasanaethau cyhoeddus a hyrwyddo llesiant yng Nghymru.
157. Hefyd cyhoeddwyd Bil ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft ym mis Chwefror a mis Mawrth 2021.
158. Yn dilyn yr ymgynghoriadau a'r gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym yn cynnig cyflwyno Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), y nodir ei effaith yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Cymherir costau presennol ag unrhyw gostau ychwanegol a gaiff eu creu gan y Bil yn yr adrannau canlynol.

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

159. Ni fydd unrhyw newid i drefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol nac i'r disgwyliadau polisi presennol ar gaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yng Nghymru. Byddai trefniadau partneriaeth gymdeithasol anffurfiol ac ad-hoc presennol yn parhau.
160. Byddai i hyn yr effeithiau negyddol canlynol:
- Byddai diffyg gweledigaeth a chynllunio strategol ar gyfer partneriaeth gymdeithasol.
 - Ni fyddem yn gallu achub ar gyfleoedd i atgyfnerthu partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg, yn ogystal â gwella llesiant drwy waith cynllunio strategol gwell ac atebolrwydd cliriach.
 - Ni fyddai gan Weinidogion Cymru drosolwg cydlynol o waith partneriaeth gymdeithasol ledled Cymru ac ni fyddent yn gallu gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol i wneud y gorau o'r cyfraniad y gallai partneriaeth gymdeithasol effeithiol ei wneud i'w nodau llesiant ar gyfer Cymru neu i wella gwasanaethau cyhoeddus.
161. Am y rhesymau hyn, mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu nad yw'r status quo yn opsiwn ac, er mwyn cyflawni eu huchelgeisiau polisi, fod angen deddfwriaeth a gyflawnir gan yr opsiwn canlynol:

Opsiwn 2: Cyflwyno Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

162. Bydd y Bil hwn yn atgyfnerthu gwasanaethau cyhoeddus ac yn cefnogi llesiant yng Nghymru drwy ehangu pwerau presennol Gweinidogion Cymru a gosod dyletswyddau newydd ar gyffwrdd cyhoeddus yng Nghymru. Prif ddarpariaethau'r Bil a wnaiff helpu i gyflawni hyn yw:

- **Sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol**
 - Drwy ei aelodaeth draws-sector genedlaethol deirochrog, bydd y Cyngor yn darparu gwybodaeth a chynghor i Weinidogion Cymru gyda'r nod o wella'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yng Nghymru o ran darpariaethau partneriaeth gymdeithasol y Bil, gwaith cyrff cyhoeddus i gyflawni nod llesiant "Cymru lewyrchus" o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol.

- **Gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol** er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a llesiant yng Nghymru.
 - Bydd hyn yn gosod dyletswydd ar rai cyrff cyhoeddus i geisio consensws neu gyfaddawd â'u hundebau llafur cydnabyddedig (neu gynrychiolwyr eraill eu staff) wrth bennu amcanion llesiant ac wrth wneud penderfyniadau strategol ynghylch y camau rhesymol y dylent eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.
 - Bydd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol (cyflogwyr ac undebau llafur) drwy'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol wrth gyflawni eu hamcanion llesiant.

- **Sicrhau bod cyrff cyhoeddus dynodedig yn cynnwys canlyniadau cymdeithasol gyfrifol**, megis ffactorau llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn eu strategaethau a'u prosesau caffael.
 - Bydd hyn yn atgyfnerthu'r nod o gyflawni canlyniadau gwaith teg a llesiant gan ei bod yn ofynnol i sefydliadau bennu amcanion yn y meysydd hyn ac adrodd ar ganlyniadau.

- Diwygio'r disgrifiad o nod 'Cymru lewyrchus' drwy **roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas'** yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
 - Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) ystyried sut y gall gwaith teg gyfrannu at gyflawni nod llesiant "Cymru lewyrchus".

Pennod 8 – Costau a Manteision

163. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi cael ei lywio gan Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft blaenorol ym mis Mawrth 2021. Amlinellodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft amrywiaeth o opsiynau a ystyriwyd ar gyfer pob bwriad polisi ac asesodd eu costau a manteision posibl. Wedi cynnal yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn ogystal â gwaith ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid eang, mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar gyflwyno Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ac yn ceisio amlinellu cost y ddeddfwriaeth.
164. Mae pob opsiwn wedi cael ei asesu gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.
165. Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau gros cyfartalog bandiau cyflog staff sifil 2022-23 ac yn defnyddio blwyddyn 52 wythnos ac wythnos waith pum diwrnod. Ystyrir mai 37 awr yr wythnos yw'r wythnos waith safonol yn unol â 'Llyfr Gwyrdd' y Cytundeb Cenedlaethol. Mae costau cyfartalog staff Llywodraeth Cymru yn cynnwys costau cyflogaeth ychwanegol megis pensiynau a chyfraniadau yswiriant gwladol.
166. Mae cyflogau Gweinidogion Cymru a gaiff eu cynnwys yn y ddogfen hon wedi'u darparu gan Fwrdd Taliadau'r Senedd ar gyflogau a lwfansau aelodau. Mae'r ffigurau hyn wedi cael eu codi 19.9% yn y ddogfen hon er mwyn cyfrif am gyfraniad pensiwn eu cyflogwr.
167. Ar gyfer staff nad ydynt yn staff gwasanaeth sifil, defnyddiwyd Arolwg Blynnyddol yr ONS o Oriau ac Enillion (ASHE) fel procsi i gyfrifo cyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr staff.
168. Defnyddiwyd ffigurau'r ONS ar gyfer Prif Weithredwyr ac Uwch Swyddogion a Swyddogion Adnoddau Dynol a Chysylltiadau Diwydiannol Cymru o set ddata 2022 fel procsi mewn llawer o'r achosion hyn oherwydd tybir mai'r rhain yw'r procsi mwyaf diweddar a chywir yn yr enghreifftiau hyn.
169. Yna ychwanegir argostau cyflogaeth o 30% at holl brocsis yr ONS er mwyn cyfrif am gostau cyflogaeth ychwanegol megis pensiynau a chyfraniadau yswiriant gwladol.
170. Talgrynnwyd ffigurau drwy'r asesiad effaith i lefel o gywirdeb a ystyrir yn briodol ar gyfer y cyfrifiadau perthnasol. Mewn rhai tablau, efallai na fydd rhesi a cholofnau yn creu cyfanswm y golofn oherwydd y broses dalgrynnu hon.
171. Mae'r holl gostau a manteision a fesurwyd yn seiliedig ar wybodaeth a data oedd ar gael i Lywodraeth Cymru yn y cyfnod yn arwain at gyhoeddi.

Costau a Manteision Rhan 1: Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

Cyflwyniad

172. Byddai'r rhan hon o'r Bil yn sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol i gynghori Gweinidogion Cymru ar wella gwasanaethau cyhoeddus a'r pedwar math o lesiant (cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol) o ran y dyletswyddau a osodir gan y Bil a chyflawni nod "Cymru lewyrchus" o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Byddai CPG statudol yn atgyfnerthu partneriaeth gymdeithasol drwy alluogi Gweinidogion Cymru i feithrin cysylltiadau â strwythurau partneriaeth gymdeithasol perthnasol eraill a hyrwyddo cysondeb o fewn system Cymru drwy ddarparu fframwaith gwaith partneriaeth gymdeithasol y gall eraill ei ddilyn.

Mae dau opsiwn wedi cael eu nodi a'u hystyried o ran y CPG:

Opsiwn 1: Busnes fel arfer - parhau i ddilyn trywydd anstatudol o ran partneriaeth gymdeithasol

Disgrifiad

173. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu parhau i ddibynnu ar strwythurau presennol i reoli deialog gymdeithasol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus a llesiant. Cafodd y strwythurau hyn eu sefydlu ac maent yn gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd, nid ydynt yn gysylltiedig neu nid yw eu cyfraniad at yr agenda partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg wedi'i gydgysylltu i gael yr effaith fwyaf bosibl. Mae'r opsiwn hwn yn tybio y bydd y strwythurau busnes fel arfer hyn yn parhau er gwaetha'r Bil. Mae'r trefniant ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol, fel rhan o'r ymateb brys i'r pandemig, wedi dod i ben.

174. Bydd strwythurau busnes fel arfer i reoli deialog gymdeithasol â chyflogwyr sector preifat ac undebau llafur yn parhau lle maent eisoes yn bodoli megis, er enghraifft, yr Uwchgynhadledd Economaidd (y Cyngor Datblygu Economaidd gynt).

175. Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector fyddai'r prif fforwm o hyd i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â'r trydydd sector ar faterion o bwys strategol i'r sector. Fodd bynnag, nid yw Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn gweithredu fel fforwm partneriaeth gymdeithasol

176. Byddai deialog gymdeithasol gyda chyflogwyr yn y sector cyhoeddus ac undebau llafur yn parhau drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu (WPC) a'i Gyd-bwyllgor Gweithredol (JEC).

177. Mae'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol wedi dod i ben. Mae'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol presennol wedi'i sefydlu i baratoi ar gyfer y

Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol. O dan yr opsiwn hwn byddai'n dod i ben.

178. Ni fyddai angen unrhyw newid deddfwriaethol o dan yr opsiwn hwn.

179. Ni fyddai'r opsiwn "Busnes fel arfer" yn ystyried argymhelliad y Comisiwn Gwaith Teg i ddeddfu i sefydlu mecanwaith partneriaeth gymdeithasol statudol.

Costau – "Busnes fel arfer"

180. Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Yn yr adran ganlynol crynhoir y costau i gynnal y system bresennol er mwyn gallu cymharu'r costau ychwanegol (neu arbedion cost) sy'n gysylltiedig â'r opsiwn a ffefrir, sef £374,500 y flwyddyn yn ôl ein hamcangyfrifon (wedi'i dalgrynnu i'r cant agosach).

Costau Cyngor Partneriaeth y Gweithlu (WPC) a'i Gyd-bwyllgor Gweithredol

Tabl 1: Crynodeb o gostau ar gyfer Opsiwn 1

Crynodeb o gostau (£)	
Tabl 1.1	304,400
Tabl 1.2	1,300
Tabl 1.3	6,708
Tabl 1.4	5,754
Tabl 1.5	6,400
Tabl 2	1,400
Tabl 2.1	48,500
Cyfanswm	374,462

Costau rhedeg a chymorth ymchwil

181. Mae Cyngor Partneriaeth y Gweithlu (WPC) yn strwythur partneriaeth gymdeithasol teirochrog o'r undebau llafur, cyflogwyr a Llywodraeth Cymru. Fe'i cefnogir gan gydysgrifenyddiaeth o bump o bobl (un ar Radd 6, tri ar lefel SEO ac un ar lefel HEO). Mae'r tîm ysgrifenyddiaeth yn cefnogi'r WPC a'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol, ond mae'r staff hyn hefyd yn treulio amser yn gweithio ar agweddau eraill ar y gwaith. Yr amser Cyfwerth ag Amser Llawn (WTE) y bydd y tîm yn ei dreulio ar ddyletswyddau ysgrifenyddiaeth yw 0.5 ar gyfer y swydd Gradd 7, 3 ar gyfer y tair swydd SEO ac 1 ar gyfer y swydd HEO.

182. Ariennir eu gwaith gan Lywodraeth Cymru.

183. Mae'r Cyd-bwyllgor Gweithredol (JEC) yn atebol i ac yn hwyluso gwaith y WPC mewn ymgynghoriad â chyrrff cynrychioliadol. Mae'r JEC yn gweithredu mewn partneriaeth gyfartal ac mae ei aelodaeth yn adlewyrchu strwythur partneriaeth gymdeithasol teirochrog y WPC, gyda chynrychiolaeth gan yr Undebau Llafur, Cyflogwyr a Llywodraeth Cymru.

Tabl 1.1 – dadansoddiad o gostau cyd-ysgrifenyddiaeth

Gradd	Cost staff blynyddol (£) ⁴⁵	Cyferth ag amser cyflawn	Cost y flwyddyn (£)
Gradd 7	105,117	0.5	52,558.50
SEO	66,364	3	199,092
HEO	52,774	1	52,774
CYFANSWM			304,424.50

184. Wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf, **£304,400** yw cost flynyddol gweinyddu'r WPC a'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol.

Costau cyfle

185. Mae mynychu'r WPC a'r JEC yn cynrychioli cost cyfle i'r rheini sy'n bresennol fel y'i nodir yn y tablau isod.

186. Mae'r WPC yn cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn, tra bo'r JEC yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn.

187. Mae aelodau'r WPC yn cyflawni rôl gynrychioliadol ar ran eu sector a fydd yn dibynnu ar ymgysylltu ehangach drwy strwythurau a rhwydweithiau cenedlaethol sy'n seiliedig ar sector.

188. Amcangyfrifir bod costau cyfle aelodau yn ymgynghori â'r rhai maent yn eu cynrychioli ar eitemau a drafodir yn y WPC drwy rwydweithiau sector cyhoeddus, sector preifat a thrydydd sector sefydledig yn eitem agenda 30 munud ar dri chyfarfod y flwyddyn, sy'n cyfateb i awr a hanner y flwyddyn yn gyffredinol.

Tabl 1.2: Cost cyfle aelodau'r WPC yn treulio awr a hanner y flwyddyn yn ymgysylltu â'u sector drwy eu strwythurau cynrychioliadol sefydledig

Nifer a math o gyfranogwr	Cyflog gros yr awr (£) x cyfranogwyr x oriau	Is-gyfanswm (£)
Deg uwch swyddog undeb llafur amser llawn	41 ⁴⁶ x 10 x 1.5	615
Deg cynrychiolydd cyflogwyr (lefel cyfarwyddwr)	24 ⁴⁷ x 10 x 1.5	360
Argostau cyflogaeth (30%)		293
Cyfanswm (fesul cyfarfod)		1,268

189. Cyfanswm cost cyfle'r flwyddyn aelodau'r WPC i gefnogi'r gwaith o baratoi ar gyfer cyfarfodydd ac ymgysylltu'n ehangach felly yw **£1,300** (wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf).

Tabl 1.3: Cyfrifo'r amcangyfrif o'r gost cyfle i aelodau'r WPC ym mhob cyfarfod.

Nifer a math o gyfranogwr	Cyflog gros yr awr (£) x cyfranogwyr x oriau	Is-gyfanswm (£)
Deg uwch swyddog undeb llafur amser llawn	41 ⁴⁸ x 10 x 2	820
Deg uwch gynrychiolydd cyflogwyr sector cyhoeddus (lefel cyfarwyddwr)	41 ⁴⁹ x 10 x 2	820
Deg uwch swyddog yn Llywodraeth Cymru	41 ⁵⁰ x 10 x 2	820
Dirprwy Weinidog	60 ⁵¹ x 1 x 2	120
Argostau cyflogaeth (30%)		774
Cyfanswm (fesul cyfarfod)		3,354
Cyfanswm (cost flynyddol)		6,708

Tabl 1.4: Cyfrifo'r amcangyfrif o gost cyfle i aelodau fynychu cyd-bwyllgor gweithredol (JEC) y WPC

Nifer a math o gyfranogwr	Cyflog gros yr awr (£) x cyfranogwyr x oriau	Is-gyfanswm (£)
Tri uwch swyddog undeb llafur amser llawn	41 ⁵² x 3 x 2	246
Tri uwch gynrychiolydd cyflogwyr o'r sector cyhoeddus (lefel cyfarwyddwr)	41 ⁵³ x 3 x 2	246
Tri uwch swyddog yn Llywodraeth Cymru	41 ⁵⁴ x 3 x 2	246
Argostau cyflogaeth (30%)		221

Cyfanswm (fesul cyfarfod)		959
Cyfanswm (cost flynyddol)	959 x 6	5,754

190. Felly, cyfanswm yr amcangyfrif o gost cyfle blynyddol y WPC a'i gyfarfod JEC wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf yw **£12,500** (6,708 + 5,754 = 12,436).

Costau gweithredu'r canllawiau sy'n deillio o'r WPC presennol

191. Ers ei sefydlu, mae'r WPC wedi cynhyrchu nifer o ddogfennau canllaw sy'n ymwneud â gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Yma, rydym yn darparu rhai enghreifftiau dangosol o'r costau a ysgwyddir gan ddetholiad o gyrff cyhoeddus wrth weithredu dogfen Partneriaeth a Rheoli Newid y WPC.

192. Mae Partneriaeth a Rheoli Newid⁵⁵ yn gytundeb gan Gyngor Partneriaeth y Gweithlu y cytunwyd arno'n wreiddiol a'i gyhoeddi yn 2012. Mae'n darparu proses y cytunwyd arni ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru ynghylch sut y dylent ymgynghori ag undebau llafur wrth gychwyn unrhyw newidiadau neu welliannau i wasanaethau cyhoeddus. Mae'n mynd y tu hwnt i ymgynghori ar newid yn unig ac mae'n annog ac yn disgwyl deialog gynnar ar syniadau a chynigion i sicrhau bod yr holl faterion yn cael eu hystyried gan yr holl bartneriaid.

193. Prif ofyniad y cytundeb yw bod sefydliadau a'u rheolwyr yn ymgynghori ag undebau llafur ymlaen llaw pan fyddant yn dechrau newid a gwella. Roedd llawer o gyrff cyhoeddus yn cynnal cyfarfodydd o'r fath cyn i'r canllawiau gael eu cyhoeddi. Fodd bynnag, roedd y cytundeb yn ceisio cryfhau ac ymestyn hyn fel darpariaeth gyffredinol ar sail egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y ddwy ochr.

194. Mae'r amcangyfrif o gostau cyfle eitem hanner awr ychwanegol ar yr agenda mewn cyfarfod rhwng rheolwyr ac undebau mewn corff sector cyhoeddus yn cael ei gyfrifo isod. Dangosol yw'r cyfrifiad ac mae wedi'i gyfyngu i'r byrddau iechyd lleol a llywodraeth leol sef y ddau grŵp mwyaf o gyrff cyhoeddus datganoledig sydd â nifer sylweddol o staff. Oherwydd bod cynrychiolwyr undebau llafur yn gallu bod ar unrhyw raddfa ar draws sefydliad, mae'n anodd asesu costau eu cyfranogiad. Er mwyn deall y terfynau uchaf, mae'r costau tebygol wedi cael eu cyfateb i uwch swyddog adnoddau dynol a chysylltiadau diwydiannol.

Tabl 1.5: Cyfrifo'r amcangyfrif o gost cyfle 30 munud ychwanegol ar agenda cyfarfodydd rhwng rheolwyr ac undebau llafur mewn llywodraeth leol a chyrff iechyd

Rôl y person	Rhif	Cyfradd yr awr (£)	Cyfnod amser (oriau)	Is-gyfanswm (£)
Ochr y cyflogwr				
Rheolwr corfforaethol ⁵⁶	3	24	0.5	36

<i>Ochr yr Undebau Llafur</i>				
Swyddog lleyg ⁵⁷	3	14	0.5	21
Is-gyfanswm				57
Argostau cyflogaeth (30%)				17
CYFANSWM				74

195. Os ydym yn tybio bod canllawiau yn cael eu trafod mewn 3 cyfarfod y flwyddyn a gynhelir mewn 22 o awdurdodau lleol a 7 o fyrddau iechyd lleol, yna'r amcangyfrif o gost cyfle o drafod newidiadau mawr mewn cyfarfodydd rhwng rheolwyr ac undebau yw $74 \times 3 \times 29 = \text{£}6,400$ i'r cant agosaf.

Costau adrodd

196. Cyrff cyhoeddus datganoledig sy'n talu costau adrodd ar weithredu canllawiau a chytundebau'r WPC.

197. Gwneir gwaith monitro gan y gydysgrifenyddiaeth a'u staff hi sy'n gyfrifol am adrodd a chasglu data sy'n ymwneud â gweithredu canllawiau a chytundebau'r WPC. Sefydlwyd y gydysgrifenyddiaeth gyda'r bwriad penodol o gefnogi gwaith o'r fath. Ni ellir ei ystyried yn gost cyfle ychwanegol gan ei fod yn un o swyddogaethau craidd yr ysgrifenyddiaeth. Mae eisoes yn cael ei gyfrifo o fewn costau ysgrifenyddiaeth y WPC y cyfeirir ati uchod.

Costau'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol

Costau rhedeg a chymorth ymchwil

198. Ers mis Tachwedd 2022, mae Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol wedi'i sefydlu i baratoi ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a gynigir gan y Bil. Mae'n cyfarfod bob deufis. Fe'i cefnogir gan gydysgrifenyddiaeth o bump o bobl (un ar Radd 6, tri ar lefel SEO ac un ar lefel HEO) sy'n cefnogi'r WPC a'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol, fel y nodwyd ym mharagraffau 181-184 ac yn Nhabl 1.1 uchod. Ariennir eu gwaith gan Lywodraeth Cymru.

199. Swyddogaeth y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol yw gweithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol ar sefydlu'r CPG felly ni ragwelir y bydd y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol yn parhau pan fydd yr CPG yn ei le.

Costau cyfle

200. Mae mynychu'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol yn cynrychioli cost cyfle i'r rheini sy'n bresennol. O dan ei amserlen bresennol, cynhelir y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol tua wyth gwaith y flwyddyn.

201. Mae aelodau'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol yn cyflawni rôl gynrychioliadol ar ran eu sector a fydd yn dibynnu ar ymgysylltu ehangach drwy strwythurau a rhwydweithiau cenedlaethol sy'n seiliedig ar sector.

202. Amcangyfrifir bod costau cyfle aelodau yn ymgynghori â'r rhai maent yn eu cynrychioli ar eitemau a drafodir yn y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol drwy rwydweithiau sector cyhoeddus, sector preifat a thrydydd sector sefydledig yn eitem agenda 30 munud ar dri chyfarfod y flwyddyn, sy'n cyfateb i awr a hanner y flwyddyn yn gyffredinol.

Tabl 2: Cost cyfle aelodau'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol yn treulio awr a hanner y flwyddyn yn ymgysylltu â'u sector drwy eu strwythurau cynrychioliadol sefydledig

Nifer a math o gyfranogwr	Cyflog gros yr awr (£) x cyfranogwyr x oriau	Is-gyfanswm (£)
Naw uwch swyddog undeb llafur amser llawn	41 ⁵⁸ x 9 x 1.5	554
Naw cynrychiolydd cyflogwyr (lefel cyfarwyddwr)	41 ⁵⁹ x 9 x 1.5	554
Argostau cyflogaeth (30%)		332
Cyfanswm (fesul cyfarfod)		1,440

203. Felly cyfanswm cost cyfle'r flwyddyn i aelodau'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol i gefnogi'r gwaith o baratoi ar gyfer cyfarfodydd ac ymgysylltu'n ehangach yw **£1,400** (wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf).

Tabl 2.1: Cyfrifo'r amcangyfrif o'r gost cyfle i aelodau'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol ym mhob cyfarfod

Nifer a math o gyfranogwr	Cyflog gros yr awr (£) x cyfranogwyr x oriau	Is-gyfanswm (£)
Naw uwch swyddog undeb llafur amser llawn	41 ⁶⁰ x 9 x 2	738
Naw uwch gynrychiolydd cyflogwyr (lefel cyfarwyddwr)	41 ⁶¹ x 9 x 2	738
Deg uwch swyddog yn Llywodraeth Cymru	41 ⁶² x 9 x 2	738

Un Dirprwy Weinidog	60 x 1 x 2	120
Argostau cyflogaeth (30%)		700
Cyfanswm (fesul cyfarfod)		3,034
Cyfanswm (fesul blwyddyn)	3,034 x 15	48,544

204. Felly, cyfanswm yr amcangyfrif o gost cyfle blynyddol y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol yw **£48,500** wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf).

Manteision

205. Mae'r opsiwn hwn yn cadw'r sefyllfa bresennol, ac o ganlyniad mae unrhyw fanteision ychwanegol yn gyfyngedig.

Opsiwn 2: Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (CPG) Statudol – dilyn trywydd statudol o ran partneriaeth gymdeithasol.

Disgrifiad

206. O dan opsiwn dau, byddai Gweinidogion Cymru yn creu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol.

207. Bydd aelodaeth a swyddogaethau'r CPG ar wahân ac yn wahanol i rai'r cyn Gyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol, a oedd yn bennaf yn cefnogi'r ymateb i'r pandemig a'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol sydd wedi'i sefydlu i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol i baratoi ar gyfer yr CPG.

208. Bydd y CPG yn gorff cyngori statudol teirochrog, fforwm traws-sector cenedlaethol sy'n ceisio darparu cyfrwng ar gyfer llais a chyfranogiad partneriaid cymdeithasol, yn benodol cyflogwyr ac undebau llafur, wrth ddatblygu a gweithredu polisi'r llywodraeth. Prif ddiben y CPG yw darparu gwybodaeth a chynghor er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus a chynyddu llesiant. Ni fydd y rhai sy'n cael eu penodi i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn derbyn tâl.

209. Bydd y CPG yn darparu gwybodaeth a chynghor i Weinidogion Cymru ar y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, y swyddogaethau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol, a'r gwaith o gyflawni nod llesiant "Cymru lewyrchus".

210. Câi'r CPG ei gefnogi gan ysgrifenyddiaeth a byddai'n gallu defnyddio arbenigedd ehangach Llywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o gapasiti i baratoi cyngor sy'n gadarn, yn awdurdodol, wedi'i gostio, wedi'i werthuso ar gyfer risg ac wedi'i asesu'n llawn o ran ei effeithiau posibl. Bydd costau'r CPG yn cael eu talu o gyllidebau Llywodraeth Cymru; ni fydd gan y Cyngor bwerau i gyflogi ei staff ei hun nac i ysgwyddo unrhyw wariant.

Costau – Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Statudol

Costau trosiannol

211. Ceir tîm ysgrifenyddiaeth eisoes sydd â'r cylch gwaith craidd o gefnogi'r WPC a'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol. Ni ddisgwylir y byddai'r llwyth gwaith gweinyddol wrth sefydlu a chefnogi'r trefniadau newydd i CPG statudol gymryd lle'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol presennol, yn cynnwys unrhyw is-grwpiau, yn sylweddol uwch.
212. Gall fod costau yn gysylltiedig â sefydlu presenoldeb digidol ar gyfer y CPG fel y'i nodir yn yr adran ar gostau Cydymffurfio ac Adrodd yn y ddogfen hon. Bydd opsiynau ar gyfer datblygu llwyfan ar-lein yn rhan o gynllun gweithredu'r CPG.
213. Er mwyn cefnogi'r cyfnod trosiannol, sefydlir tudalen sefydliad ar safle craidd LLYW.CYMRU yn y lle cyntaf am ddim cost. Byddai'r gost cyfle hon yn cael ei chwmpasu yng nghost gweithredu'r gydysgrifenyddiaeth.

Costau rhedeg

214. Sefydli'r CPG ar ôl i ddarpariaethau perthnasol ddod i rym. Disgwylir iddo gael ei weithredu ym mlwyddyn ariannol 2023/24.

Cyffredinol a Gweinyddol

215. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm costau trosiannol a blynyddol sefydlu'r CPG yn **£10,000 a £36,340 yn y drefn honno**. Ceir y manylion yn y paragraffau canlynol:

Tabl 2.2: Crynodeb o gostau ar gyfer Opsiwn 2

Crynodeb o gostau (£)	
Trosiannol	
Presenoldeb Digidol	10,000
Cyfanswm costau trosiannol	10,000
Blynyddol	
Tabl 2.3	9,600
Tabl 2.4	8,600
Tabl 2.5	1,400
Tablau 2.6 a 2.7	12,000
Tabl 2.8	4,700 (bob tair blynedd)
Cyfanswm costau blynyddol	36,300

216. Disgwylir i gyfarfodydd gael eu cynnal deirgwaith y flwyddyn am ddwy awr o hyd yr un.

Tabl 2.3: Costau cyfle dangosol cyfarfod dwy awr i aelodau.

Nifer a math o gyfranogwr	Cyflog gros yr awr (£) x cyfranogwyr x oriau	Is-gyfanswm (£)
Naw uwch swyddog undeb llafur amser llawn	$41^{63} \times 9 \times 2$	738
Naw cynrychiolydd cyflogwyr (lefel uwch reolwr)	$41^{64} \times 9 \times 2$	738
Naw cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru (rhaniad yn tybio'r Prif Weinidog, dau o Weinidogion Cymru a chwe uwch swyddog ar lefel cyfarwyddwr/dirprwy gyfarwyddwr)	$100^{65} \times 1 \times 2$	200
	$72^{66} \times 2 \times 2$	288
	$41^{67} \times 6 \times 2$	492
Argostau cyflogaeth (30%)		739
Cyfanswm (fesul cyfarfod)		3,195
Cyfanswm (fesul blwyddyn)	$3,195 \times 3$	9,585

217. Wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf, cyfanswm cost cyfle aelodau'r CPG y flwyddyn yw **£9,600**.

Is-grwpiau

218. Byddai gan y CPG y pŵer i ffurfio is-grwpiau i'w gynorthwyo gyda'i waith a bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol iddo sefydlu is-grŵp caffael cyhoeddus cyn gynted er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Dyletswyddau Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol.

219. At y diben hwn, tybir y byddai is-grwpiau'n cyfarfod dair gwaith y flwyddyn ac y byddai tri ohonynt.

Tabl 2.4: Cyfrifo'r costau cyfle a amcangyfrifir ar gyfer rhedeg is-grŵp

Nifer a math o gyfranogwr	Cyflog gros yr awr (£) x cyfranogwyr x oriau	Is-gyfanswm (£)
Naw uwch swyddog i bob is-grŵp	$41^{68} \times 9 \times 2$	738

Argostau cyflogaeth (30%)		221
Cyfanswm (fesul is-grŵp)		959

220. Felly cost cyfle amcangyfrifedig is-grwpiau CPG yw $959 \times 3 \times 3 = \text{£}8,600$ (wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf).

Adeiladau

221. Nid oes costau uniongyrchol yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Ystyrir bod ystad Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yn ddigonol ar hyn o bryd.

TG

222. Fel y nodir nes ymlaen yn yr adran hon, bydd hyd at £10,000 ar gael ar gyfer creu presenoldeb digidol ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

223. Nid ydym yn rhagweld costau TG ychwanegol y tu hwnt i greu presenoldeb digidol, gan fod y rhain eisoes yn cael eu talu o fewn technoleg bresennol Llywodraeth Cymru.

Staff

224. Rhagwelwn y byddai'r staff presennol yn ddigon i ymdopi â swyddogaeth yr ysgrifenyddiaeth o dan Opsiwn 2 fel rhan o'r Gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg ehangach, felly nid yw hyn yn gost ychwanegol. Amcangyfrifir y byddai costau staff y Gydysgrifenyddiaeth yn **£304,400** y flwyddyn wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf (gweler paragraffau 181 – 184 a thabl 1.1 uchod).

Costau cyfle aelodau'r CPG i gefnogi'r gwaith o baratoi ar gyfer cyfarfodydd ac ymgysylltu'n ehangach

225. Mae aelodau'r CPG yn cyflawni rôl gynrychioliadol ar ran eu sector a fydd yn dibynnu ar ymgysylltu ehangach drwy strwythurau a rhwydweithiau cenedlaethol sy'n seiliedig ar sector.

226. Ni ragwelir y byddai angen staff ychwanegol ar bartneriaid cymdeithasol, y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes wedi ei rwymo i'r trefniadau presennol, er mwyn ymateb i'r trefniadau newydd a gyflwynir gan y Bil. Bwriad y polisi yw symleiddio'r mecanweithiau presennol lle bynnag y bo modd a lleihau'r baich ar y costau cyfle y mae partneriaid yn eu talu ar hyn o bryd o ran staff yn mynychu cyfarfodydd, felly disgwylir y bydd trefniadau staff presennol yn ddigonol i bartneriaid cymdeithasol llynu wrth ddarpariaethau'r Bil.

227. Amcangyfrifir bod costau cyfle aelodau yn ymgynghori â'r rhai maent yn eu cynrychioli ar eitemau a drafodir yn y CPG drwy rwydweithiau sector cyhoeddus,

sector preifat a thrydydd sector sefydledig yn eitem agenda 30 munud ar dri chyfarfod y flwyddyn, sy'n cyfateb i awr a hanner y flwyddyn yn gyffredinol.

Tabl 2.5: Cost cyfle aelodau'r CPG yn treulio awr a hanner y flwyddyn yn ymgysylltu â'u sector drwy eu strwythurau cynrychioliadol sefydledig

Nifer a math o gyfranogwr	Cyflog gros yr awr (£) x cyfranogwyr x oriau	Is-gyfanswm (£)
Naw uwch swyddog undeb llafur amser llawn	41 ⁶⁹ x 9 x 1.5	554
Naw cynrychiolydd cyflogwyr (lefel uwch reolwr)	41 ⁷⁰ x 9 x 1.5	554
Argostau cyflogaeth (30%)		332
Cyfanswm (fesul cyfarfod)		1,440

228. Felly cyfanswm cost cyfle'r flwyddyn i aelodau'r CPG i gefnogi'r gwaith o baratoi ar gyfer cyfarfodydd ac ymgysylltu'n ehangach yw **£1,400** (wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf).

Cynhyrchu cyngor

229. Byddai'r gost o gynhyrchu cyngor neu ddwyn gwybodaeth ynghyd ar gyfer Gweinidogion Cymru sy'n deillio o gyngor y CPG yn cael ei thalu o gyllidebau adrannau Llywodraeth Cymru.

230. Byddai pob eitem o gyngor i Weinidogion yn cael ei chostio, fel rhan o drefn gadarn sy'n adlewyrchu prosesau presennol y gwasanaeth sifil ar gyfer asesu cynigion polisi.

231. Byddai costau cyfle o ran cynhyrchu'r cyngor hwn i Weinidogion. At ddibenion enghreifftiol, rydym yn darparu amcangyfrif o'r costau wrth roi cyngor ar fater syml a chynghor ar fater cymhleth.

Tabl 2.6: Cyfrifo'r amcangyfrif o gost cyfle cynhyrchu cyngor i Weinidogion ar fater syml

Aelod staff a gradd	Cost staff blynyddol ⁷¹ (£)	Cyfradd ddyddiol (£) (rhannwyd â 220)	Diwrnodau	Is-gyfanswm (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr –	120,174	546	x 0.5	273

cadarnhau'n derfynol				
Gwasanaethau cyfreithiol – Gradd 7	86,731	394	x 1	394
Arweinydd Polisi – SEO	66,364	302	x 5	1,510
CYFANSWM				2,177

Tabl 2.7: Cyfrifo'r amcangyfrif o gost cyfle cynhyrchu cyngor i Weinidogion ar fater cymhleth

Aelod staff a gradd	Cost staff blynyddol ⁷² (£)	Cyfradd ddyddiol (£) (rhannwyd â 220)	Diwrnodau	Is-gyfanswm (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr – cadarnhau'n derfynol	120,174	546	1	546
Un arweinydd polisi – Gradd 6	105,117	478	10	4,780
Gwasanaethau cyfreithiol – Gradd 7	86,731	394	2	788
Arweinydd Polisi – SEO	66,364	302	5	1,510
CYFANSWM				7,624

232. At y diben hwn, tybir y byddai'r CPG yn cynhyrchu un eitem o gyngor i Weinidogion ar fater cymhleth mewn blwyddyn a dwy eitem ar faterion mwy syml. Mae'r dybiaeth hon yn seiliedig ar y ffaith y bydd yr CPG yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn. Disgwylir i is-grwpiau gwrdd dair gwaith y flwyddyn, a disgwylir y bydd tri is-grŵp. Felly, bydd 12 cyfarfod sy'n gysylltiedig â'r CPG bob blwyddyn, ac rydym wedi tybio y bydd chwarter o'r cyfarfodydd hyn yn arwain at yr angen i roi cyngor i Weinidogion Cymru.

233. Felly, amcangyfrifir mai'r gost cyfle flynyddol o gynhyrchu cyngor o'r fath fyddai $(2,177 \times 2) + 7,624 = \text{£}12,000$ (i'r cant agosaf).

Costau canllawiau ar faterion Gweinidogion

234. Byddai'r gost o gynhyrchu canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru sy'n deillio o gyngor a gafwyd gan y CPG yn cael ei thalu o gyllidebau adrannau Llywodraeth Cymru.

235. Nodir costau'n gysylltiedig â datblygu a gweithredu canllawiau'n ymwneud â'r dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol o dan yr adrannau perthnasol.

Costau Cydymffurfio ac Adrodd

236. Argymhellir y dylai'r CPG, pan fydd wedi'i sefydlu, gael presenoldeb digidol cryf yn cynnwys storffeydd trefnus y gellir eu chwilio ar gyfer:

- Adroddiadau partneriaeth gymdeithasol blynyddol gan gyrff cyhoeddus.
- Adroddiadau blynyddol gan gyrff cyhoeddus ynghylch y ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol.

237. Mae Gweinidogion Cymru yn ymrwmo i roi anogaeth barhaus i gyrff cyhoeddus wrth sicrhau cydymffurfedd â'r dyletswyddau yn y Bil, yn cynnwys drwy drefnu digwyddiadau, gweithgareddau ac ymgyrchoedd rheolaidd ar y cyd â phartneriaid cymdeithasol. Byddai presenoldeb ar-lein y CPG yn darparu canolbwynt ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu ac yn darparu gwybodaeth am hyfforddiant a chanllawiau, deunyddiau cyfathrebu a digwyddiadau partneriaeth gymdeithasol, yn ogystal â gwybodaeth am strwythurau partneriaeth gymdeithasol rhanbarthol, sectoraidd a thraws-sector, yn ogystal â gwybodaeth am y CPG ei hun.

238. Byddai'r gwaith o weithredu'r canllawiau'n cael ei fonitro'n rheolaidd pan fydd hyn yn cael ei ddiffinio yn y dyletswyddau perthnasol ac mewn unrhyw ganllawiau a byddai adroddiadau eithrio'n cael eu paratoi gan ysgrifenyddiaeth y CPG (disgrifir costau'r ysgrifenyddiaeth uchod).

239. Bydd costau am bresenoldeb digidol y CPG yn amrywio yn ôl swyddogaeth y safle.

240. Ni fyddai tudalen sefydliad ar safle craidd LLYW.CYMRU yn creu unrhyw gost oherwydd byddai'n adeiladu ar lwyfan sy'n bodoli eisoes. Gall cyhoeddiadau, adroddiadau a dogfennau gael eu storio ar y tudalennau hyn a gellid defnyddio brandio cyfyngedig.

241. Byddai i lwyfan mwy datblygedig, megis safle annibynnol ar lwyfan LLYW.CYMRU, gostau ychwanegol. Byddai angen adnoddau staff ychwanegol i ddatblygu'r safle ac i fonitro a diweddarau'r llwyfan yn barhaus, ar ffurf HEO fwy na thebyg. Amcangyfrifwn y byddai'r gost hon am ddatblygu a chynnal safle annibynnol ar lwyfan LLYW.CYMRU yn gost untro o **hyd at £10,000**, a disgwylir ysgwyddo'r gost hon yn 2023-24. Byddai unrhyw ddatblygiadau pellach i'r safle yn y dyfodol yn cael eu costio ar wahân.

Monitro adroddiadau blynyddol

242. Caiff costau monitro ac adrodd yr adroddiadau partneriaeth gymdeithasol a chaffael blynyddol eu hamcangyfrif yn eu hadrannau perthnasol o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Adrodd ar effeithiolrwydd y CPG ei hun

243. Gallai'r CPG adrodd ar ei effeithiolrwydd ei hun. Byddai cost cyfle ynghlwm wrth y gweithgaredd hwn i aelodau'r CPG.

244. Mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru wedi datblygu adnodd hunanasesu a chanllawiau ar gyfer byrddau⁷³. Pe bai'r CPG yn mabwysiadu'r model hwn, byddai'n cynnwys pedwar cam:

- i. Paratoi (cytuno ar gwmpas, amseru a briffio aelodau)
- ii. Cwblhau'r adnodd hunanasesu yn unigol a dadansoddi'r ymatebion
- iii. Gweithdy wedi'i hwyluso a chynllunio gweithredu
- iv. Gwerthuso'r broses.

245. Byddai cost cyfle i aelodau wrth gymryd rhan yn y gwerthusiad. O ran paratoi, gallai fod yn ddigon i'r mater gael ei drafod yn fyr mewn cyfarfod o'r CPG ei hun. Ni ddylai cwblhau'r adnodd hunanasesu gymryd mwy na hanner awr yr un, sy'n gost fach iawn. Mae cost cyfle wrth gymryd rhan mewn gweithdy a hwylusir. Rhagwelir y bydd hyn yn cymryd hanner diwrnod.

246. Ysgrifenyddiaeth y CPG fyddai'n gyfrifol am y gwaith o baratoi'r adnodd hunanasesu, dadansoddi'r ymatebion, a threfnu'r gweithdy. Rhoddir cyfrif am yr amser staff hwn eisoes yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Tabl 2.8: Cyfrifo amcangyfrif o'r gost cyfle i'r CPG wrth gymryd rhan mewn gweithdy wedi'i hwyluso

Nifer a math o gyfranogwr	Cyflog gros yr awr (£) x cyfranogwyr x oriau	Is-gyfanswm (£)
Tri uwch swyddog undeb llafur amser llawn	$41^{74} \times 3 \times 3$	369
Tri chynrychiolydd o'r sector busnes (lefel uwch reolwr)	$41^{75} \times 3 \times 3$	369
Tri uwch gynrychiolydd cyflogwyr o'r sector cyhoeddus (lefel cyfarwyddwr)	$41^{76} \times 3 \times 3$	369
Hwylusydd		2,500

Argostau cyflogaeth (30%)		1,082
CYFANSWM		4,689

247. Felly, cyfanswm cost proses hunanasesu yw **£4,700**, wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf. Rhagwelir y byddai un hunanasesiad yn digwydd bob tair blynedd, gan ddechrau yn 2023-24.

Manteision

248. Byddai Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol, drwy gynghori Gweinidogion Cymru, yn darparu arweinyddiaeth genedlaethol i gryfhau a hyrwyddo cysondeb mewn gwaith partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Byddai'n gyfrwng ar gyfer llais a chyfranogiad partneriaid cymdeithasol wrth ddatblygu a gweithredu polisi drwy ei strwythur cynrychioliadol. Wrth baratoi cyngor i Weinidogion Cymru, byddai Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol yn gallu casglu gwybodaeth gan sefydliadau partneriaeth gymdeithasol mewn ffordd systematig er mwyn llywio ei drafodaethau a gwella ansawdd y cyngor i Weinidogion.

Costau a Manteision Rhan 2: Partneriaeth Gymdeithasol a Datblygu Cynaliadwy

1. Y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

Cyflwyniad

249. Mae a wnelo Partneriaeth Gymdeithasol â gweithio mewn ffordd sy'n arddel gwerthoedd a rennir a diben cyffredin. Wrth wraidd Partneriaeth Gymdeithasol mae'r egwyddor sylfaenol mai'r ffordd orau o gyflawni nodau ac amcanion sefydliad yw drwy sicrhau bod cyflogwyr, staff a'u hundebau yn gweithio gyda'i gilydd ar sail cydweithredu a chydweithio.

250. Nodwyd bod partneriaethau cymdeithasol yn cael effeithiau cadarnhaol ar amrywiaeth o ffactorau pwysig yn y gweithle, yn cynnwys mwy o gynhyrchiant, sicrhau arloesedd, gwella sefydlogrwydd a lleihau'r risg o anghydfodau diwydiannol (Comisiwn Ewropeaidd, 2016⁷⁷).

251. Prif ddiben y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yw gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

252. Bydd y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn rhoi llais i bartneriaid cymdeithasol a fydd yn helpu i lywio a dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu a gweithredu polisi drwy bartneriaeth gymdeithasol, er mwyn helpu i gyflawni canlyniadau dymunol gwell gwasanaethau cyhoeddus a gwell llesiant yng Nghymru.

253. Mae'r opsiynau canlynol wedi cael eu nodi a'u hystyried o ran dyletswydd partneriaeth gymdeithasol:

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

Disgrifiad

254. Ni fyddai unrhyw newid deddfwriaethol o dan yr opsiwn hwn. Byddai'r opsiwn hwn yn dibynnu ar ddarpariaethau presennol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 nad yw'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrff cyhoeddus sydd o fewn y cwmpas geisio consensws neu gyfaddawd â gweithwyr drwy eu hundeb(au) llafur cydnabyddedig (neu gynrychiolwyr eraill ei staff) wrth bennu amcanion llesiant a gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau y mae'r corff cyhoeddus yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion llesiant hynny.

Costau

255. Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mae'n bosibl y bydd costau cyfle'n gysylltiedig â pheidio â sicrhau cysondeb â'r uchelgeisiau gwaith teg drwy bartneriaeth gymdeithasol, neu anghysondeb rhwng dulliau gweithredu gwahanol ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus.

Manteision

256. Ni fyddai'r trefniadau sy'n bodoli nawr yn newid; felly nid oes disgwyl y bydd unrhyw fanteision bwriadol ychwanegol.

Crynodeb

257. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu mewn partneriaeth gymdeithasol drwy ymgysylltu ag undebau llafur neu gynrychiolwyr eraill staff wrth gyflawni eu dyletswyddau llesiant yn adran 3(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

258. Ni fyddai angen unrhyw newid deddfwriaethol o dan yr opsiwn hwn.

259. Nid yw'r opsiwn hwn yn cyflawni amcanion Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, 'Cymru Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol' a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019, sy'n nodi cynigion ar gyfer deddfwriaeth i greu trefniadau partneriaeth gymdeithasol statudol yng Nghymru gyda darpariaethau cysylltiedig sy'n creu fframwaith ar gyfer sbarduno cydraddoldeb gymdeithasol, gan adeiladu ar yr egwyddorion partneriaeth a chydweithio.

Opsiwn 2 – Defnyddio deddfwriaeth gyfredol i gyflawni'r newidiadau, yn bennaf Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Disgrifiad

260. Mae Adran 16 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i gyrff cyhoeddus ynghylch arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Bil, ac yn mynnu bod y cyrff cyhoeddus hynny'n talu sylw i'r canllawiau hyn. Cafodd canllawiau statudol ar gyfer cyrff cyhoeddus oedd yn destun y ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 eu cyhoeddi yn 2016. Mae Rhannu Pwrpas Rhannu Dyfodol 1 – Canllaw Craidd a Rhannu Pwrpas Rhannu Dyfodol 2 – Rôl unigol (cyrff cyhoeddus) yn darparu canllawiau ar osod a chyflawni amcanion llesiant, yn cynnwys canllawiau ar ffordd o weithio sy'n cynnwys pobl a chydweithio â hwy.

261. Gellid adolygu'r canllawiau statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, neu eu cyhoeddi i annog cyrff cyhoeddus i gynnwys eu hundeb(au) llafur cydnabyddedig neu weithwyr wrth bennu amcanion llesiant a gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau y mae'r corff cyhoeddus yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion llesiant hynny.

Costau

262. Byddai'r costau yn eithaf tebyg i rai Opsiwn 3, o ystyried:

- a. mae'r canllawiau'n mynnu bod cyrff cyhoeddus yn adrodd yn yr un ffordd ag y byddent o dan Opsiwn 3;

- b. byddai gweithredu'r canllawiau gan gyrff cyhoeddus yn cael effaith debyg i'r goblygiadau cost ar gyfer partneriaeth gymdeithasol fel y disgrifir o dan Opsiwn 3;
- c. byddai'r gost i Lywodraeth Cymru o ddatblygu canllawiau yn debyg i'r gost o dan y Bil drafft ac sy'n cael ei disgrifio o dan Opsiwn 3;
- d. mae'r costau ymgyswddo i gyrff cyhoeddus ar gyfer deall unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn debygol o fod yr un fath ag o dan Opsiwn 3.

Manteision

263. Byddai'r manteision yn cryfhau ac yn adeiladu ar y ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn benodol sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Crynodeb

264. Ni fyddai'r cynigion yn cyflawni'r nod o osod partneriaeth gymdeithasol ar sail statudol. Ni fyddai unrhyw ofyniad i gyrff cyhoeddus oedd o fewn y cwmpas gyflwyno eu hadroddiadau blynyddol i Gyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol er mwyn dangos sut roeddent yn cyflawni'r priod ddyletswyddau yn narpariaethau'r Bil. Byddai disgwyl i'r costau fod yn debyg i'r rhai a nodir o dan Opsiwn 3.

Opsiwn 3 – Sefydlu dyletswydd partneriaeth gymdeithasol (opsiwn a ffefrir)

Disgrifiad

265. Byddai'r opsiwn hwn yn creu dyletswydd partneriaeth gymdeithasol ar rai cyrff cyhoeddus i geisio consensws neu gyfaddawd â'u hundeb(au) llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr eraill ei staff (lle bo'n briodol) wrth bennu amcanion llesiant a gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau y mae'r corff cyhoeddus yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion llesiant hynny, a chyflwyno adroddiad blynyddol ar hyn i Gyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol. Prif ddiben y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yw gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Bil yn nodi bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus sydd o fewn y cwmpas wneud y canlynol:

- i'r graddau y bo'n rhesymol, geisio consensws neu gyfaddawd â'u hundebau llafur cydnabyddedig neu (os nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill staff wrth bennu a chyflawni eu hamcanion llesiant;
- wrth ystyried yr hyn sy'n rhesymol, rhain i gyrff cyhoeddus ymgynghori â phartneriaid yng nghyfnod ffurfiannol y broses;
- fel arall rhoi digon o amser a gwybodaeth i bartneriaid drwy gydol y broses er mwyn ystyried yr hyn a gynigir yn ddigonol;
- llunio adroddiadau blynyddol yn nodi sut maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd, a gyflwynir i Gyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol (CPG), at ddibenion craffu,

- wrth ystyried beth sy'n rhesymol (wrth geisio consensws neu gyfaddawd), roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

266. Bydd dyletswydd partneriaeth gymdeithasol wahanol yn gymwys i Weinidogion Cymru. Dim ond ynghylch ail gymal y ddyletswydd llesiant yn adran 3(2)(b), hynny yw, wrth gyflawni eu hamcanion llesiant, ar gyfer penderfyniadau strategol, y mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i ymgynghori. Fodd bynnag, bydd y broses ymgynghori yn ehangach oherwydd bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar draws amrywiaeth o bartneriaid cymdeithasol (cyflogwyr ac undebau llafur) sy'n eistedd ar Gyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol.

Costau

Tabl 3: Crynodeb o gostau ar gyfer Opsiwn 3

Crynodeb o gostau (£)	
Trosiannol	
Tabl 3.4	22,300
Cyfanswm costau trosiannol	22,300
Blynyddol	
Tabl 3.1	162,800
Tabl 3.2	22,000
Tabl 3.3	21,200 (bob tair blynedd)
Tabl 3.5	82,200
Cyfanswm costau blynyddol	288,200

Staff

267. Bydd staff Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan hollbwysig wrth gyflwyno a gweinyddu'r ddyletswydd hon.

268. Disgwyliwn i'r staff a nodir yn Nhabl 3.1 isod fod yn ddigonol i reoli gwaith gweinyddu Polisi y ddyletswydd. Yn gysylltiedig â'r costau Gweithredu a gweinyddu mae ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol ac eraill, ymhlith pethau eraill.

269. Byddai mwyafrif y costau i Lywodraeth Cymru yn deillio o'r angen, yn enwedig yn y flwyddyn gyntaf, i gynnal sesiynau hyfforddi ymwybyddiaeth/ymgyfarwyddo er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r ddyletswydd statudol, a pharatoi a chyhoeddi canllawiau a fyddai'n tynnu sylw at y manteision y gellid eu gwireddu drwy gyflawni'r ddyletswydd. Hefyd bydd yr adnodd hwn yn cwmpasu'r gwaith o gasglu, prosesu a dadansoddi adroddiadau blynyddol. Wedi'u cynnwys hefyd mae costau adnodd cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol a gyflwynir i'r CPG gan yr holl Gyrff Cyhoeddus a Gweinidogion Cymru a fyddai'n darparu gwelededd ac yn dangos cydymffurfedd â'r ddyletswydd.

Tabl 3.1 – Costau rhedeg i staff Llywodraeth Cymru

Gradd	Cost staff blynyddol ⁷⁸ (£)	Costau fesul diwrnod fesul blwyddyn (rhannwyd â 220)	Cost flynyddol
Dirprwy Gyfarwyddwr – 22 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	120,174	546	12,012
Gradd 6 – 66 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	105,117	478	31,548
SEO – 220 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	66,364	302	66,440
HEO – 220 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	52,774	240	52,800
Cyfanswm			162,800

270. Wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf, bydd y costau rhedeg blynyddol i staff Llywodraeth Cymru weinyddu'r ddyletswydd hon yn **£162,800**.

271. Ar ôl gweithredu, ystyrir mai dyma fydd y costau rheolaidd uniongyrchol i Lywodraeth Cymru:

- ystyried a dadansoddi adroddiadau blynyddol gan bob un o'r cyrff cyhoeddus penodedig, a chyngor a ddarperir gan y CPG;
- cyhoeddi canllawiau ar bartneriaeth gymdeithasol o bosibl;
- Paratoi cyngor Gweinidogol ar gynnydd neu ddatrys 'materion' wrth iddynt godi.

272. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

273. O dan y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, byddai'n ofynnol i gyrff cyhoeddus o fewn y cwmpas lunio adroddiadau blynyddol ar wahân yn nodi'r ffordd maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd a gyflwynir i'r CPG, at ddibenion craffu. Byddai'n ofynnol cyflwyno adroddiadau blynyddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddod i ben.

274. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddod i ben ar y ffordd maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno eu hadroddiad blynyddol i'r CPG a'i gyflwyno gerbron y Senedd.

275. Byddai costau'n codi i Lywodraeth Cymru ar gyfer prosesu a dadansoddi'r adroddiadau i'w hystyried gan y CPG. Ystyrir mai dyma fydd y rhain:

Tabl 3.2 – Costau Llywodraeth Cymru am brosesu a dadansoddi adroddiadau

Gradd	Cost staff blynyddol (£) ⁷⁹	Costau fesul diwrnod fesul blynyddyn (rhannwyd â 220)	Cost flynyddol
Dirprwy Gyfarwyddwr – 5 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	120,174	546	2,730
Gradd 6 – 15 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	105,117	478	7,170
SEO – 20 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	66,364	302	6,040
HEO – 25 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	52,774	240	6,000
Cyfanswm			21,940

276. Wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf, bydd y costau rhedeg blynyddol am brosesu a dadansoddi adroddiadau o dan y ddyletswydd PG yn **£22,000**.

Cyhoeddi canllawiau ar Bartneriaeth Gymdeithasol o bosibl

277. Mae'n annhebygol y bydd canllawiau newydd yn cael eu cyhoeddi'n aml. Ni fydd canllawiau newydd neu ganllawiau wedi'u diweddarau o reidrwydd yn cael eu cyhoeddi mewn ymateb i bob cylch adrodd blynyddol. At ddiben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, tybir y caiff canllawiau newydd ar bartneriaeth gymdeithasol eu cyhoeddi bob 3 blynedd.

278. Rydym wedi tybio y bydd canllawiau ar y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn cael eu cyhoeddi bob tair blynedd, achos bod cyrff cyhoeddus eisoes yn gwneud llawer o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, fel pennu amcanion llesiant. Felly, rydym yn rhagweld na fydd angen cyhoeddi canllawiau'n fwy rheolaidd.

Tabl 3.3: cost datblygu un darn o ganllawiau statudol bob 3 blynedd

Gradd	Costau staff blynyddol⁸⁰ (£)	Costau fesul diwrnod fesul flwyddyn (rhannwyd â 220)	Cost flynyddol
Dirprwy Gyfarwyddwr – 5 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	120,174	546	2,730
Gradd 6 – 15 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	105,117	478	7,170
SEO – 17.5 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	66,364	302	5,285
HEO – 25 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	52,774	240	6,000
Cyfanswm			21,185

279. Felly, cost bosibl datblygu darn o ganllawiau statudol yw **£21,200**, wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf.

Ymgysfarwyddo

280. Bydd y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn effeithio ar y ffordd mae cyrff cyhoeddus yn arfer eu ddyletswydd llesiant i osod a bodloni amcanion llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae manylion y costau i gyrff cyhoeddus sy'n deillio o'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn y paragraffau a ganlyn.

281. Pe bai'r rhestr o gyrff a restrir yn adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn cael ei diwygio, yna byddai'r costau ymgysfarwyddo a'r costau partneriaeth gymdeithasol mewn cyrff cyhoeddus fel a nodir yn y paragraffau a ganlyn yn cynyddu yn rhinwedd cyrff newydd yn dod o dan y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol.

282. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn darparu digwyddiadau a chanllawiau ar gyfer y sector cyhoeddus er mwyn ei helpu i ymgysfarwyddo â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol (a hefyd â'r diwygiad i adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 drwy roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith teilwng' yn y nod llesiant 'Cymru lewyrchus' yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (gweler paragraffau 298-317 isod). At ddiben yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, tybir y bydd y gweithgareddau ymgysfarwyddo cychwynnol yn cymryd oddeutu tair awr o amser swyddog, a chynigir y cyfle hwn i ymgysfarwyddo i dri cynrychiolydd (ee Prif Weithredwr, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol a

Swyddog Adnoddau Dynol) a thri cynrychiolydd Undeb Llafur o bob un o'r 47 o gyrff cyhoeddus sydd o fewn y cwmpas. Mae hyn yn cydnabod y pwyntiau dechrau gwahanol sy'n perthyn i wahanol gyrff o ran eu parodrwydd i gydymffurfio â'r ddyletswydd a'n bwriad yw ymateb i anghenion rhanddeiliaid unigol yn ôl y gofyn. Bydd hi'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru a swyddfa'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ymgyswddo hefyd felly mae'r costau hyn wedi'u cynnwys yn y tabl isod.

Tabl 3.4: costau i'r sector cyhoeddus yn sgil ymgyswddo â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol

Safle	Cyflog Gros yr Awr (£)	Oriau	Is-gyfanswm
Prif Weithredwr neu swyddog cyfatebol	41	3	123
Rheolwr Cynllunio Corfforaethol	23	3	69
Swyddog Adnoddau Dynol	14	3	42
Cynrychiolydd Undeb Llafur x 3	14 x 3	3	126
Argostau cyflogaeth (30%)			108
Cyfanswm			468
Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru	41	3	123
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol	41	3	123

283. Felly cyfanswm cost cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus yn ymgyswddo â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yw $468 \times 47 = \text{£}22,000$ (i'r cant agosaf) a chostau i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gwerth £319. Disgwylir ysgwyddo'r costau hyn yn 2023-24.

284. Mae'n bosibl y bydd angen ymgyswddo hefyd os bydd Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi canllawiau ar weithredu partneriaeth gymdeithasol neu adrodd arni. Rhagwelir y byddai canllawiau'n cael eu cyhoeddi unwaith y flwyddyn ar y mwyaf, ond yn ymarferol maent yn debygol o gael eu cyhoeddi'n llai aml o lawer. Y rheswm am hyn yw, os bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi, mae hynny'n debygol o fod mewn ymateb i'r cylch adrodd blynyddol. Fel y nodir uchod, at ddibenion yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, disgwylwn i ganllawiau gael eu cyhoeddi bob 3 blynedd.

Costau ychwanegol partneriaeth gymdeithasol mewn cyrff cyhoeddus

285. Gofynnodd swyddogion Llywodraeth Cymru i'r 47 o gyrff cyhoeddus lenwi arolwg i geisio pennu effaith bosibl gweithredu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol ar amser cyfleuster. Cafodd Llywodraeth Cymru 25 o ymatebion i gyd – cyfradd ymateb o 57%. Dangosodd yr ymatebion fod diffyg cysondeb ar draws cyrff

cyhoeddus ar hyn o bryd o ran sut maent yn gosod eu hamcanion llesiant, gyda'r rhan fwyaf yn credu y bydd angen newid i'r broses ynghyd ag amser cyfleuster ychwanegol.

286. O ran yr amser cyfleuster sylfaenol a ddarperir ar hyn o bryd, roedd hyn yn amrywio ar draws cyrff cyhoeddus yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys maint gweithlu'r sefydliad a nifer yr undebau llafur cydnabyddedig. Nid yw'n bosibl darparu cost sylfaenol ar gyfer amser cyfleuster oherwydd bod y taliad yn seiliedig ar contract cyflogaeth parhaol yr unigolyn ac mae'r gost yn unol â'r gyflogaeth hon.

287. Gwneir rhagdybiaethau y bydd cyfarfodydd partneriaeth gymdeithasol yn digwydd bedair gwaith y flwyddyn ac y bydd y cynrychiolwyr sector cyhoeddus yn cynnwys tri cynrychiolydd undebau llafur a thri cynrychiolydd cyflogwyr. At ddibenion costau gwneir rhagdybiaethau hefyd y bydd ochr y cyflogwr yn cynnwys uwch-swyddog Adnoddau Dynol a swyddog cysylltiadau diwydiannol. Fel y cydnabyddir uchod, gall y rhai sy'n cynrychioli'r gweithwyr fod o unrhyw radd yn y sefydliad, ac mae'n anodd asesu'n gywir y costau fyddai'n gysylltiedig â hwy. I ddeall y terfynau uchaf, mae'r costau posibl yn cyd-fynd â'r costau fyddai'n gysylltiedig ag uwch-swyddog Adnoddau Dynol a swyddog cysylltiadau diwydiannol. Hefyd, mae gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol yn digwydd y tu hwnt i gyfarfodydd partneriaeth gymdeithasol ffurfiol. Bydd mynd i'r cyfarfodydd ffurfiol hynny yn denu costau. Er hynny bydd gwaith hefyd yn cael ei wneud y tu hwnt i'r cyfarfodydd a bydd strwythurau a fydd yn hyrwyddo ac yn ymgorffori'r dull a'r model partneriaeth gymdeithasol ac a all ddenu costau nad oes modd eu mesur. Bydd dull rhagweithiol o ymdrin â phartneriaeth gymdeithasol yn golygu bod cyflogwyr yn treulio llai o amser yn ymateb i heriau yn y gweithle gan eu bod yn ymgysylltu'n strategol mewn partneriaeth gymdeithasol. O ganlyniad byddai hyn yn ddefnydd mwy effeithiol ac effeithlon o amser ac adnoddau.

Tabl 3.5: costau i gyrff cyhoeddus am fynychu cyfarfodydd partneriaeth gymdeithasol

Nifer a swydd	Cyflog gros yr awr x cyfranogwyr x oriau x cyfarfodydd y flwyddyn	Is-gyfanswm
Tri swyddog undeb llafur ⁸¹	14 x 3 x 4	168
Tri chynrychiolydd cyflogwr yn y sector cyhoeddus ⁸²	14 x 3 x 4	168
Argostau cyflogaeth (30%)		101
Cyfanswm (fesul cyfarfod)		437
Cyfanswm (fesul blwyddyn)	437 x 4	1,748

288. O ystyried y bydd 47 o gyrff cyhoeddus, fel y mae ar hyn o bryd, yn destun y ddyletsydd partneriaeth gymdeithasol, cyfanswm y gost flynyddol i gyrff cyhoeddus fynychu cyfarfodydd partneriaeth gymdeithasol yw **£82,200** (1,748 x 47) wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf.

Costau i sefydliadau eraill

Archwilydd Cyffredinol Cymru

289. Mae adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn rhoi pŵer i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliadau er mwyn asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth nodi'r amcanion llesiant ac wrth gymryd camau i fodloni'r amcanion hynny. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal o leiaf un archwiliad i bob corff cyhoeddus ym mhob 'cyfnod adrodd' pum mlynedd. Nid yw'r Bil yn estyn cwmphas adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gynnwys y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol (adran 16 o'r Bil), felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol ar yr Archwilydd Cyffredinol ac Archwilio Cymru. Fodd bynnag, bydd angen i'r Archwilydd Cyffredinol fod yn ymwybodol bod y cyrff cyhoeddus sy'n cael eu harchwilio ganddynt yn cyflawni eu dyletswydd llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ochr yn ochr â'u dyletswydd partneriaeth gymdeithasol.
290. Fel y nodir uchod, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu digwyddiadau a chanllawiau i gyrff cyhoeddus er mwyn eu helpu i ymgyfarwyddo â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Bydd hyn ar gael i'r Archwilydd Cyffredinol ac i Archwilio Cymru. Disgwylw'n y bydd cyfanswm costau Archwilio Cymru ar gyfer ymgyfarwyddo â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yr un fath ag a nodwyd ym mharagraff 283, a fyddai'n £319. Byddai'r gost hon yn cael ei hysgwyddo yn 2023/24. Nid ystyrir y bydd costau i sefydliadau eraill gan nad yw'r sector preifat na'r trydydd sector yn destun y ddyletswydd hon.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

291. Dyletswydd gyffredinol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yw hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy (fel y'i diffinnir yn adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol). Yn rhan o'r ddyletswydd hon, mae'n ofynnol iddynt annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor eu gweithgareddau, gan fonitro ac asesu sut maent yn bodloni'r amcanion llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae ganddynt hefyd bwerau i ddarparu cyngor neu gymorth i gyrff cyhoeddus, i gymell arferion da, ac i annog cyrff cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd. Mae ganddynt y pŵer i adolygu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Nid yw'r Bil hwn yn newid y ddyletswydd gyffredinol na phwerau'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac nid yw'n newid yr egwyddor datblygu cynaliadwy (adran 5) y mae ei dyletswydd gyffredinol yn perthyn iddi, felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r Comisiynydd. Fodd bynnag, bydd y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'i swyddfa angen bod yn ymwybodol y bydd y cyrff cyhoeddus y maent yn eu hannog, eu monitro a'u cefnogi yn cyflawni eu dyletswydd datblygu cynaliadwy a'u dyletswydd llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ochr yn ochr â'u dyletswydd partneriaeth gymdeithasol.

292. Nid yw'n ofynnol i'r Comisiynydd ddarparu cyngor na chymorth ar faterion sy'n ymwneud â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i gyhoeddi canllawiau ar bartneriaeth gymdeithasol (adran16(2)) ac mae'n ofynnol iddi ymgynghori â'r CPG cyn cyhoeddi'r canllawiau. Mae gan yr CPG, o dan y Bil, y pŵer i ddarparu gwybodaeth a chynghor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, a'r gwaith o geisio cyflawni'r nod llesiant 'Cymru lewyrchus'.
293. Fel a nodir ym mharagraff 282, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu digwyddiadau a chanllawiau i gyrff cyhoeddus i'w helpu i ymgyfarwyddo â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Bydd hyn ar gael i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a'i swyddfa. Disgwylwn y bydd cyfanswm y gost i Archwilio Cymru ar gyfer ymgyfarwyddo â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yr un fath â'r gost a nodwyd ym mharagraff 283, a fyddai'n £319. Byddai'r gost hon yn cael ei hysgwyyddo yn 2023/24.

Manteision

294. O dan yr opsiwn hwn, byddai dyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn adeiladu ar y ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i sicrhau bod partneriaeth gymdeithasol yn nodwedd allweddol o'r ffordd mae cyrff cyhoeddus yn sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y saith nod llesiant. Ymhellach, o ystyried pwysigrwydd partneriaeth gymdeithasol i'r ffordd y mae cyrff yn cyfrannu at y nodau llesiant, bydd yn atgyfnerthu camau gweithredu ac yn helpu i gyflawni argymhellion Gwaith Teg Cymru.
295. Roedd yn amlwg yn ystod argyfwng COVID-19, bod gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol, ond hefyd o ran gwasanaethau hanfodol a gweithwyr allweddol mewn sectorau eraill, yn fuddiol. Dangosodd yr argyfwng sut y gall partneriaeth gymdeithasol weithio ar sawl lefel, mewn ffordd hyblyg ac ymatebol, i ateb heriau dybryd. Yn ystod y pandemig, cyfarfu Gweinidogion Cymru ag undebau llafur a chyflogwyr o amrywiaeth o sectorau i drafod diogelwch yn y gweithle, yn ogystal â heriau economaidd a chymdeithasol.
296. Daw ymgorffori'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol mewn deddfwriaeth o'r dystiolaeth sy'n bodoli eisoes o'r effaith gadarnhaol y gall partneriaeth gymdeithasol, gyda chydffargeinio ac undebau llafur cynrychioliadol wrth ei gwraidd, ei chael ar gamau gweithredu cyrff cyhoeddus gan helpu i greu cymdeithas fwy cyfartal yn ei dro. Mae Partneriaeth Gymdeithasol yn cynnig manteision i weithwyr a chyflogwyr, gan sicrhau bod gan y ddau lais cyfartal a'u bod yn gallu dod i gytundeb sydd o fudd i'r ddwy ochr ac sy'n deg ac yn gyfiawn.
297. Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir oherwydd byddai'n darparu ar gyfer dyletswydd partneriaeth gymdeithasol statudol ar rai cyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru a fyddai'n fodd i atgyfnerthu a gwella Partneriaeth Gymdeithasol yng Nghymru, a'i gwreiddio'n ddwfn yn y ffordd y mae cyrff yn gweithredu wrth geisio cyflawni'r nodau llesiant. Byddai gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn cefnogi cydweithio.

Costau Ychwanegol

298. Nid yw wedi bod yn bosibl cyfrifo costau ychwanegol canlyniadau posibl y fframwaith a sefydlir drwy'r ddeddfwriaeth arfaethedig, ond mae amcangyfrifon wedi'u gwneud o ran pa mor aml y byddai darpariaethau'r Bil drafft yn debygol o arwain at ymyriad deddfwriaethol. Y rheswm am hyn yw bod y canlyniadau'n dibynnu ar sawl parti yn gweithio ar draws gwahanol lefelau, gyda chanlyniadau unigol fesul corff cyhoeddus, yn debyg i'r canlyniadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

2. Gwaith Teg

Cyflwyniad

299. Mae'r Bil yn diwygio adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 drwy roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas' yn nod presennol 'Cymru lewyrchus'.

300. Mae'r newid deddfwriaethol hwn yn cyfeirio at waith teg fel rhan o nod llesiant "Cymru lewyrchus" (un o'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru a bennir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015). Bwriad y diwygiad hwn yw ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) ystyried sut y gall gwaith teg gyfrannu at lesiant ac ystyried gweithgareddau pellach i hyrwyddo gwaith teg yn y cyd-destun hwnnw.

301. Nid oes unrhyw oblygiadau cost i newid y cyfeiriad o 'waith addas' i 'waith teg' yn nod 'Cymru lewyrchus' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol y tu hwnt i'r costau sy'n gysylltiedig â llunio cyngor a chanllawiau ar y ffordd y gall sefydliadau ystyried gwaith teg yn effeithiol yng nghyd-destun llesiant.

302. Mater i bob sefydliad unigol ei ystyried a phenderfynu arno fydd unrhyw gamau gweithredu penodol a gymerir gan sefydliadau i hyrwyddo gwaith teg yng nghyd-destun nod llesiant 'Cymru lewyrchus'. Ni allwn ragweld y camau gweithredu hynny na'u costau a bydd pob sefydliad yn dymuno ystyried fforddiadwyedd yn ogystal ag effaith gweithgarwch o'r fath. Nid yw'r Bil yn rhagnodi'r ymyriadau penodol y mae'n rhaid i sefydliadau eu gwneud i hyrwyddo gwaith teg.

303. Felly mae'r adran hon yn canolbwyntio ar asesu prif fuddiannau a chostau (a) cynnal y status quo a (b) diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Opsiwn 1: Busnes fel arfer – cynnal y status quo o ran y cyfeiriad at 'waith addas' yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 .Disgrifiad

304. Mae nod 'Cymru lewyrchus' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn cynnwys cyfeiriad at 'waith addas'. Gallem fynd ar drywydd yr opsiwn dim newid o barhau heb ddiwygio'r ddeddfwriaeth hon, a thrwy hynny leihau unrhyw amharu posibl neu gostau ychwanegol yn gysylltiedig â newid a diwygio.

Costau

305. Nid yw'r opsiwn 'busnes fel arfer' hwn am ddim. Fodd bynnag, gwyddom o adroddiadau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod lle i wella'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cysylltu "gwaith teg" yn eu hamcanion llesiant a'r camau a gymerir ganddynt.
306. Hefyd, argymhellodd adroddiad Gwaith Teg Cymru integreiddio ac ymgorffori gwaith teg yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cefnogi'r dull hwnnw i bob pwrpas.
307. Hefyd mae cynnal y status quo yn peri'r risg bosibl o gostau anniriaethol yn ymwneud â dryswch a chamddealltwriaeth a allai ddeillio o barhau i ddefnyddio'r termau 'gwaith addas' a 'gwaith teg' ar y cyd.

Manteision

308. Mae'r dull presennol yn cynnwys manteision. Mae'n helpu i wneud y cysylltiad clir iawn rhwng profiad gwaith a llesiant unigol a chyfunol. Nid yw'r opsiwn a ffeirir yn colli'r cysylltiad hwnnw, ond gellir dadlau ei fod yn helpu i'w wneud yn gliriach am y rhesymau a nodir yn yr adran manteision isod.

Opsiwn 2 (a ffeirir): diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas'.

Disgrifiad

309. Diwygio adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 drwy roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas' yn nod llesiant 'Cymru lewyrchus' yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
310. Wrth ddiwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i gynnwys cyfeiriad at waith teg, bydd y Bil hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried sut y gall gwaith teg gyfrannu at eu hamcanion llesiant yn gyffredinol a'r gwaith o gyflawni nod llesiant "Cymru lewyrchus" yn arbennig.
311. Nid yw'r newid i nod llesiant "Cymru lewyrchus" yn newid y ddyletswydd gyffredinol na phwerau'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac nid yw'n newid yr egwyddor datblygu cynaliadwy (adran 5) y mae'r ddyletswydd gyffredinol yn perthyn iddi felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Comisiynydd.
312. Bydd gan yr CPG, o dan y Bil, y pŵer i ddarparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â cheisio cyflawni nod llesiant "Cymru lewyrchus" gan gyrff cyhoeddus wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Rhan 2). Fel a nodir uchod bydd Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau anstatudol ar sut y gallai'r cyrff cyhoeddus hyn sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

2015 ddewis mynd ati i ystyried gwaith teg wrth geisio cyflawni nod llesiant “Cymru lewyrchus”.

313. Fodd bynnag, bydd angen i'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'i swyddfa fod yn gyfarwydd â'r hyn y mae gwaith teg yn ei olygu yng nghyd-destun y nodau llesiant fel y gallant hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac annog cyrff cyhoeddus i ystyried effaith hirdymor y pethau a wnânt. Mae'r Comisiynydd eisoes wedi rhoi cyfarwyddiadau i ddod yn gyflogwr cyflog byw (Thema Gwaith Teg) yn rhan o'i rhaglen *Newid Syml* ehangach.

Costau

314. Ar wahân i'r costau ymgyfarwyddo (gweler paragraffau 279-283 uchod), mae goblygiadau cost rhoi gwaith teg yn lle gwaith addas yn gyfyngedig i lunio canllawiau anstatudol ar y ffordd y gall y cyrff hynny sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 fod am ystyried gwaith teg wrth geisio cyflawni nod llesiant ‘Cymru lewyrchus’. Mae hyn yn debygol o gynnwys enghreifftiau o fesurau a all gael eu cymryd i ddarparu neu hyrwyddo gwaith teg ac astudiaethau achos. Dynodir costau llunio canllawiau o'r fath yn y tabl isod. At ddiben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, tybir y caiff un darn o ganllawiau ei lunio bob blwyddyn. Nid ydym yn rhagweld y bydd angen rhagor o ganllawiau y tu hwnt i hyn, gan mai'r cyfan sy'n digwydd yw bod y term ‘gwaith teg’ yn disodli'r term ‘gwaith addas’ yn y nod llesiant ‘Cymru lewyrchus’.

Tabl 4 Costau dynodol llunio canllawiau anstatudol ar sut i ymdrin â gwaith teg wrth gyflawni nod llesiant ‘Cymru lewyrchus’:

Aelod staff a gradd	Cost staff blynyddol (£)	Cyfradd ddyddiol (£) (rhannwyd â 220)	Diwrnodau	Is-gyfanswm (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr – cadarnhau'n derfynol	120,174	546	x 0.5	273
Gwasanaethau cyfreithiol – Gradd 7	86,731	394	x 2	788
Arweinydd polisi – Gradd 7	86,731	394	x 7	2,758
Arweinydd polisi – SEO	66,364	302	x 4	1,208

Arweinydd polisi adrannol – Gradd 7	86,731	394	x 1	394
CYFANSWM				5,421

315. Felly cyfanswm costau cyfle darparu canllawiau anstatudol ar y ffordd i ymdrin â gwaith teg wrth gyflawni nod llesiant ‘Cymru lewyrchus’ yw **£5,400** (wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf).

Manteision

316. Mae'r diwygiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2014 yn y ffordd a ddisgrifir uchod yn gwneud cyfraniad sylweddol at gyflawni argymhelliad y Comisiwn Gwaith Teg, “...*bod amcanion llesiant cyrff cyhoeddus, sydd wedi'u nodi o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys gwaith teg...*”.

317. Diben ac effaith fwriadedig y ddarpariaeth hon yw sicrhau gwaith teg fel rhan o'r disgrifiad o nod llesiant “Cymru lewyrchus”.

318. Bydd hyn yn golygu bod angen i'r holl gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 – gan gynnwys Gweinidogion Cymru – ystyried gwaith teg wrth geisio cyflawni nod llesiant “Cymru lewyrchus”. Bydd yn galluogi cyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru i sicrhau gwaith teg wrth gyflawni datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

319. Mae i'r dull hwn y manteision ychwanegol canlynol:

- Yn gyntaf, mae'n sicrhau bod gwaith teg yn rhan annatod o nodau llesiant presennol, sy'n helpu i atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng gwaith teg a llesiant unigol a chyfunol.
- Yn ail, mae'n osgoi dyblygu neu'r canfyddiad o greu nod a dyletswydd gwaith teg sy'n anghyson â'i gilydd y tu hwnt i'r ddeddfwriaeth Llesiant.
- Yn drydydd, mae'n osgoi parhau i ddefnyddio termau gwahanol a allai gael eu dehongli i gwmpasu gweithgareddau sy'n eithaf tebyg neu sy'n gorgyffwrdd h.y. gwaith addas a gwaith teg. Croesewir cysondeb o ran terminoleg yn fewnol ac yn allanol.
- Yn bedwerydd, mae rhyngwyneb ar sail Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn gyson â'r dull ar draws y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus.

Costau a Manteision Rhan 3: Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol

Cyflwyniad

320. Mae Rhan 3 o'r Bil yn sefydlu dyletswyddau tuag at gyflawni prosesau caffael cyhoeddus a rheoli contractau cymdeithasol gyfrifol yng Nghymru. Y bwriadau yw:

- cefnogi awdurdodau contractio i sicrhau bod nodau llesiant yn ystyriaethau canolog wrth gaffael, er mwyn cefnogi twf economaidd a chynaliadwyedd hirdymor gwasanaethau cyhoeddus;
- symleiddio a dileu dyblygu rhwng y nifer mawr o ddisgwyliadau polisi a osodir ar adrannau caffael;
- sicrhau bod canlyniadau llesiant wrth wraidd strategaethau a phrosesau caffael;
- gwella'r cysylltiad rhwng prosesau caffael a chyflawni canlyniadau drwy brosesau rheoli contractau gwell;
- gwella tryloywder drwy gofnodi metrigau a chyhoeddi adroddiadau rheolaidd, gan rannu arferion da a meysydd i'w gwella;
- dwyn sefydliadau i gyfrif am sicrhau bod amodau contract sy'n cefnogi arferion cymdeithasol gyfrifol yn cael eu cynnal drwy gadwyni cyflenwi, yn enwedig mewn contractau adeiladu mawr a chontractau gwasanaethau ar gontract allanol.

321. Bydd y dyletswyddau caffael cyhoeddus a rheoli contractau yn y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gyfrif am ganlyniadau llesiant a gyflawnir drwy eu gweithgarwch caffael, a thrwy ddiwydrwydd dyladwy cynyddol mewn cadwyni cyflenwi, yn enwedig mewn contractau allanol a chontractau adeiladu mawr (dros £2m).

322. Mae'n anodd iawn mesur manteision caffael cymdeithasol gyfrifol yn ariannol, yn enwedig pan ystyrir y rhain dros y tymor hwy. Mae costau hefyd yn anodd eu mesur yn y system ar y cyfan, felly yn yr adran hon rydym wedi canolbwyntio ar y costau ychwanegol a fyddai'n cael eu hysgwyddo o sefydlu a gweinyddu prosesau newydd i gefnogi'r dyletswyddau hyn. Byddai angen pennu pris pob un o'r deilliannau llesiant ar wahân, a byddai'n rhaid i ddulliau syml a lluosyddion ar gyfer allosod manteision ledled Cymru ddibynnu ar rai rhagdybiaethau annibynadwy a data annigonol.

323. Mae'r adenillion o fuddsoddi ar gyfer unrhyw gaffael yn aml yn amrywio dros amser, a gellir trefnu adnoddau mewn ffyrdd amrywiol i adlewyrchu'r gwaith sydd ei angen i gyflawni'r contract a sicrhau deilliannau cymdeithasol gyfrifol.

324. Mae'r astudiaethau achos a ganlyn, a ddarparwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chyngor Sir Ddinbych, yn tynnu sylw at ddau ddull llwyddiannus ond gwahanol o gyflawni caffael cymdeithasol gyfrifol. Yn y ddau achos ychwanegwyd gwerth ar draws llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, a defnyddiwyd dulliau caffael cydweithredol ac arloesol. Maent yn wahanol o ran y ffordd y maent yn mesur yr amser a dreuliyd a'r ymdrech a

roddwyd gan staff wrth ymgymryd â'r dull.

325. Mae'r ddau yn dangos pa mor anodd fyddai gwahanu elfennau "cymdeithasol gyfrifol" y prosiect a phennu eu pris ar wahân. Maent hefyd yn dangos nad oes raid i gaffael cymdeithasol gyfrifol, o fynd i'r afael ag ef yn gynnar yn y broses a chan ymgysylltu'n dda ar draws y gadwyn gyflenwi, fod yn rhywbeth drud; yn aml, bydd y manteision yn uwch na'r amser a dreuliwyd a'r ymdrech a roddwyd.
326. Maent hefyd yn dangos nad ydym yn dechrau ar sail sero gyda'r dyletswyddau caffael yn y Bil hwn; mae llawer o arferion da yn digwydd yn barod. Nod y dyletswyddau caffael hyn yw sicrhau bod arferion da yn cael eu gweithredu'n fwy cyson ledled Cymru.

Astudiaeth achos 1 – Caffael dodrefn gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

327. Yn 2021, comisiynodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru y fenter gymdeithasol y Weinyddiaeth Ddodrefn, ym Mhort Talbot, i lenwi gofod swyddfa newydd yng Nghaerdydd a dodrefn â gwerth enwol o £230,000. Ffocws y gwaith hwn oedd sicrhau bod cymaint â phosibl o stoc ddodrefn bresennol yn gallu cael ei hail-ddefnyddio a'i haddasu at ddibenion gwahanol, gyda chyn lleied â phosibl o ddeunydd yn cael ei roi mewn safleoedd tirlenwi.
328. Mewn partneriaeth â Sefydliad Pobl Ddall Merthyr Tudful, creodd y Weinyddiaeth Ddodrefn ofod gweithio modern, hyblyg, hybrid ac unigryw ar gyfer Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Data Cymru ar gyfer eu swyddfeydd yng Nghaerdydd, yn ystod hydref 2021. Y weledigaeth oedd creu gofod oedd yn adlewyrchu amrywiaeth eu sectorau gyda chynaliadwyedd yn flaenoriaeth uchel.
329. Trwy ail-ddefnyddio, ail-weithgynhyrchu ac ailgylchu dodrefn o swyddfeydd presennol y sefydliadau, crëwyd cynnyrch newydd gyda hyd oes disgwylidig yn cyd-fynd â'r dodrefn newydd.
330. Ymysg y manteision roedd:
- 187 o ddarnau o ddodrefn heb fynd i safleoedd tirlenwi
 - 95 o ddesgiau newydd wedi'u hail-weithgynhyrchu
 - 250 o loceri a photiau dal planhigion wedi'u hail-weithgynhyrchu
 - 481 o ddarnau o ddodrefn wedi'u creu
 - Pob cynnyrch wedi cael ardystiad FSC
 - Llai o waith danfon
 - Arbed 15,861kg o allyriadau CO₂. Arbed 43% o allyriadau CO₂ o gymharu â chael dodrefn newydd i gyd
 - Wedi cyflawni deilliannau caffael cymdeithasol gyfrifol heb unrhyw gost ychwanegol oherwydd y ffordd hon yn caniatáu ar gyfer 'busnes fel arfer'.

331. Mae'r prosiect hwn yn dangos y gall hyd yn oed contractau cymharol fach ddefnyddio arferion da o ran deilliannau amgylcheddol a chymdeithasol heb i hynny olygu baich o ran eu biwrocratiaeth a'u gwaith. Dywedodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru nad oedd gweithredu fel hyn yn teimlo'n feichus nac yn creu gwaith ychwanegol. Ac yntau yn sefydliad a chanddo ond un gweithiwr caffael proffesiynol (ni fydd gan y rhan fwyaf o sefydliadau gwirfoddol un o gwbl), yr hyn a'i helpodd, oedd mynediad at Fframwaith Dodrefn Cyflawni Masnachol Llywodraeth Cymru. Fe wnaeth y Fframwaith hwn symleiddio a lleihau'r baich arnynt yn sylweddol.

Astudiaeth achos 2 – Amddiffynfeydd Arfordirol Dwyrain y Rhyl ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych

332. Y prosiect, a gyflawnwyd gan Balfour Beatty ac a oedd yn costio £23 miliwn ar y cyfan oedd y prosiect mawr cyntaf i ddefnyddio Canolfan Manteision Cymunedol Sir Ddinbych, a lanswyd ym mis Mawrth 2020. Cynhaliodd y Ganolfan gyfarfodydd misol gyda'r contractwr a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys Gyrfa Cymru, grwpiau a mentrau cymunedol amrywiol a arweinir gan y gymuned leol. Y dull gweithredu oedd gweithio gyda Balfour Beatty i sicrhau'r canlyniadau llesiant gorau bosibl, heb chwyddo cost y prosiect.

333. Gan fod y prosiect wedi cael ei ddarparu yn ystod y pandemig, cafodd pob cyfarfod ar wahân i ddau eu cynnal yn rhithwir ar Microsoft Teams. Felly, amcangyfrifwyd cost y Ganolfan, am uchafswm o 20 o ddiwrnodau gwaith dros gyfnod y prosiect, yn £300/diwrnod, sef cyfanswm o £6,000. Cafodd adnodd tebyg ar ochr y contractwr ei greu i gefnogi'r dull hwn yn rhan o'r prosiect. Nododd Balfour Beatty ei fod wedi newid ei ddull o ymdrin â'r gwaith, ac rydym wedi gweld tystiolaeth o hyn ar brosiectau i'r dyfodol. Nid yw'n bosibl cyfrifo i ba raddau y gall y costau atodol cyfenwi ychwanegol hyn gael eu dosrannu mewn ceisiadau yn y dyfodol.

334. Ymysg y manteision roedd:

- Dargyfeirio 99% o wastraff o safleoedd tirlenwi
- Gostyngiad o 82% o garbon deuocsid ar y safle (swyddfeydd)
- 80% o wal gynnal y graig wedi dod o ffynonellau lleol
- 99% o wariant y prosiect wedi'i wario gydag is-gontractwyr lleol (o fewn 40 milltir i safle'r prosiect)
- £9.7m wedi ei wario gyda chontractau lleol o fewn 20 milltir i safle'r prosiect
- 86% o'r gadwyn gyflenwi yn fusnesau bach neu ganolig
- 85% o'r gweithwyr a gyflogwyd ar y safle yn weithwyr lleol (o fewn 40 milltir)
- Creu 8 swydd cyfwerth ag amser llawn newydd
- 191 diwrnod o brofiad gwaith (ychydig yn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau COVID)
- 112 o fyfyrwyr wedi cymryd rhan drwy'r cwricwlwm a gweithgareddau STEM (ychydig yn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau COVID)

- Rhoddion i fanciau bwyd lleol, a deunyddiau, ee grwynau diangen ar y traeth (strwythurau o bren caled sy'n gweithredu fel morgloddiau) i orsaf bad achub (i greu cofeb i chwe aelod o griw y bad achub a gollodd eu bywyd mewn ymgais i achub yn 1853) a Cyfeillion y Cob (a ddefnyddiwyd i greu ardal i ysgolion lleol ei defnyddio fel ystafell ddosbarth awyr agored, mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru)
- Yn dilyn ymgysylltu â'r gymuned, gosodwyd giât mynediad i'r traeth i alluogi mynediad yn ystod penwythnosau a gwyliau banc
- Crëwyd 3 pwll yn ardal Morfa y Rhyl i wella 35 o erwau o ardal gwlyptir ym Mhrestatyn. Roedd y cymorth yn cynnwys cloddio, carthu a modelu
- Ymwybyddiaeth iechyd meddwl 'I Can' wedi'i gynnig i dîm y prosiect ynghyd â phartneriaid yn y gadwyn gyflenwi
- Sgrinio iechyd 'I Will' wedi'i gynnig i dîm y prosiect ynghyd â'r gadwyn gyflenwi – manteisiodd y rhan fwyaf o'r gadwyn gyflenwi ar hyn ac roedd yn cynnwys archwiliad llawn ar gyfer iechyd a ffordd o fyw
- Adroddwyd gwerth cymdeithasol ariannol procsi o £7,201,813 drwy'r darparwr fframwaith.
- Gwerth y prosiect gorffenedig yn is na'r gyllideb a roddwyd a chafodd y prosiect ei gwblhau yn gynt na'r disgwyl
- Roedd 133,000 o oriau wedi'u gweithio heb unrhyw achosion o amser a gollwyd nac unrhyw anafiadau adroddadwy.
- Partneriaethau cryfach gyda llawer o gyrff sector cyhoeddus a thrydydd sector lleol gan gynnwys ysgolion, yr RNLi, grwpiau bywyd gwyllt a sefydliadau chwaraeon.

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

Disgrifiad

335. Mae'r opsiwn hwn yn cynrychioli'r status quo. Byddai blaenoriaethau polisi caffael presennol – a'r rhai sydd yn yr arfaeth o dan Ddatganiad Polisi Caffael newydd Cymru – yn cael eu cefnogi gan dîm polisi caffael Llywodraeth Cymru.
336. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai unrhyw ddyletswyddau caffael newydd yn y Bil. Byddai'r gwaith o gyflawni a chefnogi'r polisi caffael presennol, a'r mentrau a'r prosiectau cysylltiedig, yn cael ei arwain gan dîm bach yng Nghyfarwyddiaeth Caffael Masnachol Llywodraeth Cymru. Mae costau hyn wedi'u nodi yn Nhabl 5 isod. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu dim costau ychwanegol.
337. Fodd bynnag, mae'r status quo o ran caffael hefyd yn newid o ganlyniad i Lywodraeth y DU yn deddfu ar ran Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn ei Bil Caffael. Yn ei datganiad ysgrifenedig, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y dylai penderfyniadau ynghylch y canlyniadau polisi rydym am eu gweld o gaffael gael eu gwneud yng Nghymru, a chyfeiriwyd at y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) hwn fel y cyfrwng a ddefnyddir i gynnwys y gwaith o gyflawni canlyniadau polisi blaenoriaethol mewn deddfwriaeth. Os na chaiff hyn ei gynnwys yn y Bil, yna bydd angen mynd ar drywydd cyfrwng deddfwriaethol arall.

338. Hefyd, byddai'r opsiwn hwn yn golygu dim manteision ychwanegol i'r sector preifat na'r sector cyhoeddus ehangach. Mae hefyd gostau cyfle na ellir eu mesur drwy beidio â chysoni datblygiad polisi caffael â phartneriaeth gymdeithasol drwy'r Bil, sef:

- colli cyfle i herio arferion caffael yn y sector cyhoeddus ymhellach;
- colli cyfle am ragor o gydlyniant a chysondeb rhwng meysydd polisi sy'n perthyn yn agos;
- llwyfan deddfwriaethol cyfyngedig i Lywodraeth Cymru sbarduno canlyniadau polisi;
- colli cyfle i ddefnyddio adroddiadau blynyddol ar gyfer ymyrryd a datblygu polisiâu yn seiliedig ar ddata;
- colli cyfle i orfodi tryloywder mewn cadwyni cyflenwi;
- colli cyfle i gryfhau'r mecanweithiau ar gyfer mynd i'r afael â phryderon a godir am weithgareddau caffael a rheoli contractau;
- colli cyfle i hybu cynllunio ymlaen llaw a chanolbwyntio mwy ar ganlyniadau cymdeithasol gyfrifol.

Tabl 5 – dadansoddiad o gostau gweinyddu staff Llywodraeth Cymru am y Gyfarwyddiaeth Caffael Masnachol (nid costau ychwanegol). Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yma at ddibenion cymharu “busnes fel arfer” â chostau ychwanegol o'r opsiynau a restrir isod.

Costau'r Gyfarwyddiaeth Caffael Masnachol		
Caffael Masnachol	2020	
	Cyfanswm	
Gradd	Nifer	Cost
Cyfarwyddwr	1	156,792
Dirprwy Gyfarwyddwr	1	120,174
Gradd 6	2	210,234
Gradd 7	6	520,386
SEO	15	995,460
HEO	12	633,288
EO	5	202,520
TS	2	67,854
Is-gyfanswm y Rhaglen	44	2,906,708
Gradd 6	4	420,468
Gradd 7	6	520,386

SEO	14	929,096
HEO	15	791,610
EO	7	283,528
TS	3	101,781
Is-gyfanswm DRC	49	3,046,869
Cyfanswm y Gyfarwyddiaeth	93	5,953,577

*DS seiliedig ar gostau staff presennol gwirioneddol, nid cyfraddau gradd cyfartalog.

339. Pan gytunwyd ar y busnes achos dros gyflwyno'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) yn 2012/13, cafodd nifer o swyddi eu dyrannu er mwyn cyflawni'r rhaglen honno. Felly, mae'r costau hyn yn erbyn costau'r rhaglen. Er nad yw'r NPS yn bodoli mwyach, mae'r gwasanaeth yr oedd yn ei ddarparu yn parhau i gael ei ddarparu gan y Gyfarwyddiaeth Caffael Masnachol, a bydd yn parhau i gael ei ariannu gan y rhaglen. Felly, mae'r rhaniad hwn rhwng costau'r rhaglen a chostau'r DRC yn hanesyddol, ac nid yw'n effeithio ar y ffordd mae'r Gyfarwyddiaeth yn gweithio nac ar y gweithgareddau mae'n eu cyflawni.

Opsiwn 2 – cyflwyno deddfwriaeth newydd, fwy cul, sy'n cynnwys dyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol.

Disgrifiad

340. O dan yr opsiwn hwn byddai awdurdodau contractio yn gwneud y canlynol:

- a. yn cyflawni'r ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol (fel y nodir yn y Bil a'r Canllawiau Statudol) ym mhob gweithgaredd caffael cyhoeddus fel y diffinnir yn y Bil drafft;
- b. yn pennu amcanion ar gyfer cyflawni'r nodau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol ac yn cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hyn ar gyfer eu holl 'weithgareddau caffael rhagnodedig' – pob contract adeiladu dros £2m (yn cynnwys TAW), pob contract allanoli gwasanaeth, yn ogystal ag unrhyw gontractau a nodir mewn rheoliadau. Y bwriad polisi presennol yw y bydd Gweinidogion Cymru, mewn rheoliadau, yn rhagnodi contractau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau uwchlaw trothwyon ar gyfer gwasanaethau a chyflenwadau a sefydlir ac a ddiwedderir bob dwy flynedd gan Gytundeb Caffael Llywodraeth (GPA) Sefydliad Masnach y Byd.
- c. yn cyhoeddi strategaethau caffael, yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol, yn cyhoeddi cofrestr contractau, ac yn cyhoeddi rhagolwg. Ni fydd yn ofynnol i awdurdodau contractio nad ydynt yn cyflawni gweithgareddau caffael rhagnodedig gyhoeddi adroddiadau blynyddol.

341. Ar ben hynny, byddai Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi adroddiad blynyddol yn cynnwys crynodeb o'r adroddiadau blynyddol a ddaeth i law.
342. Byddai gan lawer o'r awdurdodau contractio strategaeth gaffael gyhoeddedig yn barod (canfu rhaglen Gwiriadau Addaswydd 2013/14 Gwerth Cymru fod gan bob un ond un awdurdod lleol yng Nghymru strategaeth mewn lle), ond byddai'r ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn gwneud hyn yn ofyniad cyfreithiol, ynghyd â'r ddyletswydd i baratoi adroddiad blynyddol ar ei gaffael cyhoeddus os yw wedi dyfarnu unrhyw gontractau rhagnodedig. Byddai pennu amcanion yn weithgaredd newydd, ond byddai'n cael ei wneud yng nghyd-destun datblygu strategaethau. Bydd gofal yn cael ei gymryd i sicrhau bod y gofynion hyn yn gymesur, er mwyn sicrhau nad yw'r broses yn rhy feichus i gyrff llai â gwariant blynyddol is.
343. O dan yr opsiwn hwn, byddai crynodeb o'r amcanion, y strategaethau a'r adroddiadau hyn yn cael ei adolygu gan y CPG a'i is-grŵp caffael cyhoeddus. Dim ond drwy ragor o dryloywder ac ailffocysu disgwyliadau a chanllawiau polisi y byddai cydymffurfedd yn cael ei sicrhau.

Costau cynigion

344. Un o ganlyniadau tebygol canolbwyntio mwy ar ddeilliannau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol, yn enwedig yn y tymor byr, fyddai cynnydd mewn prisiau cynigion. Byddai hyn yn digwydd pe bai gofynion ychwanegol yn cael eu gosod ar fusnesau heb ystyriaeth ofalus i sicrhau bod y ceisiadau'n gymesur ac yn canolbwyntio ar feysydd o risg uwch. Bydd datblygu canllawiau statudol o ansawdd uchel, a darparu cymorth i staff caffael a rheoli contractau ledled Cymru, yn hollbwysig o ran sicrhau manteision yn y modd mwyaf costeffeithiol. Mae'n bosibl y bydd costau hirdymor cyflawni gwaith teg, canolbwyntio ar ganlyniadau amgylcheddol a datblygu economïau lleol yn lleihau o ganlyniad i well cydraddoldeb economaidd, gwell gwasanaethau cyhoeddus a manteision amgylcheddol.

Cyflog Byw

345. Drwy ganolbwyntio mwy ar waith teg, byddai cost ychwanegol debygol arall yn cael ei hysgwyddo drwy fabwysiadu'r cyflog byw gwirioneddol i raddau mwy mewn cadwyni cyflenwi. Yn yr un modd ag yn yr Alban, mae rhai cynigion yn cael eu sgorio yn ôl set o ddangosyddion ar waith teg ar hyn o bryd, sy'n cynnwys talu uwchben y cyflog byw gwirioneddol. Mae hyn yn arferiad mewn nifer o gyrff cyhoeddus ledled Cymru, yn enwedig y rhai sydd eisoes yn gyflogwyr cyflog byw achrededig, ond mae llawer o le i ganolbwyntio'n fwy ar hyrwyddo cynnydd yn y nifer sy'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.
346. Byddai unrhyw gynnydd yn y nifer sy'n talu cyflog byw gwirioneddol o ganlyniad i'r ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol o fudd amlwg i'r cyflogeion hynny mewn sefydliadau cyflenwi sy'n cael eu talu islaw'r lefel hon. Byddai manteision posibl i'r Trysorlys ac i Lywodraeth Cymru hefyd, a hynny ar ffurf derbyniadau treth uwch a lleihad mewn budd-daliadau (ond byddai'n rhaid cydbwysu'r rhain yn erbyn lleihad posibl mewn derbyniadau treth gorfforaeth), yn

ogystal â set ehangach o fanteision iechyd a chymdeithasol drwy leihau tlodi. Mae Ysgol Fusnes Caerdydd wedi bod yn cynnal ymchwil i effaith cynnydd yn y nifer sy'n talu'r cyflog byw gwirioneddol yng nghyd-destun economi Cymru, ond nid yw'n bosibl rhagfynegi'r cynnydd tebygol yn nifer y bobl y mae eu cyflog yn codi o ganlyniad i'r Bil drafft hwn, felly nid oes modd mesur yr effeithiau. Dylid nodi bod Llywodraeth yr Alban wedi cofnodi cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n talu'r cyflog byw gwirioneddol drwy weithgareddau caffael o ganlyniad i'w Dyletswydd Caffael Cynaliadwy yn Neddf Diwygio Caffael (Yr Alban) 2014.

347. Er y byddai o fudd i gyflogeion, byddai codiad cyflog (er enghraifft i lefelau uwchben y cyflog byw gwirioneddol) yn arwain at gynnydd cyfatebol yng nghostau gweithredu'r cyflenwyr sector cyhoeddus hynny sydd ar hyn o bryd yn talu cyflogau is i weithwyr sy'n cyflawni contractau a fyddai'n ddarostyngedig i'r Bil hwn. Byddai'r effaith ar economi Cymru'n dibynnu ar ymateb y sefydliadau hynny i'r cynnydd mewn costau. Mae'n bosibl y bydd rhai busnesau'n dewis peidio â chynnig am gontractau sy'n ddarostyngedig i'r Bil hwn yn y dyfodol, yn enwedig os mai rhan gymharol fach o'u busnes yw cyflenwi nwyddau a gwasanaethau i sector cyhoeddus Cymru. Mae'n bosibl y bydd busnesau eraill yn ymateb i'r cynnydd mewn costau drwy un (neu gyfuniad) o'r ffyrdd canlynol:

- a) ysgwyddo'r cynnydd mewn costau drwy dderbyn lleihad yn yr elw;
- b) lleihau costau gweithredu, er enghraifft lleihau nifer y cyflogeion neu leihau eu horiau gwaith;
- (c) pasio'r cynnydd mewn costau ymlaen i gwsmeriaid drwy godi prisiau.

348. Pe bai prisiau cyflenwyr yn codi, byddai lleihad yn y nwyddau a'r gwasanaethau y gellir eu caffael gyda chyllideb caffael sector cyhoeddus sefydlog o £7 biliwn.

349. Ond mae manteision (eto rhai na ellir eu mesur) i fusnesau drwy godi cyflogau hefyd – er enghraifft llai o absenoldeb salwch a throsiant staff, a gwell morâl a chynhyrchiant⁸⁴. Pe bai busnesau'n dewis ymateb drwy ysgwyddo'r cynnydd mewn costau, byddai hyn yn ailddosbarthiad o berchnogion/rhanddeiliaid busnes i grŵp incwm is (fel arfer). Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag academyddion a rhanddeiliaid eraill i sefydlu i ba raddau y gellir mesur y manteision cost hyn.

350. Byddai'r adolygiad ôl-weithredu yn cynnwys asesiad o effaith economaidd y ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol.

Canllawiau Statudol

351. Bydd y Canllawiau Statudol ar y ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol gyffredinol, y ddyletswydd i bennu amcanion yn erbyn nodau llesiant a chyhoeddi strategaeth gaffael yn ofynnol gan yr holl awdurdodau contractio. Bydd angen iddynt egluro'r hyn a ddisgwylir yn yr amcanion a'r strategaeth ysgrifenedig, a'r hyn sydd angen ei ystyried yn y ddyletswydd gyffredinol.

352. Er y bydd y canllawiau statudol yn dal i fod yn grynodeb bydd angen iddynt gael eu hategu gan ganllawiau ymarferol manylach ar sut i gyflawni'r dyletswyddau. Mewn rhai meysydd polisi bydd y gwaith o ddatblygu canllawiau yn gofyn am adolygu canllawiau presennol ac mewn eraill bydd angen datblygu deunydd newydd. Yn ogystal â datblygu a chytuno ar gynnwys ymarferol â llunwyr polisi bydd angen i'r canllawiau a gynhyrchir ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth gaffael ehangach a wneir ar hyn o bryd. Dylai'r canllawiau ehangach gynnwys astudiaethau achos, adnoddau a dolen i gynnwys hyfforddi, a bydd y broses o'u datblygu yn un iteraidd a fydd yn cymryd sawl mis. Bydd angen i hyn oll gael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â phartneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid ehangach.
353. Bydd hyfforddiant hefyd ar gael i staff sy'n ymwneud â chaffael a rheoli contractau mewn awdurdodau contractio. Caiff hyn ei integreiddio â hyfforddiant sydd ei angen i gefnogi'r ddeddfwriaeth gaffael newydd a arweinir gan y DU, ac yn cael eu cyflwyno ar ffurf sesiynau manwl i staff. Bydd yr holl hyfforddiant ar gael cyn i'r dyletswyddau ddod i rym er mwyn rhoi digon o amser i'r staff baratoi.
354. Bydd angen i God y Gweithlu Dwy Haen gael ei gymryd o'i ffurf bresennol a'i adeiladu i mewn i'r Canllawiau Statudol. Bydd yn newid yn sylweddol o ganlyniad i hynny. Mae'r gwaith o ddatblygu cymalau contract newydd (cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol) yn debygol o ofyn am gymorth cyfreithiol trydydd parti arbenigol.
355. Mae'r Bil yn cyflwyno dyletswydd Rheoli Contract newydd ar gyfer contractau gwaith sy'n werth mwy na £2m. Bydd chwe chategori eang o gymalau contract (cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol) ac mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi cynnwys a strwythurau posibl ar gyfer cymalau mwy manwl. Bydd hyn yn gofyn am ganllawiau manwl ar sut y dylent gael eu hymgorffori mewn cadwyni cyflenwi, yn cynnwys sut y gellir eu defnyddio gyda gwahanol fathau o gontractau enghreifftiol. Mae'r gwaith o ddatblygu cymalau contract newydd (cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol) yn debygol o ofyn am gymorth cyfreithiol trydydd parti arbenigol. Hefyd bydd angen i'r canllawiau hyn gwmpasu sut y dylai cleientiaid sicrhau bod mecanweithiau yn cael eu rhoi ar waith drwy gydol cadwyni cyflenwi er mwyn sicrhau bod cymalau yn cael eu defnyddio, ac yn gyson felly.
356. Bydd yn ofynnol i gyrff sy'n gwneud gwaith caffael rhagnodedig gyhoeddi adroddiadau blynyddol. Bydd angen i Ganllawiau Statudol ddiffinio cynnwys disgwylidig yr adroddiadau hyn, ac yn arbennig nodi pa ddata y dylai awdurdodau contractio eu casglu ac adrodd arnynt. Dylent hefyd gael eu datblygu i annog cymesuredd ac osgoi gosod gormod o faich gweinyddol, a rhan o hyn fydd ymgysylltu â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn symleiddio gofynion adrodd rhwng y Bil hwn a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Bydd hyn yn gofyn am ymgysylltu ag ymarferwyr o'r sector cyhoeddus ehangach, staff polisi, a sefydliadau trydydd parti a fydd yn casglu data, er mwyn rhesymoli ac egluro'r gyfundrefn casglu data a ddygir gan y Bil.
357. Hefyd bydd angen ystyried sut y dylai'r Cod Gweithlu Dwy Haen gael ei ymgorffori yn y Canllawiau Statudol. Mae'r Cod ei hun yn cael ei adolygu a chaiff

ei gyhoeddi ar wahân fel y Cod Gweithlu Cyhoeddus, ond bydd angen i rai o'i ymrwymiadau gael eu cynnwys yng ngofynion y Canllawiau Statudol, ynghyd â chynngor ymarferol ar sut y dylid gwneud hyn.

Tabl 5.1: Cyfrifo cost amcangyfrifedig llunio pob adran o ganllawiau statudol ac atodol.

Aelod staff a gradd	Cost staff blynyddol ⁸⁵ (£)	Cyfradd ddyddiol (£) (rhannwyd â 220)	Diwrnodau	Is-gyfanswm (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr – cadarnhau'n derfynol	120,174	546	1	546
Gwasanaethau cyfreithiol – Gradd 7	86,731	394	5	1,970
Un arweinydd polisi – Gradd 7	86,731	394	31	12,214
Arweinydd Polisi – SEO	66,346	302	60	18,120
Cyfieithu				1,250
Cyhoeddi				3,100
CYFANSWM				37,200

358. At ddibenion darparu cost ddangosol ar gyfer cynhyrchu canllawiau statudol o dan Opsiwn 2 bydd hyn yn dod yn ddau ddarn o ganllawiau: y canllawiau statudol ar y dyletswyddau caffael a Chod Ymarfer diwygiedig ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Rydym yn amcangyfrif y bydd cyfanswm y gost yn £74,400 (i'r cant agosaf). Disgwylir ysgwyddo'r gost hon yn 2024-25.

Costau Staff

359. Byddai'r costau o dan yr opsiwn hwn yn codi drwy adnoddau Llywodraeth Cymru yn bennaf, y byddai eu hangen i gefnogi a monitro'r ddarpariaeth, a'r rhai sy'n codi yn sgil gweithgareddau adrodd y sector cyhoeddus ehangach. Byddai costau hefyd yn cael eu hysgwyddo gan y sector cyhoeddus ehangach drwy

gyflawni ei ddyletswyddau mewn cysylltiad â strategaethau adrodd a chyhoeddi. Byddai'r costau'n uwch yn ystod y blynyddoedd cyntaf ac yn lleihau dros amser.

Costau i Lywodraeth Cymru

360. Mae rhai costau ar gyfer cefnogi Opsiwn 2, fel y nodir uchod, eisoes wedi'u cynnwys yng nghyllideb y Gyfarwyddiaeth Caffael Masnachol, ac felly nid ydynt yn gostau ychwanegol a fyddai'n codi o ganlyniad i'r Bil drafft. Byddai'r gwaith o gasglu adroddiadau blynyddol ynghyd o setiau data yn gallu cael ei wneud gan rolau sy'n bodoli eisoes, felly ni fyddai hynny'n gost fesuradwy ychwanegol.
361. Mae'r rhan fwyaf o'r costau i Lywodraeth Cymru o dan yr opsiwn hwn yn codi o'r angen am adnoddau estynedig, yn enwedig yn ystod y flwyddyn neu ddwy gyntaf, i gefnogi'r gwaith o roi canllawiau statudol ar waith ac o gasglu, prosesu a dadansoddi adroddiadau blynyddol. Byddai hefyd yn cynnwys costau cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ei hun, a fyddai'n nodi'r cyflawniadau ar gyfer pob blwyddyn flaenorol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Byddai hyn yn ddarn sylweddol o waith a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i gasglu, glanhau a dadansoddi data a fyddai, yn ôl ein hamcangyfrifon, yn cynrychioli tua 15 diwrnod o waith yr un ar gyfer dau swyddog, fel y'i nodir yn Nhabl 5.2 isod.
362. Mae cydweithwyr yn nhîm Gwerthwchi Gymru Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad Llywodraeth Cymru wedi awgrymu cyfres o bedwar digwyddiad misol rhithwir, a phum sesiwn ymwybyddiaeth 2 awr o hyd ledled Cymru er mwyn helpu i wella parodrwydd cyflenwyr i ddarparu'r ddyletswydd Caffael Cymdeithasol Gyfrifol o dan y Bil. Bydd y rhain am ddim i gyflenwyr ac yn cael eu darparu o dan gontract Busnes Cymru. Dylid nodi, er ei fod yn amcangyfrif ac y gallai newid am fod y contract hwn ar fin cael ei adnewyddu, amcangyfrifir y bydd y costau hyn yn **tua £16,500**. Mae'r ffigur hwn wedi'i ychwanegu at Dabl 5.4 isod.

Tabl 5.2: Costau yn deillio o lwyth gwaith ychwanegol llunio Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru.

Gradd	Costau staff blynyddol ⁸⁶ (£)	Cyfradd ddyddiol (£) (rhannwyd â 220)	Diwrnodau y flwyddyn a dreulir	Cost y flwyddyn (£)
Uwch swyddog caffael (cyfwerth ag SEO) x 1	66,364	302	15	4,530
Swyddog caffael (cyfwerth ag HEO) x 1	52,774	240	15	3,600
Cyfanswm				8,130

363. Felly cyfanswm cost amcangyfrifedig llunio Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru yw £8,100 (i'r cant agosaf).

364. Mae Tablau 5.3 a 5.4 yn nodi'r amcangyfrif o'r costau ar gyfer yr adnoddau ychwanegol hyn a'r rhaglen gysylltiedig y byddai eu hangen i gefnogi'r ddarpariaeth o dan Opsiwn 2. Wrth gynhyrchu'r amcangyfrifon hyn, rhoddwyd ystyriaeth i sut roedd Llywodraeth yr Alban wedi cyflawni'r un swyddogaethau fwy neu lai i gefnogi tua 110 o gyrff sydd, yn ôl cyd-weithwyr yng Nghyfarwyddiaeth Caffael ac Eiddo Llywodraeth yr Alban, wedi bod yn gymesur ac yn effeithiol. Byddai Opsiwn 2 hefyd yn gofyn am gynlluniau prosiect effeithiol i ategu gweithrediad y ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol newydd. Byddai hyn yn cael ei wneud gan y staff ychwanegol a nodir yn Nhabl 5.3.

365. Er mwyn hysbysu ac uwchsgilio'r sector cyhoeddus ehangach, byddai gweithredu Opsiwn 2 yn gofyn am weithgareddau ychwanegol fel cyhoeddi canllawiau statudol ac ategu, sesiynau hyfforddi, cyfarfodydd un-i-un a gweminarau, cyfathrebiadau, a sesiynau ymwybyddiaeth rhanbarthol. Mae'r amcangyfrif o gostau'r gweithgareddau hyn yn Nhabl 5.4.

Tabl 5.3: costau ychwanegol ar gyfer staff ychwanegol i gefnogi darpariaeth barhaus Opsiwn 2

Gradd	Costau staff blynyddol ⁸⁷ (£)	Cyferth ag amser cyflawn	Cost y flwyddyn (£)
Gradd 7	86,731	0.5*	43,366
SEO	66,364	2	137,728
HEO	52,774	2	105,548
Cymorth Tîm	33,927	0.5	16,964
CYFANSWM			303,606

*Yn cynrychioli hanner eu llwyth gwaith

366. Wedi'u talgrynnu i'r cant agosaf, costau mwy o staff i gefnogi Opsiwn 2 yw **£303,600** y flwyddyn (**wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf**).

Tabl 5.4: amcangyfrif o'r costau rhaglen ychwanegol i gefnogi gweithrediad Opsiwn 2

Polisi	Cost (£)	Disgwyli'r ysgwyddo costau blwyddyn neu flynyddoedd ariannol
Nodyn Cyngor Caffael	Amser staff yn unig	

Datblygu canllawiau statudol	74,400	2024/25
Bwletin Caffael	Amser staff yn unig	
Sesiynau ymwybyddiaeth rhanbarthol	10,000	2023/24
Teithiau staff i gwrdd â phenaethiaid caffael	5,000	2023/24
Adolygu ac adrodd	25,000	2024/25
Gweminarau blynyddol (am ddwy flynedd gyntaf y ddyletswydd)	4,000 bob blwyddyn	2023/24 2024/25
Adolygiad ôl-weithredu	25,000	2025/26
Sesiynau cefnogi cyflenwyr	16,500	2024/25
Cyfanswm y costau rhaglen	163,900	

Costau i'r sector cyhoeddus ehangach

367. Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau contractio yng Nghymru strategaethau caffael yn barod. Yn ôl y gwiriadau addasrwydd a gynhaliwyd gan Gwerth Cymru yn 2014, roedd gan 21 o awdurdodau lleol strategaeth gaffael bryd hynny, felly byddai'r costau ychwanegol yn hyn o beth yn eithaf isel. Byddai rhywfaint o gost ymlaen llaw wrth bennu amcanion a datblygu prosesau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol ymhellach. Fodd bynnag, mae arferion da eisoes yn mynnu bod nifer o'r mathau hyn o gwestiynau ac amodau contract yn cael eu cynnwys wrth hysbysebu a dyfarnu tendrau, a byddai unrhyw gostau amser ychwanegol yn codi yn y camau cyntaf wrth roi canllawiau newydd ar waith.

368. Byddai Opsiwn 2 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau contractio i gynhyrchu adroddiadau caffael blynyddol os ydynt wedi dyfarnu 'contract rhagnodedig'. Byddai unrhyw lwyth gwaith ychwanegol yn eithaf isel yn hyn o beth hefyd o ganlyniad i'r prosesau adrodd mewnol sy'n bodoli eisoes mewn cysylltiad â phrosesau tendro, a'r gwaith adrodd ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 sy'n debygol o gasglu llawer o'r data sydd eu hangen. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i staff ganolbwyntio ar ganlyniadau penodol a allai gymryd rhagor o amser ac arwain at ddyblygu ymdrechion os na chaiff ei reoli'n ofalus, yn enwedig yn ystod y flwyddyn gyntaf. Byddai cynhyrchu adroddiadau blynyddol yn golygu bod angen llenwi templedi data a ddarperir gan Lywodraeth Cymru mewn canllawiau statudol. Byddai unrhyw gostau diriaethol a ragwelir yn codi ar ffurf amser Penaethiaid Caffael a staff eraill yn casglu gwybodaeth ynghyd ac yn cynhyrchu'r adroddiad blynyddol. Nodir hyn yn Nhabl 5.5. Mae Tabl 5.6 yn nodi'r costau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â phennu a chynllunio amcanion (strategaethau drafftio), sydd ar gyfer yr holl awdurdodau contractio ac nid dim ond y rhai sy'n gwneud gwaith caffael rhagnodedig.

369. Mae cost yn debygol o fod yn gysylltiedig â phresenoldeb staff mewn sesiynau hyfforddi a sesiynau ymwybyddiaeth, ac mae hyn yn cael ei nodi yn Nhabl 5.7.

Tabl 5.5: costau a ysgwyddir drwy gasglu ynghyd y data sydd eu hangen i adrodd ar ganlyniadau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol

Gradd	Costau staff blynyddol ⁸⁸ (£)	Cyfradd ddyddiol (£) (rhannwyd â 220)	Diwrnodau y flwyddyn a dreulir	Cost y flwyddyn (£)
Pennaeth Caffael (cyfwerth â Gradd 7) x 44	86,731	394	2	34,672
Uwch swyddog caffael (cyfwerth ag SEO) x 44	66,364	302	5	66,440
Amcangyfrif o gyfanswm y gost				101,112

370. D.S. mae cyfraddau procsi sydd gyfwerth â Gradd 7 ac SEO Llywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfraddau cyflog staff o ganlyniad i'r amrywiadau ar draws y sector cyhoeddus a'r gwahaniaethau mewn teitlau swyddi. Amcangyfrifir y bydd yn ofynnol i 44 o awdurdodau contractio lunio adroddiadau blynyddol, gan mai hwn yw'r nifer sy'n debygol o fod wedi cynnal o leiaf un caffaeliad rhagnodedig mewn unrhyw flwyddyn benodol.

371. Felly cost amcangyfrifedig casglu data sy'n ofynnol ar gyfer adroddiadau caffael blynyddol yw **£101,100** y flwyddyn (i'r cant agosaf).

Tabl 5.6: costau'n gysylltiedig â phennu a chynllunio amcanion (strategaethau drafftio)

Gradd	Costau staff blynyddol ⁸⁹ (£)	Cyfradd ddyddiol (£) (rhannwyd â 220)	Diwrnodau'r flwyddyn yn Cynllunio/pennu amcanion	Cost y flwyddyn (£)
Pennaeth Caffael (cyfwerth â Gradd 7) x 60	86,371	394	3	70,920
Uwch swyddog caffael	66,364	302	8	144,960

(cyfwerth ag SEO) x 60				
Cyfanswm				215,880

372. D.S. Bydd yn ofynnol i bob un o'r 60 o awdurdodau contractio sy'n dod o dan y ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol bennu amcanion a drafftio strategaethau.

373. Felly cost flynyddol amcangyfrifedig drafftio strategaethau ar gyfer adroddiadau caffael blynyddol yw £215,900 (i'r cant agosaf).

Tabl 5.7: costau a ysgwyddir gan y sector cyhoeddus ar gyfer amser staff mewn sesiynau hyfforddi a sesiynau ymwybyddiaeth

Gradd	Costau staff blynyddol⁹⁰ (£)	Cyfradd ddyddiol (£) (rhannwyd â 220)	Diwrnodau y flwyddyn a dreulir ar hyfforddiant ac ymwybyddiaeth	Cost y flwyddyn (£)
Pennaeth Caffael (cyfwerth â Gradd 7) x 60	86,731	394	5	118,200
Uwch swyddog caffael (cyfwerth ag SEO) x 60	66,364	302	5	90,600
Swyddog caffael (cyfwerth ag HEO) x 60	52,774	240	10	144,000
Cyfanswm				352,800

374. D.S. Mae cyfartaledd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfraddau cyflog staff o ganlyniad i'r amrywiadau ar draws y sector cyhoeddus a'r gwahaniaethau mewn teitlau swyddi. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd angen i aelodau o staff pob un o'r 60 o awdurdodau contractio fynd i sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth.

375. Felly cost amcangyfrifedig staff sector cyhoeddus yn mynd i sesiynau ymwybyddiaeth a hyfforddi ar gyfer y ddyletswydd hon yw £352,800. Disgwylir ysgwyddo'r gost hon yn 2023/24.

Costau i'r sector preifat/trydydd sector

376. Gallai unrhyw gostau a ysgwyddir gan y sector preifat godi o ddisgwyliad uwch i gyflawni canlyniadau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol. Byddai'r enghreifftiau'n cynnwys defnyddio rhagor o ddeunyddiau sy'n cael eu caffael yn gynaliadwy, a staff yn cael rhagor o hyfforddiant a gwell telerau ac amodau cyflogaeth, gan gynnwys eu codi i'r cyflog byw gwirioneddol. Gallai costau eraill godi ar ffurf amser staff yn mynychu sesiynau hyfforddi a sesiynau ymwybyddiaeth ychwanegol a allai fod ar gael drwy Busnes Cymru, er enghraifft. Mae'n anodd amcangyfrif y costau hyn oherwydd nid yw'n bosibl gwybod sawl busnes sydd ar hyn o bryd yn darparu nwyddau, gwasanaethau neu waith i'r awdurdodau contractio sy'n ddarostyngedig i'r Bil, pa gyfran o'r rhain fyddai'n gorfod canolbwyntio ar faterion penodol, i ba raddau byddent yn dymuno defnyddio'r sesiynau hyfforddi, y sesiynau ymwybyddiaeth neu'r cymorth un-i-un a fyddai ar gael, neu sawl cyflogai (ac ar ba lefel) fyddai angen bod yn bresennol.
377. Yn yr un modd ag Opsiynau 1 a 3, mae swyddogion Busnes Cymru wedi nodi y byddai cymorth ar gael i helpu cwmnïau i baratoi ar gyfer ymateb i'r gofynion a osodir arnynt gan y ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn y Bil. Byddai hyn am ddim i fusnesau a'r unig gost iddynt fyddai costau'n ymwneud ag amser staff a chostau teithio i fynd i ddigwyddiadau. Mae'n anodd amcangyfrif y costau hyn gan y byddant yn amrywio ar gyfer pob sefydliad, a bydd nifer y sefydliadau yn amrywio dros amser.

Costau yn y tymor hir

378. Er y byddai costau ychwanegol i bob parti yn y tymor byr wrth addasu i ffyrdd newydd o weithio ac i brosesau adrodd, yn y tymor canolig mae potensial i Opsiwn 2 gostio llai na'r status quo (Opsiwn 1) o ganlyniad i'r nod o symleiddio'r set bresennol o ofynion polisi a mecanweithiau adrodd.

Manteision

379. Mae'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn ymwneud â phrosesau mwy cadarn ar gyfer hybu canlyniadau cymdeithasol gyfrifol, fel y rhai a gyflawnir drwy arferion cyflogaeth mwy moesegol mewn cadwyni cyflenwi. Byddai hyn yn cael ei sicrhau drwy osod dyletswydd ar awdurdodau contractio i roi sylw i ganllawiau statudol, ac ychwanegu gofynion tryloywder ac adrodd. Byddai angen adnodd blaenoriaethu polisiâu i ganolbwyntio'r ymdrechion ar y meysydd lle gellir sicrhau'r gwerth uchaf posibl drwy roi polisi ar waith. Mae'r manteision a ragwelir yn cynnwys:

- symleiddio disgwyliadau polisi mewn cysylltiad â chaffael;
- cyfleoedd i gyflawni amcanion cymdeithasol ehangach o ganlyniad i ofynion tryloywder ychwanegol;
- gwella cyflogau a gwaith teg, elwa'r economi drwy refferniw trethi uwch, cadw arian mewn economïau lleol, a llai o fudd-daliadau;
- gwella tryloywder gweithgareddau cadwyni cyflenwi, gan arwain at gynnydd mewn arferion da a'r potensial ar gyfer ymyriadau gan reolwyr masnachol;
- gwell dealltwriaeth o gyflogaeth foesebol, gan gynnwys rhannu arferion da drwy broses adrodd flynyddol;

- cyfle i wella galluogrwydd caffael cyhoeddus er mwyn sicrhau gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus, lleihau anghydraddoldeb, a chyflawni amcanion llesiant.

380. Gallai'r manteision i fusnesau a sefydliadau mewn cadwyni cyflenwi fod yn sylweddol mewn sawl ffordd, yn cynnwys manteision ariannol drwy well cynhyrchiant staff, gwell gwasanaeth a mwy o werthiannau ac ati. Mae'r manteision i Gymru yn y tymor hir hefyd yn amhosibl eu mesur ond yn debygol o fod yn sylweddol, o ystyried graddfa'r gwariant caffael yng Nghymru bob blwyddyn.

Tabl 5.8: Crynodeb o'r costau (wedi'u talgrynnu i'r cant agosaf)

Crynodeb o'r costau (£)	
Trosiannol	
Tabl 5.1	37,200 – wedi'i gynnwys yn nhabl 5.4
Tabl 5.4	163,900
Tabl 5.7	352,800
Cyfanswm y gost drosiannol	516,700
Blynyddol	
Tabl 5.2	8,100
Tabl 5.3	303,600
Tabl 5.5	101,100
Tabl 5.6	215,900
Cyfanswm y gost flynyddol	628,700

381. Felly, yr amcangyfrif o'r gost gweithredu ar gyfer yr opsiwn hwn yw **£516,700**, a'r amcangyfrif o'r gost flynyddol yw **£628,700**.

Opsiwn 3 – yr opsiwn a ffefir – cyflwyno deddfwriaeth newydd, ehangach, sy'n cynnwys dyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn ogystal â dyletswyddau rheoli contractau a mecanweithiau i wella cydymffurfedd

Disgrifiad

382. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r awdurdodau contractio a nodir yn Opsiwn 2 yn cyflawni'r un dyletswyddau a ddisgrifir yn yr opsiwn hwnnw, ond byddai'n rhaid iddynt wneud y canlynol hefyd:

- anfon adroddiad at Weinidogion Cymru pan nad ydynt yn bwriadu cynnwys cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol yn y cyfryw gontractau adeiladu sydd dros £2m (yn cynnwys TAW) fel y'i nodir yn y Bil a sicrhau bod y cymalau hyn yn cael eu rhoi ar waith drwy gadwyni cyflenwi;
- anfon adroddiad at Weinidogion Cymru pan nad ydynt yn bwriadu cynnwys cymalau gweithluoedd cyhoeddus cymdeithasol (a nodir yn y Cod newydd Allanol Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gweithlu) fel y'i nodir yn y Bil a sicrhau bod y cymalau hyn yn cael eu rhoi ar waith drwy gadwyni cyflenwi;

383. Byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- cefnogi grŵp caffael cyhoeddus Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol;
- sefydlu pŵer ymchwilio newydd i Weinidogion Cymru;
- cyhoeddi cymalau contractau enghreifftiol a chanllawiau.

384. I grynhoi, er y byddai'n sicrhau'r un manteision ag Opsiwn 2, byddai'r opsiwn hwn yn gosod dyletswyddau ychwanegol ar awdurdodau contractio er mwyn eu gwneud yn fwy tebygol o gydymffurfio. Byddai'r opsiwn hwn yn hoelio sylw ar gyflawni canlyniadau cymdeithasol gyfrifol drwy gynnwys cymalau perthnasol mewn contractau, trosglwyddo'r rhain drwy gadwyni cyflenwi, a rhoi prosesau ar waith i fonitro'r trefniadau hyn drwy gadwyni cyflenwi ac adrodd ar ganlyniadau. Byddai'r cynlluniau hyn yn cynnwys proses Adrodd am Eithriadau i'w chychwyn yn ystod y cam cynllunio cyn caffael pan fydd sefydliad yn penderfynu nad yw'n bwriadu dilyn y prosesau hyn ar gyfer gweithgaredd caffael penodol.

385. Bydd costau'n gysylltiedig â'r broses Adrodd am Eithriadau. Mae'n anodd amcangyfrif pa mor aml y byddai Llywodraeth Cymru yn cael Hysbysiad am Eithriad. Prif ddiben yr is-grŵp caffael fydd cynnal asesiad blynyddol o adroddiadau blynyddol awdurdodau contractio, ac adroddiad blynyddol drafft Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn broses flynyddol, ond byddai disgwyl diweddariadau ar weithgareddau ar adegau eraill a pharatoi papurau i'r CPG ar gamau eraill yn y cylch blynyddol. Ni fwriedir i'r hysbysiadau am eithriadau gael eu hystyried gan yr is-grŵp caffael cyhoeddus; yn hytrach bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried ac yn ymateb i hysbysiadau o'r fath yn uniongyrchol, gan geisio cyngor arbenigol lle bo angen. Gosodir Gweinidogion dan ddyletswydd i hysbysu'r CPG a'i is-grŵp caffael cyhoeddus o ganlyniad adroddiadau ar eithriadau. Rhagwelwn y bydd is-grŵp caffael cyhoeddus y CPG yn cyfarfod yn unol ag amserlen cyn cyfarfodydd y CPG. At ddiben y ddogfen hon, rydym wedi amcangyfrif y bydd hyn yn cyfateb i dri chyfarfod y flwyddyn. Mae costau'r rhain wedi'u cynnwys o dan gostau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan staff sydd wedi'u hymrwymo i gefnogi Opsiynau 2 a 3. Amcangyfrifir bod hyn yn cynrychioli hanner eu llwyth gwaith, ac mae wedi'i nodi yn nhabl 5.9.

Tabl 5.9 – costau yn deillio o lwyth gwaith ychwanegol wrth ystyried hysbysiadau am eithriadau ac adroddiadau cysylltiedig

Gradd	Cost staff blynyddol ⁹¹ (£)	Cost y flwyddyn (£)
Uwch swyddog caffael (cyfwerth ag SEO) x 0.5*	66,364	33,182
Swyddog caffael (cyfwerth ag HEO) x 0.5*	52,774	26,387
Cyfanswm		59,569

* Yn cynrychioli hanner eu llwyth gwaith

386. Felly cost amcangyfrifedig ystyried hysbysiadau am eithriadau ac adroddiadau cysylltiedig yw **£59,600** (i'r cant agosaf).

387. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru ymchwilio i weithrediad caffael cyhoeddus mewn awdurdodau contractio.

388. O dan yr opsiwn hwn, byddai adolygiad ôl-weithredu yn cael ei gynnal ar ôl tair neu bedair blynedd er mwyn asesu a yw'r ffactorau llwyddiant hanfodol yn cael eu cyflawni, ac i ba raddau y mae'r ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn cyflawni ei nodau. Byddai'r adolygiad hwn yn cynnwys adolygiad o gwmpas y contractau sy'n ddarostyngedig i'r Bil.

Costau Opsiwn 3

Costau i Lywodraeth Cymru ac i'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru

389. Mae Opsiwn 3 yn cynnwys yr holl gostau a nodir yn Opsiynau 1 a 2 uchod, yn ogystal â chostau ychwanegol i gefnogi'r dyletswyddau rheoli contractau ychwanegol, y mecanweithiau Adrodd am Eithriadau, ac Ymchwiliadau Caffael.

390. Bydd Opsiwn 3 yn cynnwys datblygu dwy set ychwanegol o ganllawiau statudol, yn ymdrin â'r canlynol: y cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol a chanllawiau ategol; a'r cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol, canllawiau a'r Cod newydd Allanol Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gweithlu. Mae Tabl 5.1 yn nodi costau llunio pob darn o ganllawiau felly byddai hyn yn ysgwyddo cost ychwanegol o £74,400 o dan Opsiwn 3. Hefyd, byddwn yn ysgwyddo rhai costau pellach mewn cymorth allanol wrth ddrafftio cymalau contract. Amcangyfrifwn y bydd y rhain yn £50,000 ar gyfer y ddau ddarn o waith. Mae disgwyl i'r costau hyn gael eu hysgwyddo yn 2024-25.

Cymalau contractau cymdeithasol gyfrifol mewn contractau adeiladu mawr a'u cadwyni cyflenwi

391. Er mai'r amcanion tymor hir yw gwella contractau ar draws pob sector, mae'r Bil hwn yn canolbwyntio ar gontractau adeiladu mawr, gwerth dros £2m, ac mae'r amcangyfrifon o'r costau wedi'u cyfrifo'n seiliedig ar hyn. Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am ddull gweithredu ehangach ar gyfer rheoli contractau i fonitro perfformiad a chydymffurfedd contractwyr mewn cadwyni cyflenwi drwyddynt draw, er mwyn sicrhau bod amcanion penodol yn cael eu cyflawni.
392. Byddai cynnydd mewn caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn gofyn am ddull gweithredu mwy cadarn, â mwy o adnoddau ar gyfer rheoli contractau. Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod beth fydd graddfa'r her hon ar draws y sector cyhoeddus a bydd angen gwneud cynnydd dros amser. Felly, nid yw costau uwch rheoli contractau'n well yn fwy cyffredinol wedi cael eu cynnwys yn yr asesiad hwn. Nid yw'n bosibl asesu i ba raddau y mae pob awdurdod contractio yn y Bil drafft hwn eisoes yn neilltuo adnoddau i'r swyddogaeth hollbwysig hon ar draws ei holl gontractau; mae ymgynghori wedi awgrymu y byddai hyn yn gofyn am gymorth estynedig dros amser.
393. Er bod costio gwaith rheoli contractau yn gywir i unrhyw raddau yn anodd o ganlyniad i wahaniaethau rhwng ac o fewn sefydliadau, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith i amcangyfrifo costau prosiectau cymhleth, ar raddfa fawr, uchel eu risg. Mae'r model costio a ddefnyddiwyd yn darparu ffigur o 1-2.5% a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau rheoli adeiladu mewn cyllidebau prosiectau adeiladu, a hynny ar sail ymchwil i'r farchnad a ffigurau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Er mwyn ystyried y trefniadau rheoli contractau presennol, rydym wedi cynnwys ffigur o 0.5% ar gyfer yr amcangyfrif o gostau rheoli contractau. Dylid disgwyl y bydd y gwaith o reoli contractau'n cael ei ystyried yn gyfrifoldeb ar y cyd mewn nifer o feysydd, ac nid yn rhywbeth y gellir ei drosglwyddo'n gyfan gwbl (ynghyd â'r risgiau cysylltiedig) i brif gontractwyr. Oherwydd mai ar y sector cyhoeddus y bydd y dyletswyddau'n cael eu rhoi, awgrymir y byddai'r sector cyhoeddus yn ysgwyddo 75% o'r gost uwch hon am adnoddau rheoli contractau, ac y byddai'r sector preifat yn ysgwyddo 25%.
394. Rydym wedi defnyddio'r model hwn i allosod y costau adeiladu posibl. Mae hyn yn darparu amcangyfrif o'r gost ychwanegol resymol yn yr achos gwaethaf ar gyfer y sefydliadau hynny nad ydynt yn cynnwys metrigau a dangosyddion perfformiad allweddol cymdeithasol gyfrifol wrth reoli eu contractau adeiladu fel arfer. Tybir bod llawer o gyrff eisoes yn cynnwys elfennau o'r dull hwn yn eu prosesau rheoli contract.
395. Mae'r allosodiad hwn yn seiliedig ar gyfran y gwariant adeiladu yn ôl tystiolaeth yr Hysbysiadau Dyfarnu Contract a gyhoeddwyd ar GwerthwchiGymru, a gafodd ei thrawsosod ar wariant gwirioneddol yn ystod y blynyddoedd ariannol 2017-2019 a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru gan Atamis, dadansoddwr data gwariant trydydd parti. Yn ystod 2019/20, byddai 98.7% o werth contractau gwaith wedi bod uwchlaw trothwy o £2m (yn cynnwys TAW).

396. Mae'r ffigurau adeiladu o GwerthwchiGymru yn cynnwys dyfarniadau cytundebau fframwaith, a fyddai'n cael eu gwario dros nifer o flynyddoedd wrth i brosiectau ddatblygu. Mae'r ffigurau a ddarparwyd gan Atamis yn dangos bod cyfanswm y gwariant adeiladu dros £2bn dros y tair blynedd ddiwethaf, gyda'r gwariant yn ystod 2019/20 ar ei phen ei hun yn £1,048,249,295.
397. Y costau blynyddol amcangyfrifedig yr eir iddynt drwy brosesau rheoli contract cryfach ym maes adeiladu yw £5,173,100 (i'r cant agosaf). Byddai'r costau gwirioneddol yn dibynnu'n bennaf ar ffactorau fel sut mae gwaith rheoli contractau'n cael ei asesu o ran ei risg a'i strwythuro ym mhob corff perthnasol, y defnydd o fframweithiau presennol, capasiti a galluogrwydd staff, a yw'r gwaith rheoli contractau'n cael ei allanoli ac ati.
398. Rydym wedi defnyddio canran llinell sylfaen ar gyfer costau rheoli contract, yn seiliedig ar ffigurau a ddarparwyd gan ymchwil i'r farchnad a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Cafodd y ffigur uwch ar gyfer ein Bil ei gyfrifo drwy ychwanegu 0.5% at werth y gwariant ar gontractau adeiladu dros y trothwy o £2 miliwn, (gan gynnwys TAW). Rydym yn gwybod o ddata ar wariant, a roddwyd gan Atamis, i'r sector cyhoeddus yng Nghymru (ac eithrio'r sectorau hynny nad ydynt yn ddarostyngedig o'r dyletswyddau caffael) wario £1,048,249,295 ar adeiladu yn 2019/20 ar ei ben ei hun. Rydym hefyd yn gwybod gan GwerthwchiGymru fod 98.7% o'r contractau adeiladu sy'n cael eu hysbysebu dros y trothwy o £2 miliwn (gan gynnwys TAW), gan arwain at y casgliad mai gwerth y contractau a fyddai'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd rheoli contractau fyddai £1,034,622,054. Felly, mae'r £5,173,100 yn cael ei gyfrifo drwy ychwanegu 0.5% at y gwerth hwn. Rydym yn gwybod mai prif ffocws rheolwyr safleoedd wrth reoli cadwyni cyflenwi yw amser, cost, ansawdd ac iechyd a diogelwch. O dan y ddyletswydd hon bydd yn ofynnol iddynt ystyried diwydrwydd dyladwy mewn perthynas ag amrediad o bynciau eraill (yr amgylchedd a chydymffurfio â chyfraith cyflogaeth, er enghraifft), nad yw rhai ohonynt yn arfer cyffredin ar hyn y bryd – dyma pam rydym yn rhagweld cynnydd sylweddol mewn costau rheoli contractau.

Cod y Gweithlu Dwy Haen

399. Mae'n bosibl y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig ag Adrodd am Eithriadau wrth ddefnyddio Cod y Gweithlu Dwy Haen. Ychydig iawn o achosion sydd bob blwyddyn o sefydliad sy'n ddarostyngedig i'r Cod Dwy Haen yn allanoli gwasanaeth, ac mae'r Cod yn cael ei weithredu yn yr amgylchiadau hyn fel arfer. Mae costau'r broses hon wedi'u cynnwys yn y darpariaethau Adrodd am Eithriadau a ddisgrifir uchod, ac yn y costau isod. Mae'n bosibl y byddai rhai costau cyflogaeth uwch yn gysylltiedig â monitro gweithrediad parhaus darpariaethau contract y Cod yn ofalus, ond gan fod y Cod hwn eisoes ar waith yng Nghymru, mae'n anodd amcangyfrif i ba raddau y bydd dargyfeiriad o'i ddarpariaethau.

Costau i'r sector preifat/trydydd sector

400. Bydd graddau effaith y ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol o dan y Bil ar fusnesau yn dibynnu ar y graddau y mae canlyniadau cymdeithasol

gyfrifol eisoes yn rhan o contractau a chadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus. Bydd yn bwysig talu sylw gofalus i leihau beichiau ychwanegol ar fusnesau, yn enwedig busnesau bach a sefydliadau trydydd sector. Bydd gweithio ar y cyd â Llywodraeth y DU ar ddiwygiadau caffael ehangach hefyd yn ein galluogi i ddefnyddio systemau cyffredin a fydd yn lleihau costau cynnig a rheoli contract ychwanegol i gyflenwyr.

401. Byddai cymorth ar gael drwy Busnes Cymru, rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cymru, i helpu busnesau i baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol. Byddai staff yn gweithio gyda Busnes Cymru i sicrhau bod busnesau'n gallu lliniaru yn erbyn yr effeithiau posibl, gan gynyddu'r cyfleoedd i gyflawni amcanion partneriaeth gymdeithasol ar yr un pryd.
402. Mae rheoli contractau'n faes cost arall. Byddai'r costau y cyfeirir atynt uchod o £5,173,100 yn gallu cael eu rhannu rhwng cleientiaid a'r sector preifat, a byddai'r rhaniad yn amrywio rhwng pob sefydliad ar sail nifer fawr o ffactorau fel yr archwaeth rheoli risg, aeddfedrwydd y swyddogaeth fasnachol, yr adnoddau sydd ar gael, cyllidebau, a thelerau'r contract. Mae'n anodd amcangyfrif y ganran ar gyfer rhannu costau adeiladu rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn gywir, gan y bydd hyn yn dibynnu ar y ffordd mae pob corff cyhoeddus yn rheoli contractau. Oherwydd mai ar y sector cyhoeddus y bydd y dyletswyddau caffael yn cael eu rhoi, rydym yn tybio y byddai'r sector cyhoeddus yn ysgwyddo 75% o'r gost uwch hon am adnoddau rheoli contractau, ac y byddai'r sector preifat yn ysgwyddo 25%. Mae hyn yn cyfateb i gostau blynyddol o £3,879,825 i'r sector cyhoeddus a £1,293,275 i'r sector preifat.
403. Byddai'n rhaid i awdurdodau contractio a'r sector preifat fabwysiadu dull gweithredu newydd ar gyfer archwilio ymddygiad cadwyni cyflenwi hefyd. Rydym yn gweithio gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant adeiladu i nodi sut gellir bwrw ymlaen â hyn a lleihau'r costau a'r baich gweinyddol cymaint â phosibl. Gallai hwn fod yn faes lle y gallai caniatáu achrediad trydydd parti roi'r ateb gorau, fel y dull gweithredu sydd wedi ennill ei blwyf ym maes iechyd a diogelwch. Byddai hyn yn golygu costau suddedig ychwanegol mewn prosesau tendro a/neu gyflawni contractau, na ellir eu mesur ar hyn o bryd.

Manteision

404. O ran unrhyw ganlyniadau polisi newydd sydd i'w cyflawni drwy gaffael cyhoeddus yn y dyfodol, mae'r opsiwn hwn yn cynnwys Opsiwn 2 ac felly byddai'n cyflwyno modd iddynt gael eu hasesu i'w cynnwys mewn canllawiau statudol. Mae llawer o'r polisiâu a fydd yn destun y canllawiau statudol eisoes wedi ennill eu plwyf ac felly efallai na fydd yr opsiwn hwn yn cynrychioli newid cyfeiriad sylweddol i ymarferwyr caffael cyhoeddus ond bydd meysydd i'w datblygu, yn enwedig o ran amcanion amgylcheddol a gwaith teg. Mae'n cynrychioli newid i symleiddio ymrwymadau presennol a chyflwyno proses ar gyfer ystyried cynnwys amcanion newydd yn y dyfodol yng nghyd-destun partneriaeth gymdeithasol.

405. Oherwydd yr angen a ragwelir am gynllunio caffael ymlaen llaw a sefydlu sail gyfreithiol dros fanteisio ar bŵer caffael cyhoeddus i gyflawni canlyniadau polisi, byddai hyn yn helpu i wneud caffael cyhoeddus yn swyddogaeth strategol, sef uchelgais a nodwyd gan ein rhanddeiliaid.
406. Byddai hyn yn rhoi rôl fwy cadarn i'r proffesiwn yn cyflawni polisiau ac yn craffu, a hynny'n unol â'r adborth gan rhanddeiliaid ac argymhelliad penodol yn Adolygiad McClelland yn 2012, *Gwneud y Gorau o Bolisi Caffael Cymru*⁹² ar gyfer "dyletswydd orfodol i gyrff a ariennir fabwysiadu polisi caffael Llywodraeth Cymru [a] ddylai gynnwys cyflawni manteision ehangach yr effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol." Mae'r argymhelliad hwn wedi cael ei ailadrodd mewn nifer o adroddiadau mwy diweddar.
407. Byddai Opsiwn 3 yn rhoi rhagor o bŵer i gaffael er mwyn helpu i gyflawni yn erbyn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, yr agenda datgarboneiddio, ac amcanion llesiant cyrff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
408. Byddai manteision yn gysylltiedig â chanllawiau statudol, fel y nodir yn Opsiwn 2, hefyd yn codi.
409. Byddai'r dyletswyddau rheoli contractau arfaethedig yn cynrychioli'r tro cyntaf yn y DU i ddyletswyddau o'r fath gael sail statudol. Byddai hyn, mewn cyflwr sefydlog, yn lleihau rhai o'r risgiau a achosir gan ddiffyg tryloywder mewn cadwyni cyflenwi yn sylweddol. Byddai hefyd yn rhoi rhagor o allu i awdurdodau contractio ymchwilio i ymddygiad cadwyni cyflenwi. Byddai hyn o fudd i gyflenwyr preifat/trydydd sector drwy roi mwy o hyder eu bod nhw, a'u cystadleuwyr, yn gorfod cyflawni rhwymedigaethau cytundebol cytunedig.
410. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn rhoi sail statudol i God Ymarfer (Dwy Haen) y Gweithlu am y tro cyntaf, a fyddai'n sicrhau bod yn rhaid i awdurdodau contractio gydymffurfio â'r dyletswyddau o dan y Bil.
411. Byddai canlyniadau seiliedig ar ddata sy'n deillio o'r broses adrodd flynyddol a'r gwasanaeth adborth newydd yn darparu tystiolaeth o allu caffael cyhoeddus i sicrhau manteision real a diriaethol i ddinasyddion ac economi Cymru, ac yn darparu llinell sylfaen werthfawr ar gyfer asesu'r dirwedd caffael cyhoeddus yng Nghymru.
412. Er enghraifft, rhai o ddisgwyliadau rhesymol caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol fyddai cynnydd yn y gwariant gyda busnesau bach a chanolig yng Nghymru, llai o allyriadau drwy weithgareddau cadwyni cyflenwi, a chyflawni canlyniadau llesiant yn fwy drwy weithgareddau masnachol.
413. Gellid defnyddio'r adroddiad blynyddol arfaethedig, i'w baratoi gan Weinidogion Cymru, i sefydlu ffactorau llwyddiant hanfodol ar gyfer gwelliant parhaus caffael cyhoeddus yng Nghymru. Byddai'r rhain yn cael eu defnyddio i bennu meysydd ymyriadau polisi y gellid eu cynnig gan Lywodraeth Cymru a'u goruchwyllo gan Gyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol. Yn ogystal â darparu meysydd i'w datblygu yn y tymor byr mewn awdurdodau contractio unigol, gallai'r rhain ddarparu sail

dystiolaethol ar gyfer datblygu blaenoriaethau polisi tymor hir i'w cyflawni gan Lywodraeth Cymru.

414. Yn yr un modd, byddai archwiliadau dirybudd a gynhelir gan y gwasanaeth adborth newydd yn helpu i sicrhau bod polisiau'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ac yn sbarduno ymyriadau priodol hefyd.

Tabl 6: Crynodeb o'r costau ar gyfer Opsiwn 3

Crynodeb o'r costau (£)	
Trosiannol	
Tabl 5.1	37,200 – wedi'i gynnwys yn nhabl 5.4
Tabl 5.4	288,300*
Tabl 5.7	352,800
Cyfanswm y gost drosiannol	641,100
Blynyddol	
Tabl 5.2	8,100
Tabl 5.3	303,600
Tabl 5.5	101,100
Tabl 5.6	215,900
Tabl 5.9	59,600
Costau rheoli contractau adeiladu	5,173,100
Cyfanswm y gost flynyddol	5,861,400

*yn cynnwys dau ddarn ychwanegol o ganllawiau o dan Opsiwn 3 a £50,000 ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â drafftio cymalau

415. Felly, yr amcangyfrif o'r gost gweithredu ar gyfer yr opsiwn hwn yw **£641,100**, a'r amcangyfrif o'r gost flynyddol yw **£5,861,400**.

Opsiwn a Ffefrir

416. Opsiwn 3 sy'n sicrhau'r mwyaf o fanteision ac mae'n cynnwys mecanweithiau ar gyfer mesur canlyniadau ac adrodd arnynt, ac ar gyfer ysgogi cydymffurfedd.

Gan fod Opsiwn 3 yn cynnwys Opsiwn 2, mae hefyd yn cynnig yr un manteision ag Opsiwn 1 yn gyffredinol, a hynny o ganlyniad i'r potensial ar gyfer symleiddio ymrwymadau sy'n bodoli eisoes a lleihau'r gorgyffwrdd. Mae costau Llywodraeth Cymru ar gyfer Opsiwn 2 wedi'u cynnwys i raddau helaeth yng nghynlluniau cyllideb presennol Cyfarwyddiaeth Caffael Masnachol Llywodraeth Cymru, gyda chostau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo gan awdurdodau contractio drwy effeithiau canlyniadol gwaith ychwanegol. Fodd bynnag, dylid nodi y byddai cyddrefnu'r cylch adrodd a gwybodaeth â'r hyn sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn gallu lleihau'r ffigur hwn. Mae Opsiwn 1 yn cadw'r lefel bresennol o ymgysylltiad polisi ond yn colli cyfle sylweddol i roi sail statudol i'r newidiadau angenrheidiol, i ddarparu cydlyniant go iawn rhwng meysydd polisi sy'n perthyn yn agos, ac i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau.

417. Byddai'r rhan fwyaf o'r baich gweinyddol ychwanegol i awdurdodau contractio ac unrhyw gostau cysylltiedig yn codi drwy ddilyn arferion da, y mae llawer ohonynt eisoes wedi'u nodi yn y canllawiau, ac ymgymryd â diwydrwydd dyladwy sy'n gysylltiedig ag arferion busnes moesegol. Bydd hyn yn arbennig o wir pan fydd y canllawiau statudol wedi'u sefydlu. Mae'n anodd asesu i ba raddau nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd, ac felly mae'n anodd cyfrifo'r costau ychwanegol posibl.
418. Byddai'r canllawiau statudol sy'n deillio o'r ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol a phob mecanwaith cymorth polisi sydd ar gael yn cyfrannu cymaint â phosibl at leihau llwyth gwaith a dyblygu i fusnesau, ac i fusnesau bach a chanolog yn arbennig.
419. Byddai Opsiwn 3 yn hybu cydymffurfedd â'r ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol drwy graffu ar unrhyw sefydliadau sy'n methu cydymffurfio â'r strategaeth caffael gyffredinol a'r dyletswyddau adrodd dro ar ôl tro, a drwy ddatgelu'r sefydliadau hyn yn gyhoeddus yn y pen draw, ac adrodd am eithriadau mewn cysylltiad ag achosion lle nad yw sefydliadau'n cynnwys cymalau cymdeithasol gyfrifol mewn contractau, neu'n peidio â rheoli cadwyni cyflenwi a chontractau'n ddigonol.

Pennod 9 – Aseidiadau effaith

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

420. Er na chynhaliwyd asesiad effaith llawn oherwydd penderfynwyd, ar yr adeg hon, na ellid mesur yr effeithiau, mae'r Bil wedi ymrwmo i fesur yr effeithiau ar hawliau plant ar ôl i'r Bil gael ei weithredu drwy werthuso mecanweithiau adrodd yn y Bil.
421. Mae'r diwygiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn golygu y bydd angen i'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf ystyried sut y gall gwaith teg gyfrannu at eu hamcanion llesiant yn gyffredinol, ac yn benodol y ffordd maent yn ceisio cyflawni'r nod llesiant 'Cymru lewyrchus'. Dim ond yn anuniongyrchol y bydd hyn yn cael effaith ar blant o dan 16 oed. Mae potensial ar gyfer effaith uniongyrchol ar bobl ifanc 16–18 oed sydd mewn gwaith neu sy'n chwilio am waith. Y rheswm dros hyn yw y bydd y cyrff cyhoeddus hynny sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf Llesiant yn ystyried pa weithgareddau y gallant eu cynnal i hyrwyddo gwaith teg wrth gyflawni'r nodau llesiant. Gallai hyn gynnwys gweithgaredd sy'n cyfrannu at ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith a'r effaith y bydd hyn yn ei chael hwnnw ar dlodi plant. Yn ogystal, gallai arwain at hyrwyddo rhagor o hyblygrwydd ar gyfer gweithwyr sy'n gwella gallu gweithwyr i gyfuno gwaith â chyfrifoldebau gofalu am blant.
422. Bydd y dyletswyddau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn cynyddu diwydrwydd dyladwy yng nghadwyn gyflenwi awdurdodau contractio ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau llafur plant a chamfanteisio mewn cadwyni cyflenwi, gan gynnwys y rhai sy'n ymestyn dramor. Er y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol, nid oes modd mesur maint yr effaith ar hyn o bryd gan ei bod yn amhosibl gwybod i ba raddau y bydd y dyletswyddau'n atal y camfanteisio sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd rhag parhau.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

423. Mae'r diwygiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn golygu y bydd angen i'r cyrff hynny sy'n ddarostyngedig iddi ystyried sut y gall gwaith teg gyfrannu at eu hamcanion llesiant yn gyffredinol ac yn benodol yr hyn maent yn ei wneud i gyflawni'r nod llesiant 'Cymru lewyrchus'. Yn y cyd-destun hwn, gall ystyried gwaith teg gynnwys gweithredu helaeth ar draws sbectrwm eang o feysydd, gan gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithlu. Felly, gall sefydliadau ystyried, ymhlith pethau eraill, weithgareddau eraill wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth, gwella'r adrodd am fylchau cyflog ar sail rhyw, hil ac anabledd a chymryd camau i leihau a dileu'r bylchau hynny. Byddai camau o'r fath hefyd yn cyd-fynd â'r Gerrig Filtir Genedlaethol mewn perthynas â 'dileu'r bylchau cyflog ar sail rhyw, ethnigrwydd ac anabledd erbyn 2050'.
424. Bydd y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a'r ddyletswydd caffael cyhoeddus yn rhoi cyfle i gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig er mwyn ystyried yn llawn gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ystod y cam dylunio. Ar gyfer y ddyletswydd caffael cyhoeddus bydd hyn yn digwydd cyn

cynnal proses gaffael, yn ystod ymarfer caffael – er enghraifft wrth fynd i'r afael â rhagfarn ddiarwybod, a hefyd wrth fesur canlyniadau, er enghraifft bylchau cyflog, lle bo hynny'n briodol. Mae gan y ddyletswydd rheoli contractau ar gyfer contractau adeiladu mawr y potensial i gael effaith gadarnhaol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau sefydlu (a monitro perfformiad yn erbyn) cymalau contract drwy gadwyni cyflenwi cyfan a fydd yn darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl iau, pobl hŷn, pobl ddi-waith hirdymor, pobl ag anabledau neu bobl sydd o dan anfantais arall. Bydd y broses adrodd flynyddol ar gyfer pob ddyletswydd yn y bill yn caniatáu adrodd am unrhyw fanteision mesuradwy, er enghraifft drwy ddefnyddio'r dull mesur Buddion Cymunedol, mewn perthynas ag effeithiau ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig.

Dull Sgrinio'r Effaith ar Iechyd

425. Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith uniongyrchol ar iechyd pobl yn codi o ganlyniad i'r cynigion hyn. Fodd bynnag, gall partneriaethau cymdeithasol a gwaith teg helpu i greu amgylcheddau gwaith iach. Mae'r newidiadau hyn yn ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, ac atal problemau parhaus fel anghydraddoldebau o ran iechyd.
426. Gall gwaith annheg gael effaith andwyol ar iechyd corfforol a meddyliol, a gall gwaith teg, i'r gwrthwyneb, arwain at fanteision iechyd cadarnhaol. Mae gan bob gweithiwr yr hawl i fod yn ddiogel ac yn iach yn y gwaith, ac fel rhan o'n polisïau gwaith teg, rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig i weithwyr dderbyn gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant priodol a sicrhau bod llais gweithwyr yn cael ei glywed fel bod cyflogwyr yn gwneud addasiadau priodol. Bydd y Bil yn helpu i annog gyrff cyhoeddus i ystyried materion o'r fath.

Y Dull Sgrinio Cyfiawnder

427. Mae Asesiad Llawn o'r Effaith ar Gyfiawnder wedi cael ei gynnal, a'r casgliad yw:

- Mae achosion o ymgyfreitha sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn yn debygol o fod yn brin, gan fod y mesurau gorfodi yn y Bil yn canolbwyntio ar dryloywder a bod yn agored yn hytrach na sancsiynau.

Fodd bynnag:

- Mae potensial i ymgyfreitha godi o dan y gofyniad i 'gyrff cyhoeddus penodol gyflawni dyletswyddau rheoli contractau i sicrhau bod canlyniadau sy'n gymdeithasol gyfrifol yn cael eu ceisio drwy gadwyni cyflenwi cyfan'.
- Ym mhob un o'r meysydd hyn, mae mesurau presennol ar waith drwy wahanol gyrff gorfodi sy'n bodoli at y diben hwn.
- Nid yw achosion yn debygol o gynyddu'n sylweddol o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon, a'i diben yw cynyddu tryloywder ac felly gweithredu fel rhwystr i sefydliadau a allai geisio cuddio arferion nad ydynt yn cydymffurfio mewn cadwyni cyflenwi yn y sector cyhoeddus.

428. Nid yw'r Bil yn creu nac yn addasu troseddau nac yn gosod unrhyw system o orfodi sifil. Yr unig ymgyfreitha posibl yw adolygiad barnwrol o gyrrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i ofynion o dan y Bil. Felly, prin iawn yw nifer yr achosion llys sy'n debygol o godi o ganlyniad i'r Bil.
429. Yr unig ddull cyfreithiol o orfodi fydd drwy adolygiad barnwrol. Darperir ar gyfer mathau gwahanol eraill o orfodi nad ydynt yn gyfreithiol rwymol gan y Bil ei hun (e.e. gofynion adrodd) ond ni fydd yr un o'r rhain yn cael effaith ar y system gyfiawnder.
430. Bydd y trefniadau partneriaeth gymdeithasol statudol y mae'r Bil yn eu creu yn galluogi tryloywder a chraffu 'human-blismona', fel y prif ffordd o ysgogi cydymffurfiaeth. Bydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn cynghori Gweinidogion Cymru ar arfer y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol. Mae'n bosibl yn ddamcaniaethol, mewn perthynas â materion caffael, y gallai'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ganfod achosion o arfer anghyfreithlon, gan arwain at gamau gorfodi a allai wedyn arwain at ymgyfreitha. Fodd bynnag, byddai ymgyfreitha o'r fath yn canfod camweddau presennol yn hytrach na chreu, drwy ddeddfwriaeth, bosibiliadau newydd ar gyfer ymgyfreitha a fyddai, yn ei dro, yn cynyddu'r baich ar y system gyfiawnder. Beth bynnag, mae effaith canfod pethau o'r fath ar y system gyfiawnder, hyd yn oed pe bai hynny'n digwydd, yn debygol o fod yn fach iawn.

Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg

431. Mae iaith Gymraeg sy'n ffynnu a chymunedau cydlynol ymhlith y nodau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
432. Mae'r Bil yn helpu i hyrwyddo a chael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru drwy bartneriaeth gymdeithasol, drwy annog cydweithredu rhwng cyflogwyr ac undebau llafur, o fewn sefydliadau, o fewn sectorau ac â'r Llywodraeth, ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu. Gallai hyn gynnwys hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac wrth ddarparu ein gwasanaethau cyhoeddus. Mae llawer o'r cyrrff sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau yn y Bil hefyd yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru). Ni fydd y Bil yn effeithio ar yr angen i'r cyrrff gydymffurfio â'r Safonau.
433. Roedd ymatebwyr i'r Papur Gwyn o'r farn y gallai'r cynigion gael effaith gadarnhaol, yn hytrach na negyddol, ar y Gymraeg ac y byddent yn disgwyl i'r Gymraeg fod yn rhan o'r cydweithio a'r gwaith partneriaeth effeithiol y mae'r Bil yn ceisio eu sicrhau.
434. Bydd canllawiau statudol sy'n cefnogi'r dyletswyddau caffael cyhoeddus yn y Bil hefyd yn rhoi cyfle i ymgorffori'r arferion gorau wrth ddatblygu manylebau a chynllunio ymarferion caffael er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Ymchwilir i gyfleoedd i gasglu ac adrodd am ddata ar y Gymraeg drwy gaffael ac, ynghyd â rhannu astudiaethau achos, byddant yn

helpu i estyn yr arferion gorau – yn enwedig mewn meysydd lle mae data'n awgrymu bod capasiti a gallu cyfyngedig yn achosi problemau.

435. Drwy uwchsgilio siaradwyr Cymraeg a darparu canllawiau a dogfennau caffael yn ddwyieithog byddwn yn cyfrannu at ddatblygu seilwaith caffael mwy cyson, wedi'i safoni, sy'n sicrhau arferion caffael cyhoeddus gwell.
436. Bydd hyrwyddo'r Gymraeg yn cael ei ystyried o dan y categorïau diwylliannol ac economaidd o fewn y ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol.

Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth

437. Ar ôl ystyried y cynigion yn erbyn blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol, nodir effaith gadarnhaol posibl.
438. Mae asesiad llawn o'r effaith y gall caffael ei chael ar fioamrywiaeth wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Adfer Natur Llywodraeth Cymru⁹³. Mae hyn yn nodi y byddwn yn cryfhau'r ffordd rydym yn defnyddio'r Asesiad Risg Cynaliadwyedd ar hyn o bryd lle mae ymarferwyr, fel rhan o'r broses cynllunio caffael, yn cael eu hannog i ystyried – a chofnodi unrhyw benderfyniadau – eu heffaith ar fioamrywiaeth, gan gynnwys o ble mae deunyddiau'n dod a sut maent yn cael eu caffael. Mae ein dull yn pwysleisio pwysigrwydd yr Asesiad Risg Cynaliadwyedd fel offeryn ar gyfer caffael a datblygu cynaliadwy, ymgorffori hyfforddiant, arweiniad a chymorth i ymarferwyr wrth ei ddefnyddio, a defnyddio'r rhaglen gwiriadau ffitrwydd arfaethedig i fonitro defnydd a pherfformiad.
439. Byddwn hefyd yn ailadrodd ac yn cefnogi'r arferion gorau ym maes caffael sy'n amgylcheddol gynaliadwy drwy ein canllawiau statudol. Gofynnir am gyngor arbenigol wrth i ganllawiau gael eu cynhyrchu i sicrhau bod y datblygiadau a'r offerynnau polisi diweddaraf yn cael eu hadlewyrchu ynddynt. Bydd y broses adrodd flynyddol yn y Bil yn sicrhau bod metrigau perthnasol yn cael eu casglu a bod adroddiadau'n cael eu llunio ar y rhain.
440. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cynnwys cymalau caffael cymdeithasol gyfrifol mewn contractau adeiladu sydd â gwerth amcangyfrifedig o dros £2 miliwn (gan gynnwys TAW). Mae'r bil yn cynnwys y categorïau y bydd y cymalau hyn ynddynt, a'r disgrifiad o Gategori 6 yw 'Ei gwneud yn ofynnol i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, a diogelu neu wella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth'. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod union eiriad y cymal hwn yn cael ei adolygu ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Bydd cymalau'n cael eu cynnwys mewn canllawiau statudol.
441. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau sy'n ymgymryd â phrosiectau gwaith sydd dros y trothwy hwn hysbysu Gweinidogion Cymru os nad ydynt yn bwriadu cynnwys y cymalau hyn. Bydd y sail resymegol a roddir yn cael ei hasesu ac mae'n bosibl y bydd Gweinidogion yn cymryd camau pellach.
442. Bydd gofynion adrodd blynyddol o fewn y dyletswyddau caffael yn y Bil yn caniatáu i ddata o'r sector cyhoeddus yng Nghymru gael ei gasglu a'i

ddadansoddi, er mwyn monitro canlyniadau mewn perthynas â disgwyliadau polisi. Os nodir meysydd gwan penodol, mae'r Bil yn rhoi pwerau ymchwilio i Weinidogion, gan ganiatáu iddynt ofyn am ragor o wybodaeth a chymryd camau.

DRAFT

Pennod 10 – Asesu'r Gystadleuaeth

443. Ar hyn o bryd, mae cyfraith caffael y DU yn deillio o drosi Cyfarwyddbau'r UE yn uniongyrchol, gyda'r bwriad o agor marchnadoedd. Mae'r gyfraith hon wedi cael ei diwygio gan Offeryn Statudol Ymadael â'r UE, ac mae'n cael ei diwygio ymhellach ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU. Yng nghyd-destun Cymru, mae'r dirwedd caffael cyhoeddus hefyd yn seiliedig ar Ddatganiad Polisi Caffael Cymru, sy'n darparu deg egwyddor ar gyfer sicrhau llesiant sy'n cynnwys (ymhlith pethau eraill):

- Ysgogi caffael cydweithredol i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran gwerth cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy yn y tymor hir
- Codi statws a phroffil y proffesiwn caffael
- Blaenoriaethu lleihau allyriadau carbon a'n huchelgais ar gyfer sector cyhoeddus sero net
- Cefnogi datblygu'r economi sylfaenol a'r economi gylchol
- Hyrwyddo cyfle cyfartal a gwaith teg
- Gwella'r broses o integreiddio atebion digidol a phrofiad defnyddwyr ohonynt

444. Yn ogystal ag ategu'r datganiad polisi hwn, nod y dyletswyddau caffael cyhoeddus yn y Bil hwn yw manteisio ar y dylanwad a gynigir gan weithgareddau masnachol yng Nghymru i gefnogi datblygu economaidd yn genedlaethol ac yn lleol, i symleiddio profiad y sector preifat o ddelio â chaffael cyhoeddus, a chefnogi busnesau bach er mwyn sicrhau canlyniadau llesiant a gwella gwasanaethau cyhoeddus. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Asesu Cystadleuaeth yn cynnwys prawf hidlo. Y cwestiynau canlynol yw'r mwyaf perthnasol yn y cyd-destun hwn. Rhoddir atebion.

A: A fyddai costau rheoleiddio'n effeithio ar rai cwmnïau yn fwy nag eraill?

445. Byddai mabwysiadu'r opsiwn a ffefrir yn cryfhau arferion da ym maes caffael cyhoeddus, yn lleihau biwrocratiaeth a dyblygu yn y broses caffael, ac yn cynyddu tryloywder a symlrwydd, a ddylai ei gwneud yn haws i gyflenwyr gystadlu. Dylai hefyd greu amgylchedd mwy sicr, sy'n lleihau'r risg i fusnes ac yn gwella cystadleurwydd o ganlyniad i orfodi safonau contractiol drwy reoli contractau. Os ydynt yn cael eu defnyddio'n gywir, dylai'r mesurau yn y Bil helpu cwmnïau o Gymru i ddod yn fwy cystadleuol.

B: A yw'r rheoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau?

446. Nid yw'r Bil yn newid egwyddor bwysig cystadleuaeth agored, dryloyw a hygyrch sy'n sail i dirwedd caffael cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn rhan o'r

rheoliadau sy'n llywodraethu prosesau caffael eu hunain, a amlinellir ar hyn o bryd yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 a Chontractau Consesiynau 2016. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cael ei diwygio ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU a bydd yn cwmpasu awdurdodau contractio Cymru.

C: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer darpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?

447. Nid yw'r dyletswyddau hyn yn berthnasol yn uniongyrchol i gyflenwyr. Bydd gofal yn cael ei gymryd wrth ddatblygu canllawiau statudol i sicrhau dull na fyddai'n effeithio'n anghymesur ar fusnesau bach.

D: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau rheolaidd uwch ar gyfer darpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?

448. Mae'n bwysig nodi nad yw'r ddeddfwriaeth hon yn effeithio ar gyflenwyr yn uniongyrchol; y bwriad yw y caiff cymesuredd ei gynnwys yn y canllawiau statudol sy'n cefnogi'r Bil hwn i sicrhau bod y disgwyliadau a roddir ar gwmnïau llai yn rhesymol.

Materion trawsffiniol

449. Er ei bod yn bosibl y bydd rhai pryderon ynghylch materion trawsffiniol yn codi o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon, nid ydynt yn debygol o fod yn arwyddocaol pan fydd y dyletswyddau hyn yn cael eu gosod, oherwydd byddai'r un gofynion yn cael eu rhoi ar bob ymgeisydd ni waeth ble mae wedi'i leoli. Ar gyfer busnesau mwy neu'r rhai sy'n gweithredu ar draws ffiniau, caiff awdurdodau contractio yng Nghymru osod gofynion gwahanol arnynt o'u cymharu â'r rhai yn Lloegr ond mae hynny eisoes yn digwydd i ryw raddau.

450. Ar wahân i achosion lle mae llawer mwy o ddiwydrwydd dyladwy yn berthnasol i dryloywder cadwyni cyflenwi a chynnal safonau prosesau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol, ni ddylai hyn arwain at oblygiadau cost sylweddol i fusnesau'n gyffredinol, a byddai busnesau llai'n cael dewis derbyn y gofynion a chystadlu am gontract neu beidio.

451. Dylid nodi, fodd bynnag, er y byddai cyflwyno prosesau newydd i sicrhau bod cymalau contractau yn cael eu dilyn a rhagor o ddiwydrwydd dyladwy a threfniadau rheoli contractau mwy cadarn, wrth gwrs, yn arwain at faich gweinyddol a chostau i ryw raddau yn y tymor byr, yn y tymor canolig i'r hirdymor mae'n bosibl y bydd y rhain yn helpu i wneud cwmnïau yng Nghymru yn fwy cystadleuol wrth gynnig am gontractau cyhoeddus yng Nghymru a'r DU.

Trothwyon ymgeisio

452. Mae gosod trothwyon ar gyfer caffael cyhoeddus a reoleiddir yng nghyd-destun Cymru wedi cael ei ystyried yn ofalus. Mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw drothwyon yn gymesur ac yn gyflawnadwy, oherwydd byddai gan awdurdodau contractio lai o reolaeth dros gontractau islaw gwerth penodol, a llai o wybodaeth

reoli amdanynt. Hefyd, mae'n anghymesur gofyn am gynnal asesiadau manwl ar gyfer contractau lefel isel lle byddai'r baich gweinyddol yn drech na'r manteision posibl. Yn ogystal â hynny, os yw'r trothwyon yn cael eu gosod yn rhy isel, mae'n bosibl y bydd rhaid i awdurdodau ofyn i fusnesau bach a chanolig ymateb i ymarferion tendro sy'n anghymesur o lafurus a drud, a chyflawni canlyniadau afrealistig. Mae data presennol yn awgrymu bod busnesau yng Nghymru, y mae llawer ohonynt yn fusnesau bach a chanolig, ar hyn o bryd yn ennill tua 52% o wariant contractau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar god post cyfeiriadau ar anfonebau, felly mae'n bosibl nad yw'n adlewyrchu darlun cywir. Mae busnesau bach a chanolig hefyd yn cynrychioli rhan enfawr o economi Cymru (gan gyfrif am 62.4% o gyflogaeth a 99.4% o'r holl fusnesau yng Nghymru yn 2019), gyda micro fusnesau (busnesau â naw cyflogai neu lai) yn cyfrif am 33.4% o gyflogaeth ar eu pen eu hunain.

453. Os bydd adolygiadau ôl-weithredu yn y dyfodol yn dangos naill ai fod cyfleoedd yn cael eu colli neu fod effaith anghymesur ar fusnesau bach a chanolig neu sectorau penodol o ganlyniad i'r trothwyon, mae darpariaeth wedi cael ei gwneud i Weinidogion Cymru addasu'r gwahanol drothwyon yn ôl yr angen.

454. Er mwyn symleiddio'r gofynion ar awdurdodau contractio yng Nghymru, cynigir bod y trothwyon a osodir yn y ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol hon yn cael eu gosod mewn rheoliadau a'u cysylltu â throthwyon ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau sydd eisoes yn gyfarwydd i'r sefydliadau dan sylw. Mae'r trothwyon presennol yn amrywio yn ôl y math o awdurdod contractio a sector marchnad. Mae'r trothwyon hyn yn deillio o Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael gan Lywodraethau, sy'n cael ei ddiwygio bob dwy flynedd. Byddant yn parhau i ddilyn y Cytundeb hwn ac yn cael eu hadolygu bob dwy flynedd. O fis Ionawr 2020 maent fel a ganlyn (mae'r ffigurau hyn wedi cael eu talgrynnu):

Tabl 6: Trothwyon ar gyfer cymhwys Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015

Math o gorff	Trothwy Contractau ar gyfer Cyflenwadau neu Wasanaethau (£)	Trothwy ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Eraill (y drefn ymyrraeth isel) (£)
Cyrff Llywodraeth Ganolog (y cyrff hynny sy'n dod o dan Gytundeb Sefydliad y Byd ar Gaffael gan Lywodraethau)	123,000	664,000
Sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus (e.e. llywodraeth leol)	189,000	664,000
Cyfleustodau	379,000	885,000

455. Mae'r Bil yn diffinio categori o gontractau a elwir yn 'gontractau rhagnodedig'. Yn ymarferol, bydd y rhain yn gontractau allanol o unrhyw faint, contractau mawr sy'n gysylltiedig ag adeiladu (gwaith), a chaffael ar gyfer cyflenwyr a gwasanaethau sy'n uwch na throthwy a bennir mewn rheoliadau. Mae Llywodraeth y DU wedi cynyddu'r ffigurau uchod i gyfrif am TAW.
456. Y bwriad yw cadw'r trothwyon yn y Bil hwn mor syml â phosibl, a'u cysylltu â'r trothwyon presennol a ddefnyddir ar gyfer caffael ar hyn o bryd. Ar gyfer contractau adeiladu, mae'r trothwy o £2 miliwn (gan gynnwys TAW) wedi cael ei gynnwys, sydd yr un fath â'r trothwy yn yr Alban, er ei fod yn cynnwys addasiad ar gyfer TAW, ac mae hefyd yn cyfateb i drothwy a ddefnyddir yng Nghymru ar gyfer gosod cymalau budd cymunedol mewn contractau adeiladu. Mae'r trothwy is hwn, o'i gymharu â'r trothwy a bennir yn y Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau, yn seiliedig ar bwysigrwydd mynd i'r afael â chaffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol. Y rheswm dros hyn yw ei fod yn cyfrif am gyfran fawr o wariant cyhoeddus. Mae cadwyni cyflenwi yn hir ac yn gymhleth, ac yn aml y sefydliadau llai ymhellach i lawr cadwyni cyflenwi sy'n cael yr effaith fwyaf ar ganlyniadau sy'n gymdeithasol gyfrifol.

Pennod 11 – Adolygiad Ôl-weithredu

457. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fonitro ac adolygu'r ffordd mae'r Bil hwn yn cael ei weithredu, ac effeithiau ei ddarpariaethau yn y cyfnod ar ôl gweithredu. Yn unol â darpariaethau'r Bil, bydd Gweinidogion Cymru yn gosod gerbron y Senedd adroddiad ar effaith y Bil a'r ffordd mae wedi cael ei weithredu ar ddiwedd cyfnod o bum mlynedd. Bydd hyn yn cynnwys gwerthusiad ffurfiol gan ddefnyddio data presennol a dulliau gwerthuso pwrpasol gan ymchwilyr a gomisiynir yn allanol.
458. Fel rhan o'r broses ymgynghori, gofynnwyd i ddadansoddwyr yng Ngwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) Llywodraeth Cymru lunio ddamcaniaeth newid fel sail ar gyfer gwerthusiad ymlaen llaw o'r Bil. Wrth ddatblygu'r ddamcaniaeth newid bydd swyddogion mewnol Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol perthnasol yn cymryd rhan mewn cyfres o dri gweithdy. Bydd pob un o'r gweithdai yn cwmpasu pedair brif elfen y Bil: partneriaeth gymdeithasol, y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol ac, i raddau llai, gwaith teg. Yn ystod y gweithdai, bydd y rhai sy'n bresennol yn rhoi eu safbwyntiau ar ganlyniadau'r Bil y cytunwyd arnynt, y risgiau a chanlyniadau anfwriadol yr ymyriadau arfaethedig a'r ffyrdd i ddangos tystiolaeth o'r canlyniadau hyn.
459. O'r tri gweithdy, caiff pedwar model rhesymeg eu creu. Bydd pob model rhesymeg yn cynrychioli'r rhesymeg dros ymyrryd ar gyfer elfennau'r Bil uchod, gyda darlun o'r gydberthynas rhyngddynt. Rhagwelir y caiff y modelau rhesymeg hyn eu defnyddio yn sail i werthuswyr allanol gynllunio gwerthusiad canol tymor neu derfynol o'r Bil yn ystod y cyfnod ôl-weithredu.
460. Bydd canfyddiadau o'r ddamcaniaeth newid yn cael eu cyhoeddi mewn adroddiad ar dudalennau gwe ystadegau ac ymchwil Llywodraeth Cymru yn ystod haf 2023. Wedi'i lunio gan ymchwilyr cymdeithasol yn KAS, bydd yr adroddiad yn cynnwys y modelau rhesymeg wedi'u cwblhau, awgrymiadau ynghylch defnyddio metrigau data i ddangos canlyniadau a ragwelir gan y Bil, ac argymhellion ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd y Bil a'r ffordd mae'n cael ei weithredu. Bydd y contractwyr a benodir yn cadarnhau cynllun methodolegol llawn ar gyfer y gwaith gwerthuso ôl-weithredu maes o law, pan fydd manylion y Bil a'r ffordd y bydd yn cael ei weithredu wedi'u cadarnhau.
461. Mae diwygio nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, i gynnwys cyfeiriad at waith teg, yn golygu bod y fframwaith gwerthuso a sefydlwyd o dan y Ddeddf honno yn gallu cael ei ddefnyddio i adolygu pa mor effeithiol mae sefydliadau'n arfer y ddyletswydd llesiant yn unol â'r nodau diwygiedig drwy ddangosyddion llesiant cenedlaethol. Gall y dangosyddion hyn fesur cynnydd tuag at y nodau llesiant ar lefel genedlaethol a gellir ymdrin â nhw ar wahân hefyd i fesur cynnydd tuag at amcanion llesiant ar lefel leol. Bydd mecanweithiau adrodd ar gyfer y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a'r ddyletswydd caffael cyhoeddus hefyd yn ystyried cynnydd o ran sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl i'r nodau llesiant diwygiedig, gyda'r data yn cael eu hadrodd o dan y ddau ddarn o ddeddfwriaeth a rennir er mwyn helpu i gryfhau'r gwerthusiad. O dan y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, bydd hyn yn golygu y bydd cyrff

cyhoeddus sy'n adrodd yn flynyddol i'r CPG yn nodi sut y maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Cyflwynir yr adroddiadau hyn i'r SPC fel y gallant graffu arnynt. Ar gyfer caffael cyhoeddus, mae canlyniadau sy'n gymdeithasol gyfrifol (gan gynnwys gwaith teg) yn gysylltiedig â nodau'r Ddeddf Llesiant yn ganolog i strategaethau a phrosesau caffael.

Data ac Ystadegau

462. Mae pob un o dair elfen y Bil yn gysylltiedig â'i gilydd, a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu gan rywfaint o orgyffwrdd yng nghynnwys y pedwar model rhesymeg. Er enghraifft, er bod y nodau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol a chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn amcanion ynddynt eu hunain ac mae ganddynt eu canlyniadau penodol eu hunain, maent hefyd yn cyfrannu at wella canlyniadau gwaith teg. Bydd trawsgroesi hefyd rhwng yr CPG a'r modelau partneriaeth gymdeithasol. Er hynny, bydd y ffocws ar yr CPG yn y dadansoddiad o'r ddamcaniaeth newid yn ymwneud â'i swyddogaeth o ran ysgogi newidiadau allweddol a ragwelir o ganlyniad i'r Bil.
463. Rhagwelir mai'r ffordd orau o fesur rhai o'r canlyniadau y manylir arnynt yn y ddamcaniaeth newid, er enghraifft mewn perthynas â phartneriaeth gymdeithasol a newid ymddygiadol a diwylliannol, fydd drwy ddefnyddio dulliau ansoddol. Caiff hyn ei archwilio yn fanylach yn y gwerthusiad canol tymor neu'r gwerthusiad terfynol, er enghraifft, drwy defnyddio dull grwpiau ffocws a/neu astudiaethau achos i gasglu data.
464. Bydd ymchwil gyda'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector hefyd yn cael ei wneud yn y dyfodol i ddeall ymhellach sut mae partneriaeth gymdeithasol yn cael ei diffinio a'i gweithredu o fewn y sectorau hyn. Byddai ymchwil yn y dyfodol hefyd yna mesur y cynnydd wrth weithredu'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar ôl gweithredu'r Bil. Bydd angen ystyried ffactorau allanol wrth asesu effaith y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar gyflawni'r amcanion gwaith teg.
465. Gellid asesu effaith y Bil ar gyflawni'r canlyniadau ar gyfer caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys:
- Platformau hysbysebu caffael, megis Gwerthwchi Gymru, Caffael i Dalu Cymru Gyfan (GIG), a phethau cyfatebol eraill ar gyfer sectorau gwahanol;
 - Data Awdurdodau Lleol ar berfformiad a gwelliannau;
 - Y Platform Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi (TISC).
466. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried opsiynau ar gyfer datblygu atebion digidol presennol a newydd ar gyfer caffael a rheoli contractau. Mae hyn hefyd yn cysylltu â chynlluniau diwygio caffael Llywodraeth y DU. Bydd yn cymryd amser i nodi a datblygu atebion digidol. Y cam cyntaf yw nodi'r data mae angen ei gasglu.

467. Bydd KAS yn gwneud awgrymiadau ynghylch pa ddata y gellir ei gael o ba ffynonellau yn yr adroddiad Damcaniaeth Newid. Byddai data atodol hefyd yn cael ei gasglu fel rhan o werthusiad ffurfiol.

Gwerthusiad Ffurfiol

468. Fel dull systematig o ddatblygu prosiectau gwerthuso, gellid cynnal asesiad gwerthusadwyedd fel cam cynnar yn y broses adolygu ôl-weithredu. Gan adeiladu ar y dadansoddiad o'r ddamcaniaeth newid, byddai asesiad gwerthusadwyedd yn pennu'r tebygolrwydd o effaith fesuradwy yn y meysydd diddordeb cyn i adnoddau gael eu hymrwymo i werthusiad ar raddfa lawn. Byddai'r asesiad yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol gychwynnol o adolygiad o ffynonellau data presennol ac argymhellion o blaid ac yn erbyn gwahanol ddulliau gwerthuso, yn seiliedig ar ofynion tystiolaeth.

469. Rhagwelir y bydd gwerthusiad o'r effaith a gwerthusiad o brosesau, sy'n canolbwyntio ar y cyfnod gweithredu, yn cael eu cynnal gan gontractwyr allanol. Gall yr olaf fod ar ffurf gwerthusiad canol tymor ar adeg briodol yn ystod pum mlynedd cyntaf oes y Bil ar ôl iddo gael ei weithredu. Bydd KAS yn awgrymu amserlen werthuso, gyda manylion llawn methodoleg werthuso a gynigiwyd gan yr ymchwilwyr a benodir yn ddiweddarach. Bydd y gwerthusiad o'r effaith yn defnyddio data gweinyddol, data a gesglir drwy'r gofynion adrodd newydd a sefydlwyd gan y Bil, a chyfres o ddulliau gwerthuso pwrpasol. Disgwylir y bydd cyfnod sylfaenol yn cael ei gynnal er mwyn darparu data 'cyn' ar gyfer mesur cynnydd, yn ogystal ag asesiad o'r ffactorau allanol a allai effeithio ar fesurau lefel uchel ac ar fesur yr hyn y gellir ei briodol i'r Bil.

Atodiad 1

Nodiadau Esboniadol

BIL PARTNERIAETH GYMDEITHASOL A CHAFFAEL CYHOEDDUS (CYMRU)

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r nodiadau esboniadol hyn ar gyfer Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) fel y'i cyflwynwyd i Senedd Cymru ar 6 Mehefin 2022.
2. Fe'u lluniwyd gan Gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil. Nid ydynt yn rhan o'r Bil ac nid ydynt wedi eu cymeradwyo gan y Senedd. Dylid darllen y nodiadau ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono.
3. Ni fwriedir i'r nodiadau fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil. Pan fo adran neu ran o adran yn hunanesboniadol ac nad ymddengys bod angen rhoi esboniad neu wneud sylw pellach arni, nis rhoddir.

TROSOLWG CYFFREDINOL O'R BIL

4. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer fframwaith i hybu llesiant pobl Cymru drwy wella datblygu cynaliadwy (gan gynnwys drwy wella gwasanaethau cyhoeddus) drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cymdeithasol gyfrifol.

RHAN 1 - Y CYNGOR PARTNERIAETH GYMDEITHASOL

Adran 1 - Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru

5. Mae adran 1 yn sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru ("CPG") ac yn disgrifio ei swyddogaeth graidd ynghyd â'r dibenion y caiff arfer y swyddogaeth honno ar eu cyfer.
6. Swyddogaeth graidd yr CPG yw darparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â materion penodol. Mae'r swyddogaeth hon yn ehangach na chynghori Gweinidogion Cymru yn unig a gallai gynnwys creu neu ddarparu, ymhlith pethau eraill, ystadegau, crynodebau ffeithiol, copïau o ddogfennau (boed y rheini ar gael i'r cyhoedd ai peidio) ac yn y blaen. Nid oes unrhyw gyfyngiad penodol ar y math o wybodaeth neu gyngor y gall yr CPG ei darparu neu ei ddarparu.
7. Caiff yr CPG ddarparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru at ddibenion gwella'r pedwar math o lesiant (economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol) y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf

2015") yn eu hyrwyddo. Un elfen allweddol o hyn yw mabwysiadu egwyddorion partneriaeth gymdeithasol i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dibenion hyn yn fwriadol eang er mwyn adlewyrchu'r ystod eang o bynciau y bydd yr CPG yn eu trafod.

8. Yn ei hanfod, caiff yr CPG ddarparu gwybodaeth a chyngor ar y materion hynny y mae'r Bil yn ymdrin â hwy:
- (a) y dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol o dan Ran 2 o'r Bil;
 - (b) ymgyrredd at gyflawni nod llesiant "Cymru lewyrchus" gan gyrrff cyhoeddus wrth gyflawni datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf 2015;
 - (c) y swyddogaethau a roddir i awdurdodau contractio a Gweinidogion Cymru o dan Ran 3 (caffael cymdeithasol gyfrifol).

Mewn perthynas â (b), mae cylch gwaith yr CPG yn cynnwys "ymgyrredd at" nod "Cymru lewyrchus" gan bob corff y mae'n ofynnol iddo gyflawni datblygu cynaliadwy o dan adran 3 o Ddeddf 2015. Er enghraifft, gallai'r CPG ddarparu gwybodaeth neu gyngor i Weinidogion Cymru ynghylch gweithgarwch ganddynt i wella llesiant economaidd Cymru pe bai'r gweithgarwch hwnnw'n gysylltiedig â nod "Cymru lewyrchus".

9. Mae'r Bil yn darparu hyblygrwydd o ran yr hyn sy'n sbarduno cyngor gan yr CPG (gall yr CPG ddarparu cyngor ohono'i hun, neu ar gais Gweinidogion Cymru). Caiff yr CPG felly weithredu ar ei liwt ei hun os yw'n dod yn ymwybodol o bwnc y mae'n penderfynu y dylai ddarparu gwybodaeth neu gyngor yn ei gylch. Pan fo Gweinidogion Cymru yn ceisio gwybodaeth neu gyngor gan yr CPG, rhaid ei darparu neu ei ddarparu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Adran 2 - Aelodaeth Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru

10. Mae adran 2 yn darparu mai Prif Weinidog Cymru fydd yn cadeirio'r CPG fel arfer, ac y bydd yn cynnwys tri math o aelod - aelodau o Lywodraeth Cymru (a allai fod yn unrhyw un neu ragor o Weinidogion Cymru neu Ddirprwy Weinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol neu unrhyw aelod o staff Llywodraeth Cymru), naw cynrychiolydd cyflogwyr yng Nghymru a naw cynrychiolydd gweithwyr yng Nghymru.
11. Nid oes unrhyw derfyn ar nifer yr aelodau Llywodraeth Cymru o'r CPG, a bydd hynny'n golygu y gall unigolion gwahanol fynychu'r CPG ar adegau gwahanol. Y Prif Weinidog fydd yn penderfynu pa unigolion sy'n gweithredu fel aelodau Llywodraeth Cymru yn ystod cyfarfod penodol o'r CPG.
12. Y Prif Weinidog fydd yn penodi'r cynrychiolwyr cyflogwyr a'r cynrychiolwyr gweithwyr. Mae'r ffaith y bydd nifer cyfartal o gynrychiolwyr cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr yn adlewyrchu natur gydweithredol partneriaeth gymdeithasol a chydraddoldeb rhanddeiliaid sy'n gyflogwyr ac yn weithwyr yn y broses o gynghori Gweinidogion Cymru.
13. Mae adran 2(4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Weinidog gymryd pob cam rhesymol i benodi naw cynrychiolydd cyflogwyr a naw cynrychiolydd gweithwyr o fewn chwe mis i'r dyddiad y daw adran 2(4) ei hun i rym.

14. Mae adran 2(5) yn darparu bod yr CPG yn grŵp ar y cyd na all ond gweithredu ar y cyd wrth arfer ei swyddogaethau. Felly ni all aelodau arfer swyddogaethau'r CPG yn unigol; rhaid gwneud hyn fel grŵp ar y cyd. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu natur gydwethredol partneriaeth gymdeithasol.

Adrannau 3 a 4 - Cynrychiolwyr cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr

15. Mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch pwy y gall y Prif Weinidog ei benodi'n gynrychiolydd cyflogwyr neu'n gynrychiolydd gweithwyr. Rhaid i gynrychiolwyr cyflogwyr fod yn unigolion y mae'r Prif Weinidog o'r farn eu bod yn cynrychioli categorïau penodol o gyflogwyr yng Nghymru. Rhaid i gynrychiolwyr gweithwyr fod yn unigolion y mae'r Prif Weinidog o'r farn eu bod yn cynrychioli staff sy'n gweithio i gyflogwyr ym mhob un o'r categorïau hynny yng Nghymru.
16. Mae gan y Prif Weinidog ddisgresiwn eang o ran penodi unigolion gan mai'r unig ofyniad ar gyfer penodi yw bod y Prif Weinidog wedi dod i farn bod unigolyn penodol yn cynrychioli sefydliadau neu staff perthnasol (fel y bo'n briodol). Ond mewn gwirionedd, mae'r broses enwebu sydd wedi ei chynnwys yn adran 5 yn cyfyngu ar y disgresiwn hwn yn sylweddol.
17. Mae cynrychiolwyr cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr yn cyflawni eu rôl fel unigolion, ni waeth beth fo'u cysylltiad ag unrhyw sefydliad y tu allan i'r CPG (e.e. corff cyhoeddus neu undeb llafur).
18. Y nod yw y bydd cynrychiolwyr cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr yn gallu cynrychioli amrywiaeth eang o garfanau a safbwyntiau.

Adran 5 - Enwebu aelodau penodedig

19. Mae adran 5(1) yn darparu bod rhaid i'r Prif Weinidog, cyn penodi cynrychiolwyr cyflogwyr, geisio enwebiadau gan sefydliadau y mae'r Prif Weinidog o'r farn eu bod yn cynrychioli safbwyntiau pob categori o gyflogwr sydd i'w gynrychioli gan gynrychiolwyr cyflogwyr. Fodd bynnag, nid oes gorfodaeth ar y Prif Weinidog i dderbyn enwebiadau ar gyfer cynrychiolwyr cyflogwyr a chaniateir iddo benodi un neu ragor o unigolion nad ydynt wedi eu henwebu yn y modd hwnnw.
20. Rhaid i'r Prif Weinidog roi sylw i unrhyw enwebiadau a wnaed wrth benodi cynrychiolwyr cyflogwyr. Bydd hyn yn sicrhau y gall ystod eang o sefydliadau'r sector preifat a'r sector cyhoeddus ddylanwadu ar benodi cynrychiolwyr cyflogwyr i'r CPG.
21. Mae adran 5(2) yn darparu bod rhaid i'r Prif Weinidog geisio enwebiadau gan TUC Cymru cyn penodi cynrychiolwyr gweithwyr.
22. Ni chaiff y Prif Weinidog ond penodi cynrychiolwyr gweithwyr a enwebwyd gan TUC Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod cynrychiolwyr gweithwyr yn wirioneddol gynrychiadol o brofiad cyfunol y gweithlu.
23. Fodd bynnag, nid oes gorfodaeth ar y Prif Weinidog i benodi pob un o'r unigolion a enwebwyd gan TUC Cymru, nac unrhyw unigolyn o'u plith, i fod yn gynrychiolydd gweithwyr. Felly gallai'r Prif Weinidog benderfynu peidio â phenodi un neu ragor o enwebeion TUC Cymru a gofyn am enwebiadau eraill.

24. Y nod yw creu grŵp amrywiol drwy ddarparu ar gyfer sicrhau bod ystod eang o gyflogwyr a gweithwyr yn cael eu cynrychioli ar yr CPG.

Adran 6 - Cyfnod penodiadau

25. Mae'r adran hon yn darparu y penodir cynrychiolwyr cyflogwyr neu gynrychiolwyr gweithwyr am dair blynedd oni bai bod y Prif Weinidog yn terfynu eu penodiad neu eu bod yn ymddiswyddo drwy hysbysu'r Prif Weinidog.
26. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn atal y Prif Weinidog rhag ailbenodi unigolyn i'r CPG nac yn atal cynrychiolwyr rhag gwasanaethu am gyfnodau olynol.
27. Mae'r adran yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r Prif Weinidog lenwi unrhyw swydd wag ar gyfer cynrychiolydd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Bydd y ddarpariaeth hon yn sicrhau yr amherir cyn lleied ag y bo modd ar waith yr CPG ac yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n bosibl, y cynhelir nifer cyfartal o gynrychiolwyr cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr.

Adran 7 - Cyfarfodydd, gweithdrefnau a chymorth gweinyddol

28. Mae'r adran hon yn ymdrin â gweithrediad yr CPG. Mae'n pennu gweithdrefnau penodol - pa mor aml y mae rhaid cynnal cyfarfodydd, mai'r Prif Weinidog fydd yn cadeirio'r CPG pan fo hynny'n bosibl, a threfniadau pan na fo hyn yn bosibl. Mewn amgylchiadau pan na fydd y Prif Weinidog yn cadeirio'r CPG, un arall o Weinidogion neu Ddirprwy Weinidogion Cymru a enwebwyd gan y Prif Weinidog fydd yn cadeirio'r CPG.
29. Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd i Weinidogion Cymru bennu a chyhoeddi pob gweithdrefn arall y mae'r CPG i'w dilyn (gan gynnwys cworwm ar gyfer cyfarfodydd yr CPG o fewn chwe mis i'r dyddiad y daw adran 7(4) i rym). Bydd cyhoeddi gweithdrefnau'r CPG yn sicrhau cymaint o dryloywder â phosibl. Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori â'r CPG, ddiwygio unrhyw un neu ragor o'r gweithdrefnau y maent wedi eu pennu a rhaid cyhoeddi unrhyw ddiwygiadau.
30. Mae'r adran hefyd yn pennu mathau penodol o weithdrefnau y mae rhaid eu cyhoeddi o dan yr adran ac yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth gweinyddol i'r CPG.
31. Y nod yw darparu ar gyfer fframwaith sylfaenol o weithdrefnau heb fod yn rhagnodol i'r graddau bod hynny'n cyfyngu ar hyblygrwydd gwaith yr CPG.

Adran 8 - Is-grwpiau

32. Mae adran 8 yn darparu pŵer i'r CPG i greu is-grwpiau er mwyn cyflawni ei swyddogaethau neu er mwyn ei gynorthwyo i wneud hynny. Rhaid i aelod o'r CPG gadeirio pob is-grŵp ond caiff is-grwpiau gynnwys cynrychiolwyr o'r CPG ac unigolion eraill fel aelodau. Ni chaiff is-grŵp ond arfer swyddogaethau neu agweddau ar swyddogaethau a ddirprwywyd iddo gan yr CPG. Nid oes terfyn ar nifer yr is-grwpiau y caiff yr CPG eu creu.
33. Bydd y posibilrwydd o gynnwys cynrychiolwyr nad ydynt yn aelodau o'r CPG fel aelodau o is-grwpiau yn galluogi is-grwpiau i ddefnyddio'r ystod fwyaf bosibl o arbenigedd a gwybodaeth. Ymhlith pethau eraill, gallai'r CPG ddefnyddio is-grwpiau i sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni mewn modd mwy effeithlon, i

ddarparu cyngor i Weinidogion Cymru ar fater penodol neu i sicrhau y gellir cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y cyfnodau rhwng cyfarfodydd yr CPG llawn.

34. Er na chaiff is-grŵp ond arfer y swyddogaethau hynny a ddirprwywyd iddo gan yr CPG, nid oes unrhyw gyfyngiad ar ba rai o swyddogaethau'r CPG y gellir eu dirprwyo. O ganlyniad, caiff is-grŵp o'r CPG lunio gwybodaeth neu gyngor i Weinidogion Cymru yn yr un modd ag y mae'r CPG ei hun yn gwneud hynny (cyn belled ag y bo'r swyddogaethau perthnasol wedi eu dirprwyo'n briodol).

Adran 9 - Is-grŵp caffael cyhoeddus

35. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r CPG gymryd pob cam rhesymol i sefydlu is-grŵp penodol sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus, o fewn chwe mis i'r dyddiad y daw adran 9(1) i rym. Yn ogystal â hynny, mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu a chyhoeddi'r cworwm ar gyfer cyfarfodydd yr is-grŵp caffael cyhoeddus a'r gweithdrefnau i'w dilyn yn ystod cyfarfodydd o'r fath i'r graddau nad ydynt wedi eu pennu yn y Bil.
36. Mae'r adran yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r un mathau o weithdrefnau y mae rhaid eu pennu a'u cyhoeddi mewn perthynas â'r CPG llawn gael eu pennu mewn perthynas â'r is-grŵp caffael cyhoeddus, ac y gellir diwygio'r gweithdrefnau ar gyfer yr is-grŵp yn yr un modd â gweithdrefnau'r CPG. Yn yr un modd â'r CPG, y nod yw cydbwysu cysondeb â hyblygrwydd.
37. Yn yr un modd ag is-grŵpiau eraill, caiff yr is-grŵp caffael cyhoeddus gynnwys aelodau o'r CPG ac unigolion eraill, ond rhaid i aelod o'r CPG ei gadeirio.

Adran 10 - Darparu gwybodaeth a chyngor i'r CPG gan yr is-grŵp caffael cyhoeddus

38. Mae'r adran hon yn darparu y caiff yr is-grŵp caffael cyhoeddus ddarparu gwybodaeth neu gyngor i'r CPG ynghylch y swyddogaethau a roddir i awdurdodau contractio a Gweinidogion Cymru o dan y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol a nodir yn Rhan 3 o'r Bil. Os yw'r CPG yn cael cais am wybodaeth neu gyngor gan Weinidogion Cymru ynghylch materion o'r fath, rhaid i'r CPG geisio'r wybodaeth neu'r cyngor oddi wrth yr is-grŵp caffael cyhoeddus (oni bai nad yw'r is-grŵp wedi ei sefydlu eto) a'i darparu neu ei ddarparu i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
39. Yn ogystal, mae'r adran hon yn darparu y caiff yr CPG ddiwygio'r wybodaeth a'r cyngor cyn ei hanfon neu ei anfon at Weinidogion Cymru.
40. Pan fo Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ag is-grŵp yr CPG o dan adrannau 30 neu 36 o'r Bil, rhaid i'r is-grŵp caffael cyhoeddus ddarparu gwybodaeth a chyngor y mae'n barnu eu bod yn briodol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
41. Caiff Gweinidogion Cymru orchymyn i'r CPG geisio gwybodaeth neu gyngor gan yr is-grŵp caffael cyhoeddus, neu caiff Gweinidogion Cymru geisio gwybodaeth neu gyngor gan yr is-grŵp caffael cyhoeddus yn uniongyrchol er mwyn cynorthwyo â'r broses adrodd am eithriadau. Os ceir cais gan Weinidogion Cymru, mae'n ofynnol i'r CPG neu'r is-grŵp caffael cyhoeddus ddarparu'r wybodaeth neu'r cyngor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Adrannau 11 ac 12 – Cyfarfod o bell a threuliau

42. Mae adran 11 yn caniatáu i'r CPG neu is-grŵp o'r CPG gynnal cyfarfodydd drwy'r rhyngwrwyd neu dros y ffôn. Bydd y ddarpariaeth hon yn cynyddu hyblygrwyd yr CPG ac yn ei alluogi i gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol.
43. Mae adran 12 yn galluogi Gweinidogion Cymru i dalu treuliau cynrychiolwyr cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr yr CPG yn ogystal â threuliau aelodau o is-grwpiau. Byddai taliadau o'r fath yn ddarostyngedig i unrhyw bolisiâu neu weithdrefnau perthnasol a roddwyd yn eu lle gan yr CPG neu Weinidogion Cymru.

Adran 13 – Pwerau atodol

44. Mae'r ddarpariaeth hon yn darparu pwerau atodol i'r CPG sy'n ymwneud â gwella effeithiolrwyd ei swyddogaethau neu swyddogaethau is-grŵp. Mae natur gwaith yr CPG yn golygu y gall fod yn ddefnyddiol iddo ymgymryd â gweithgareddau sy'n ategol i'w brif swyddogaethau.

RHAN 2 – PARTNERIAETH GYMDEITHASOL A DATBLYGU CYNALIADWY CYFLWYNIAD

45. Mae adran 2 o Ddeddf 2015 yn diffinio "datblygu cynaliadwy" fel y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant a osodir gan y Ddeddf. Mae adran 3 o Ddeddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Wrth iddynt gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid iddynt osod a chyhoeddi amcanion llesiant. Amcanion yw'r rhain sy'n ymwneud â sut y mae'r corff cyhoeddus yn bwriadu cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant (gweler adran 4). Rhaid i gyrff cyhoeddus osod amcanion llesiant sy'n ceisio sicrhau eu bod yn cyfrannu i'r eithaf at gyrraedd y nodau llesiant. Rhaid iddynt hefyd gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni eu hamcanion.
46. Mae Rhan 2 yn cyflwyno dyletswydd partneriaeth gymdeithasol ar gyrff cyhoeddus a dyletswydd partneriaeth gymdeithasol ar wahân ond debyg ar Weinidogion Cymru. Mae'r dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol yn gymwys pan fo corff cyhoeddus yn ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn unol â Deddf 2015, a bydd yn sicrhau, pan fo cyrff cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau strategol allweddol wrth ymgyrraedd at wella llesiant yng Nghymru o dan Ddeddf 2015, eu bod yn gwneud hynny gan roi ystyriaeth lawn a phriodol i brofiad a gwybodaeth eu staff ac, yn achos Gweinidogion Cymru, i safbwyntiau partneriaid cymdeithasol yng Nghymru fel y'u cynrychiolir gan yr CPG.
47. Bydd cyrff cyhoeddus yn ddarostyngedig i ofyniad i lunio adroddiad yn flynyddol a gofyniad i gyflwyno'r adroddiadau i'r CPG.
48. Mae Rhan 2 hefyd yn diwygio'r nodau llesiant y mae cyrff cyhoeddus yn ymgyrraedd atynt wth ymgymryd â datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf 2015 fel bod "gwaith teg" yn rhan o'r disgrifiad o un o'r nodau hynny.

Adran 15 – Trosolwg o'r Rhan a dehongli

49. Mae adran 15 yn crynhoi'r berthynas rhwng y darpariaethau partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg yn Rhan 2, a Deddf 2015; yn benodol, o ran sut y mae'r

dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol yn gysylltiedig â'r ddyletswydd llesiant yn adran 3 a'r gofyniad ehangach i ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn y Ddeddf honno.

50. Mae'r adran hon yn esbonio ystyr "datblygu cynaliadwy" a "corff cyhoeddus". Mae'r ddau derm wedi eu diffinio yn unol â'r ystyr a roddir gan Ddeddf 2015.
51. Mae adran 15(3) yn darparu mai'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn adran 16 yw'r rheini a restrir yn adran 6 o Ddeddf 2015, ac eithrio Gweinidogion Cymru sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn adran 17.

Adran 16 - Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol

52. Mae adran 16(1) yn gosod dyletswydd partneriaeth gymdeithasol statudol ar bob corff cyhoeddus penodedig, i'r graddau y bo'n rhesymol, i 'geisio consensws neu gyfaddawd' gyda'i undebau llafur cydnabyddedig yn bennaf wrth gymryd camau penodol. Pan nad oes gan gorff cyhoeddus undeb llafur cydnabyddedig, rhaid iddo 'geisio consensws neu gyfaddawd' gyda chynrychiolwyr eraill ei staff.
53. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol pan fo corff cyhoeddus yn pennu ei amcanion llesiant o dan adran 3(2)(a) o Ddeddf 2015, a phan fo'n gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y mae angen iddo eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny yn unol ag adran 3(2)(b) o Ddeddf 2015. Nid yw'n gymwys i'r penderfyniadau y mae corff cyhoeddus yn eu gwneud o ddydd i ddydd.
54. Mae adran 16(2) yn nodi rhagor o ofynion penodol y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol y mae rhaid i gorff cyhoeddus gydymffurfio â hwy wrth 'geisio consensws neu gyfaddawd'. Camau yw'r rhain sydd â'r nod o gynnwys undebau llafur neu gynrychiolwyr staff yn y broses o wneud penderfyniadau. Bwriedir i'r gofynion hyn hyrwyddo dull mwy cyson a chydweithredol o wneud penderfyniadau strategol gan gyrff cyhoeddus, sy'n rhoi sylw priodol i safbwyntiau, gwybodaeth a phrofiadau gweithlu'r corff hwnnw.

Adran 17 - Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol: Gweinidogion Cymru

55. Mae adran 17(1) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r CPG pan fônt yn gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y mae angen iddynt eu cymryd i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol ag adran 3(2)(b) o Ddeddf 2015. Nid yw'n gymwys i'r penderfyniadau y mae Gweinidogion Cymru yn eu gwneud o ddydd i ddydd.

Adran 18 - Adroddiadau partneriaeth gymdeithasol

56. Mae adran 18 yn darparu bod rhaid i gorff cyhoeddus lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol a'i gyflwyno i'r CPG. Rhaid cytuno ar yr adroddiad gydag undebau llafur cydnabyddedig y corff cyhoeddus neu (pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill ei staff; neu gynnwys datganiad ynddo yn esbonio pam na chytunwyd arno.

Adran 19 - Adroddiadau partneriaeth gymdeithasol: Gweinidogion Cymru

57. Mae adran 19 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol. Rhaid ei gyflwyno i'r CPG a'i osod gerbron y Senedd. Rhaid

cytuno ar yr adroddiad gyda'r CPG; neu gynnwys datganiad ynddo yn esbonio pam na chytunwyd arno.

Adran 20 - Gwaith Teg

58. Mae adran 20 yn diwygio'r disgrifiad o nod llesiant "Cymru lewyrchus" yn adran 4 o Ddeddf 2015 drwy roi "waith teg" yn lle "waith addas". Bydd y diwygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried gwaith teg wrth osod amcanion sydd wedi eu cynllunio i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ganddynt tuag at gyflawni nod llesiant "Cymru lewyrchus", ac wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.
59. Mae'r ddarpariaeth hon yn ymgorffori "gwaith teg" yn Neddf 2015 ac o'r herwydd mae'n gyson ag argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg yn ei adroddiad (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019).

RHAN 3 - CAFFAEL CYHOEDDUS CYMDEITHASOL GYFRIFOL

60. Mae Pennod 1 yn esbonio ystyr "contract cyhoeddus", "awdurdod contractio" a "caffael cyhoeddus". Mae hefyd yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio ystyr awdurdod contractio.
61. Ceir rhestr o awdurdodau contractio yn Atodlen 1.
62. At ddibenion y Rhan hon, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod contractio ym mhob sefyllfa ond dwy, pan fyddai'n anymarferol ystyried eu bod yn awdurdod contractio. O dan adrannau 29 a 30 a 35 a 36, rhaid i awdurdod contractio hysbysu Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â chynnwys cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau adeiladu mawr a chymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol wrth allanoli contractau. O dan y darpariaethau hynny mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu unrhyw hysbysiadau a ddarparwyd gan awdurdodau contractio ac yna gyhoeddi canlyniad yr adolygiad o'r hysbysiad. Yn ogystal, o dan adran 41, mae gan Weinidogion Cymru bŵer i ymchwilio i sut y mae awdurdod contractio yn cynnal caffael cyhoeddus.

PENNOD 2

Adran 24 - Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol

63. Mae'r adran hon yn nodi dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau contractio, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt geisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd drwy gynnal caffael cyhoeddus mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol.
64. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddynt weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant yn Neddf 2015.
65. Cyflawnir hyn drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio bennu a chyhoeddi amcanion ("amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol") mewn perthynas â'u gweithgareddau caffael cyhoeddus sydd wedi eu cynllunio i sicrhau bod yr awdurdodau yn cyfrannu i'r eithaf at gyrraedd y nodau llesiant.
66. Yn ogystal, mae'r adran hon yn cyflwyno categori o gaffael cyhoeddus mewn cysylltiad â "contractau rhagnodedig". Mae'r rhain yn gaffaeliadau mwy o faint, y mae'n fwy cymesur ceisio deilliannau cymdeithasol gyfrifol mewn cysylltiad â hwy.

Pan fo awdurdodau contractio yn cynnal caffaeliadau cyhoeddus mewn cysylltiad â chontractau rhagnodedig, rhaid iddynt gymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu hamcanion caffael cymdeithasol gyfrifol.

67. Gosodir dau gyfyngiad ar y ddyletswydd hon i “gymryd pob cam rhesymol” i gyflawni amcanion. Y cyntaf yw bod rhaid i unrhyw ddarpariaethau sydd wedi eu cynnwys mewn contract mewn perthynas â’r amcanion hyn fod yn gymesur o ran gwerth y contract. Yr ail yw bod rhaid sicrhau nad oes gwrthdaro rhwng y darpariaethau ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall sy’n ymwneud â chaffael. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw gyfraith a wneir sy’n cynnwys awdurdodau contractio yng Nghymru o ganlyniad i Fil Diwygio Caffael y DU.
68. Gellir rhannu contractau rhagnodedig yn dri chategori fel a ganlyn. Y categori cyntaf yw contractau adeiladu mawr, a ddiffinnir yn adran 25. Yr ail categori yw contractau allanoli gwasanaethau, a ddiffinnir yn adran 26. Y trydydd categori yw unrhyw gontract cyhoeddus arall a ddisgrifir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru.

Adran 25 – Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol: contractau adeiladu mawr

69. Mae’r adran hon yn cyflwyno camau penodol sy’n ofynnol mewn cysylltiad â “contract adeiladu mawr”.
70. Diffinnir contractau adeiladu mawr fel contractau gweithiau cyhoeddus neu gontractau gweithiau neu gontractau consesiwn gweithiau, sydd â chyfanswm gwerth amcangyfrifedig o dros £2 filiwn (yn cynnwys TAW). Mae hyn yn cynnwys cytundebau fframwaith a chontractau yr ymrwymir iddynt o ganlyniad i gytundeb fframwaith lle y mae’r gwerth amcangyfrifedig yn fwy na £2 filiwn.
71. Y prif gam gweithredu yw dyletswydd ar awdurdodau contractio i ystyried a ddylid cynnwys “cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol” (fel y’u cyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru) mewn unrhyw gontract y maent yn bwriadu ei ddyfarnu, ac i gymryd camau rhesymol i sicrhau y gellir eu gweithredu. Ceir rhestr o’r categorïau y bydd y cymalau hyn yn perthyn iddynt, a’r gwelliannau y bwriedir iddynt eu sicrhau, yn adran 27.
72. Os penderfynir cynnwys y cymalau, rhaid i’r awdurdod contractio, wrth reoli’r contract wedi hynny, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y rhwymedigaethau yn y cymalau yn cael eu gweithredu wrth is-gontractio. Nodir enghreifftiau o gamau rhesymol yn adran 28 o’r Bil, a cheir disgrifiad ohonynt isod.

Adran 26 – Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol: contractau allanoli gwasanaethau

73. Diffinnir contractau allanoli gwasanaethau fel naill ai contract y mae gwasanaeth cyhoeddus sy’n cael ei ddarparu gan, neu a ddarparwyd yn flaenorol gan, awdurdod contractio yn cael ei drosglwyddo i sefydliad arall odano, neu y mae sefydliad arall yn cytuno i gyflawni unrhyw swyddogaeth arall sy’n cael ei gyflawni gan, neu a gyflawnwyd yn flaenorol gan, awdurdod contractio odano.
74. Mae’r adran hon yn nodi’r camau penodol y mae rhaid eu cymryd mewn perthynas â chontract allanoli gwasanaethau (mae’r rhain yn debyg i’r camau sy’n ofynnol mewn cysylltiad â chontractau adeiladu mawr).

75. Rhaid i'r awdurdod contractio ystyried cynnwys "cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol" mewn unrhyw gontract allanoli gwasanaethau perthnasol y mae'n bwriadu ei ddyfarnu. Ceir disgrifiad o'r cymalau hyn yn adran 33.
76. Os cânt eu cynnwys, rhaid i'r awdurdod contractio, wrth reoli'r contract wedi hynny, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y rhwymedigaethau yn y cymalau yn cael eu gweithredu wrth is-gontractio. Nodir enghreifftiau o gamau rhesymol yn adran 34 o'r Bil, a cheir disgrifiad ohonynt isod.

Adran 27 - Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau adeiladu mawr

77. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cymalau enghreifftiol ar gyfer contractau adeiladu mawr ("cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol") sydd wedi eu cynllunio i sicrhau gwelliannau i lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Bydd y cymalau hyn yn ymwneud â phob un o'r gwelliannau a restrir o dan y categorïau a nodir yn y Tabl yn adran 27. I grynhoi, mae'r rhain yn cwmpasu: talu cyflenwyr yn brydlon; darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc a phobl o dan anfantais; sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth mewn perthynas â hawliau cyflogaeth; darparu hyfforddiant priodol; darparu cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig wrth is-gontractio; a materion amgylcheddol penodol.
78. Mae "cynnwys" cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau adeiladu mawr yn golygu cynnwys *pob un* o'r cymalau enghreifftiol, gan ddefnyddio geiriad a fydd yn cael yr un effaith neu'r un effaith yn sylweddol â'r cymal contract enghreifftiol cyhoeddedig.

Adran 28 - Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn is-gontractau

79. Yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu mewn contractau (gweler adran 25), mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y rhwymedigaethau'n cael eu gweithredu pan fo contractiwr yn ymrwymo i is-gontract.
80. Mae'r adran hon yn cynnig nifer o enghreifftiau o'r hyn y mae "camau rhesymol" yn ei olygu hefyd. I grynhoi, mae'r rhain yn cynnwys: sicrhau bod cymalau sy'n cael yr un effaith neu'r un effaith yn sylweddol yn cael eu cynnwys mewn is-gontractau, ac ym mhob contract dilynol yn y gadwyn gyflenwi; sicrhau y gellir eu gorfodi; ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr ofyn i'r awdurdod contractio cyn penodi is-gontractwyr fel y gall yr awdurdod sicrhau bod y cymalau wedi eu cynnwys; ei gwneud yn ofynnol i'r contractiwr hysbysu'r awdurdod os nad yw'n cynnwys y cymalau mewn is-gontractau; a'i gwneud yn ofynnol i gontractwyr fonitro gweithredu'r cymalau.

Adran 29 - Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol: hysbysu Gweinidogion Cymru

81. Mae'n bosibl y bydd rhesymau dilys pam nad yw awdurdod contractio yn bwriadu cynnwys cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau adeiladu

mawr. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod contractio hysbysu Gweinidogion Cymru os, mewn perthynas â chontract adeiladu mawr—

- a. nad yw'n bwriadu cynnwys y cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol, neu
 - b. er ei fod wedi cymryd camau rhesymol i wneud hynny, nad ydynt wedi eu cynnwys mewn contract.
82. Rhaid iddynt hefyd hysbysu Gweinidogion Cymru os ydynt wedi methu â throsglwyddo'r rhwymedigaeth ofynnol drwy gadwyni cyflenwi drwy gyfrwng is-gontractau, neu os nad ydynt wedi rhoi proses ar waith i reoli eu gweithrediad.
83. Rhaid gwneud hysbysiad cyn gynted ag y bo'n bosibl gan roi rhesymau'r awdurdod.

Adrannau 30 a 31 - Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol: ymateb Gweinidogion Cymru a chontractau Gweinidogion Cymru

84. Pan fo Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad gan awdurdod contractio o dan adran 29, mae'r adran hon yn nodi'r camau y mae'n ofynnol i'r Gweinidogion eu cymryd.
85. Yn gyntaf, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried a ydynt yn fodlon ar y rhesymau a roddwyd yn yr hysbysiad. Wrth wneud hynny, cânt ymgynghori â'r awdurdod a chânt, drwy hysbysiad, ei gwneud yn ofynnol i awdurdod contractio ddarparu dogfennau neu wybodaeth arall ac, os digwydd hynny, rhaid iddo eu darparu neu ei darparu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
86. Os nad yw Gweinidogion Cymru yn fodlon ar ôl ystyried y manylion, cânt roi cyfarwyddyd i'r awdurdod contractio i gymryd pob cam rhesymol i roi prosesau ar waith i gynnwys cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn y contract adeiladu mawr neu mewn is-gontractau, a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu.
87. Caiff Gweinidogion Cymru gynnwys is-grŵp caffael cyhoeddus yr CPG yn y broses o asesu'r wybodaeth ac o wneud penderfyniad.
88. Os yw Gweinidogion Cymru yn fodlon ar resymau'r awdurdod a nodir yn yr hysbysiad, rhaid iddynt gyhoeddi crynodeb o'r rhesymau pam eu bod yn fodlon. Os nad ydynt yn fodlon a'u bod yn rhoi cyfarwyddydau, rhaid iddynt gyhoeddi'r cyfarwyddydau. Fodd bynnag, os nad ydynt yn fodlon ond nad ydynt yn rhoi cyfarwyddydau, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r rhesymau pam nad ydynt yn fodlon a pham nad ydynt yn rhoi cyfarwyddyd.
89. Yn achos contractau a osodir gan Weinidogion Cymru, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol os nad ydynt yn bwriadu cynnwys cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn contract adeiladu mawr, er eu bod wedi cymryd camau rhesymol i wneud hynny, os nad ydynt wedi eu cynnwys mewn contract neu os nad oes proses yn ei lle i reoli eu gweithrediad, gan roi rhesymau.

Adran 32 - Y cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu

90. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer ("y cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu") ynghylch materion cyflogaeth a phensiynau sy'n gysylltiedig â chontractau allanoli gwasanaethau. Bydd

y "cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol" yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cod hwn.

91. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw ddiwygiad dilynol i'r cod hwn hefyd, a'i osod gerbron y Senedd. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol wrth ddatblygu'r cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu, neu wrth ei ddiwygio wedi hynny.

Adrannau 33 a 34 - Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau allanoli gwasanaethau ac mewn is-gontractau

92. Rhaid i'r cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu a gyhoeddir o dan adran 32 gynnwys cymalau contract enghreifftiol ("cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol"), sydd wedi eu cynllunio i sicrhau y gall aelodau o staff a gyflogir i ddarparu gwasanaeth, os ydynt yn dymuno, drosglwyddo i'r cyflogwr newydd a fydd wedi ei gontractio i ddarparu'r gwasanaeth. Bydd y cymalau hyn yn sicrhau bod telerau ac amodau eu cyflogaeth a'u trefniadau pensiwn wedi eu diogelu hefyd.
93. Mae'r cymalau wedi eu cynllunio i sicrhau hefyd, os bydd y cyflogwr newydd yn recriwtio rhagor o aelodau o staff i ddarparu'r un gwasanaeth, fod yr aelodau newydd o staff gael eu cyflogi gyda thelerau ac amodau nad ydynt yn llai ffafriol, a threfniadau pensiwn sy'n rhesymol.
94. Mae adran 34 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y rhwymedigaethau yn y cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu pan fo'r contractiwr yn ymrwmo i is-gontract gydag unrhyw weithredwr economaidd arall. Mae'r adran hon hefyd yn nodi enghreifftiau o gamau rhesymol y gellir eu cymryd. Yn eu plith mae sicrhau bod cymalau sy'n cael yr un effaith neu'r un effaith yn sylweddol yn cael eu cynnwys mewn is-gontractau, ac ym mhob contract dilynol yn y gadwyn gyflenwi; sicrhau y gellir eu gorfodi; ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr ofyn i'r awdurdod contractio cyn penodi is-gontractwyr fel y gall yr awdurdod sicrhau bod y cymalau wedi eu cynnwys; ei gwneud yn ofynnol i'r contractiwr hysbysu'r awdurdod os nad yw'n cynnwys y cymalau mewn is-gontractau; a'i gwneud yn ofynnol i gontractwyr fonitro gweithredu'r cymalau.

Adrannau 35 a 36 - Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol: hysbysu Gweinidogion Cymru ac ymateb Gweinidogion Cymru

95. Mae'r adrannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod contractio hysbysu Gweinidogion Cymru os nad yw wedi cynnwys, neu os nad yw'n bwriadu cynnwys, cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn y contract, neu os nad oes proses ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau mewn cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu pan fo'r contract wedi ei is-gontractio.
96. Rhaid darparu hysbysiad yr awdurdod contractio a'i resymau dros beidio â chynnwys cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn y contract cyn gynted ag y bo'n bosibl.
97. Pan fo Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad o'r fath, rhaid iddynt ystyried a ydynt yn fodlon ar y rhesymau a roddwyd. Os nad ydynt yn fodlon, cânt roi cyfarwyddyd i'r awdurdod contractio i gymryd pob cam rhesymol i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

98. Caiff Gweinidogion Cymru gynnwys is-grŵp caffael cyhoeddus y CPG yn y broses o asesu'r wybodaeth ac o wneud penderfyniad.
99. Os yw Gweinidogion Cymru yn fodlon ar resymau'r awdurdod a nodir yn yr hysbysiad, rhaid iddynt gyhoeddi crynodeb o'r rhesymau pam eu bod yn fodlon. Os nad ydynt yn fodlon a'u bod yn rhoi cyfarwyddydau, rhaid iddynt gyhoeddi'r cyfarwyddydau. Fodd bynnag, os nad ydynt yn fodlon ond nad ydynt yn rhoi cyfarwyddydau, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r rhesymau pam nad ydynt yn fodlon a pham nad ydynt yn rhoi cyfarwyddyd.

Adran 37 – Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol: contractau Gweinidogion Cymru

100. Yn achos contractau a osodir gan Weinidogion Cymru, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol os nad ydynt yn bwriadu cynnwys cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol mewn contract allanoli gwasanaethau, er eu bod wedi cymryd camau rhesymol i wneud hynny, os nad ydynt wedi eu cynnwys mewn contract, neu os nad oes proses yn ei lle i reoli eu gweithrediad, gan roi rhesymau.

Adran 38 – Strategaeth gaffael

101. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio lunio a chyhoeddi "strategaeth gaffael" sy'n nodi sut y mae'r awdurdod yn bwriadu cynnal caffael cyhoeddus mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol, a chyflawni'r amcanion y mae wedi eu gosod (a ddisgrifir yn adran 24). Caniateir nodi materion eraill sydd i'w cynnwys mewn strategaethau caffael mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion o bryd i'w gilydd.
102. Rhaid adolygu'r strategaethau hyn bob blwyddyn a rhaid cyhoeddi unrhyw ddiwygiadau dilynol. Caniateir i ddau awdurdod neu ragor gyhoeddi strategaethau ar y cyd.

PENNOD 3 – ADRODD AC ATEBOLRWYDD

Adran 39 – Adroddiadau caffael cymdeithasol gyfrifol blynyddol

103. Mae'r adran yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau contractio gyhoeddi adroddiad caffael cymdeithasol gyfrifol blynyddol cyn gynted ag y bo'n bosibl ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r adroddiadau hyn gynnwys crynodeb o'r caffaeliadau rhagnodedig a arweiniodd at ddyfarnu unrhyw gontract yn ystod y flwyddyn ariannol honno, ac adolygiad o'r camau y mae'r awdurdod wedi eu cymryd i gyflawni ei amcanion. Caiff Gweinidogion Cymru nodi hefyd, mewn rheoliadau, wybodaeth y dylai awdurdodau contractio ei chynnwys yn eu hadroddiadau blynyddol. Caiff hyn gynnwys gwybodaeth ynghylch i ba raddau y mae eu gweithgarwch caffael cyhoeddus yn cyflawni eu hamcanion caffael cymdeithasol gyfrifol drwy, er enghraifft, gyfrannu at yr economi leol ac ystyried materion amgylcheddol a materion cymdeithasol eraill.
104. Dylai'r adroddiad gynnwys asesiad o gamau pellach y gallai awdurdod fod wedi eu cymryd i gyflawni ei amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol a sut yr eir i'r afael â'r rhain yn y dyfodol. Rhaid iddo gynnwys crynodeb o gaffaeliadau arfaethedig ar gyfer

y ddwy flynedd ganlynol hefyd, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall a all fod yn ofynnol o ganlyniad i unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Adran 40 – Cofrestr contractau

105. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod contractio gynnal a chyhoeddi cofrestr contractau yn cynnwys gwybodaeth am 'contractau cofrestradwy' sydd o ddisgrifiad a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau. Yr wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer pob contract cofrestradwy yw ei enw, dyddiad dyfarnu'r contract, y gwerth amcangyfrifedig, cyfeiriad prif fan busnes y contractiwr, y pwnc, y dyddiad cychwyn, y dyddiad terfynu ac unrhyw gyfnod y gellir estyn y contract.
106. Nid yw'n ofynnol i awdurdodau contractio gofrestru unrhyw wybodaeth y maent o'r farn y byddai'n rhwystro gorfodi'r gyfraith neu na fyddai er budd y cyhoedd, y byddai'n rhagfarnu buddiannau masnachol person neu yn rhagfarnu cystadleuaeth rhwng gweithredwyr economaidd. Ni cheir ond dileu'r wybodaeth am unrhyw contract o'r contract ar ôl i'r contract gael ei derfynu neu ar ôl iddo ddod i ben.

Adran 41 – Ymchwiliadau caffael

107. Mae'r adran hon yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i ymchwilio i sut y mae awdurdod contractio yn cynnal caffael cyhoeddus. Gallai hyn fod mewn perthynas â gwaith caffael penodol neu weithgarwch caffael yn fwy cyffredinol.
108. O dan yr adran hon, gall fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru i awdurdodau contractio ddarparu dogfennau neu wybodaeth arall at ddibenion ymchwiliad. Ar ddiwedd unrhyw ymchwiliad, caiff Gweinidogion Cymru wneud argymhellion i'r awdurdod contractio, cyhoeddi adroddiad a/neu osod copi o unrhyw adroddiad gerbron y Senedd.

Adran 42 – Adroddiad blynyddol Gweinidogion Cymru ar gaffael cyhoeddus

109. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru, a hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd blwyddyn ariannol. Rhaid i'r adroddiad roi crynodeb o unrhyw ymchwiliadau a gynhelir o dan adran [41], a gwybodaeth a ddaw o adroddiadau blynyddol awdurdodau contractio. Rhaid cyhoeddi'r adroddiadau hyn a'u gosod gerbron y Senedd.
110. Mae Rhan 4 yn cynnwys darpariaethau ar weithdrefnau is-ddeddfwriaeth; yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaethau trosiannol, canlyniadol etc.; ac yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chychwyn, dehongli, dod i rym etc.

Adran 44 – Rheoliadau

111. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y mae rheoliadau o dan Ran 3 o'r Ddeddf i'w gwneud. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ynghylch gweithdrefnau'r Senedd sy'n gymwys mewn perthynas â'r rheoliadau, a'r ddarpariaeth ategol (hynny yw, darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed) y caniateir ei gwneud yn y rheoliadau hyn.

Adran 45 – Dehongli Rhan 3

- 112.** Mae'r adran hon yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn Rhan 3 o'r Ddeddf ac mae'n hunanesboniadol.

Adran 46 - Dehongli cyffredinol

- 113.** Mae'r adran hon yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn y Ddeddf hon ac mae'n hunanesboniadol.

Adran 47 - Mân ddiwygiad i DLICD 2015

- 114.** Mae'r adran hon yn gwneud mân ddiwygiad i adran 9 o DLICD 2015.

Adran 48 - Dod i rym

- 115.** Mae is-adran (1) yn dwyn adran 48 o'r Ddeddf i rym drannoeth diwrnod y Cydsyniad Brenhinol.

- 116.** Daw holl ddarpariaethau eraill y Ddeddf i rym drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru (is-adran (1)). Mae is-adran (2) yn caniatáu i orchymynion sy'n dwyn darpariaethau i rym bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol ac mae is-adran (3) yn galluogi gorchymynion i wneud darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed mewn cysylltiad â dwyn darpariaethau i rym.

Adran 49 - Enw byr

- 117.** Mae'r adran hon yn darparu mai enw byr y Ddeddf yw Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

Atodiad 2. Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

Rheol Sefydlog	Adran	tudalennau/ paragraffau	
26.6(i)	Datganiad y byddai darpariaethau'r Mesur o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd	Datganiad yr Aelod	Tudalen 2
26.6(ii)	Amlinellu amcanion polisi'r Bil	Pennod 3 – pwrpas y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	Tudalen 9 - 35
26.6(iii)	Nodi a ystyriwyd ffyrdd amgen o gyflawni'r amcanion polisi ac, os felly, pam y mabwysiadwyd y dull a ddefnyddiwyd yn y Bil	Rhan 2 – Yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol	Tudalen 54 - 116
26.6(iv)	Amlinellu'r ymgynghori a gynhaliwyd, os o gwbl, ar y canlynol: (a) amcanion polisi'r Bil a'r ffordd y byddant yn cael eu cyflawni (b) manylion y Bil (c) Bil drafft, naill ai'n llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau)	Pennod 4 – Ymgynghori	Tudalen 43 - 44
26.6(v)	Amlinellu crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw, gan gynnwys sut a pham mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei wella	Pennod 4 – Ymgynghori	Tudalen 43 - 46
26.6(vi)	Os na chafodd y bil, neu ran o'r Bil, ei gyhoeddi'n flaenorol fel drafft, nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Nid yw gofyniad Rheol Sefydlog 26.6(vi) yn berthnasol i'r Bil hwn gan fod ymgynghoriad wedi cael ei gynnal ar Fil drafft	
26.6(vii)	Crynhoi'n wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esboniad neu sylw arno) a rhoi	Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol	Tudalen 129 – 143

Rheol Sefydlog	Adran	tudalennau/ paragraffau
	gwybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil	
26.6(viii)	<p>Amlinellu'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) y costau gweinyddol, costau cydymffurfio a chostau eraill gros y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt; (b) yr arbedion gweinyddol a fydd yn deillio o'r Bil; (c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil; (d) yr amserlenni ar gyfer yr adegau pan ddisgwylir i gostau ac arbedion o'r fath godi; ac (e) pwy fydd yn ysgwyddo'r costau 	Rhan 2 – Yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol Tudalen 54 - 57
26.6(ix)	Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol a fydd yn deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol	Rhan 2 – Yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol Tudalen 56
26.6(x)	<p>Lle mae'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth nodi, mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath, y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) y person y rhoddir y pŵer iddo, neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo, a'r ffordd y bydd y pŵer yn cael ei arfer; (b) pam yr ystyrir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac 	Pennod 5 – y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth Tudalen 49 – 53

Rheol Sefydlog	Adran	tudalennau/ paragraffau	
	(c) gweithdrefn y Senedd (os oes un) y bydd yr is-ddeddfwriaeth a wneir neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer yn ddarostyngedig iddi, a pham yr ystyriwyd ei bod yn briodol ei gwneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn honno (a pheidio â'i gwneud yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn arall)		
26.6(xi)	Pan fydd y Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori'r adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi ei farn ynghylch a yw'r tâl yn briodol	Nid yw gofyniad Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn berthnasol i'r Bil hwn	
26.6(xii)	Nodi effaith bosibl darpariaethau'r Bil (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr ('asesiad o'r effaith ar gyfiawnder'), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf.	Rhan 2 – Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Tudalen 118 – 119
26.6B	Pan fydd darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed hynny at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid i'r Memorandwm Esboniadol gynnwys tabl o darddiadau sy'n egluro'n glir sut mae'r Bil yn ymwneud â'r fframwaith cyfreithiol presennol.	Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6B ar gyfer Tabl Tarddiadau'n berthnasol i'r Bil hwn gan fod y Bil yn ddarn annibynnol o ddeddfwriaeth ac nad yw'n deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol at ddibenion diwygio neu grynhoi.	
26.6C	Pan fydd y Bil yn cynnig diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid i'r Memorandwm Esboniadol	Nid yw gofyniad Rheol Sefydlog 26.6C am Restr o Welliannau yn berthnasol i'r Bil hwn gan nad yw'r Bil yn	

Rheol Sefydlog	Adran	tudalennau/ paragraffau
	gynnwys atodlen sy'n nodi geiriad y ddeddfwriaeth bresennol a ddiwygir gan y Bil, ac yn nodi'n glir sut mae'r geiriad hwnnw'n cael ei ddiwygio gan y Bil.	cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol.

DRAFT

Atodiad 3. Cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Bil drafft

- Mae'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Bil drafft fel a ganlyn:
 - (a) Gweinidogion Cymru;
 - (b) Awdurdodau Lleol;
 - (c) Byrddau Iechyd Lleol;
 - (d) Ymddiriedolaethau canlynol y GIG:
 - (i) Iechyd Cyhoeddus Cymru;
 - (ii) Felindre;
 - (e) Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;
 - (f) awdurdodau tân ac achub yng Nghymru;
 - (g) Corff Adnoddau Naturiol Cymru;
 - (h) Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
 - (i) Cyngor Celfyddydau Cymru;
 - (j) Cyngor Chwaraeon Cymru;
 - (k) Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
 - (l) Amgueddfa Cymru.
- Mae rhestr hirach o gyrff sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau caffael cyhoeddus. Caiff y rhain eu disgrifio fel awdurdodau contractio ac maent yn cynnwys:
 - a) Comisiwn y Senedd;
 - b) person a restrir yn "gorff cyhoeddus" yn adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;
 - c) Comisiynydd y Gymraeg;
 - d) Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru;
 - e) Comisiynydd Plant Cymru;
 - f) Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru;
 - g) Gofal Cymdeithasol Cymru;
 - h) Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;
 - i) Iechyd a Gofal Digidol Cymru;
 - j) Awdurdod Cyllid Cymru;
 - k) Trafnidiaeth Cymru;
 - l) Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru;
 - m) Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;
 - n) Hybu Cig Cymru;
 - o) Cymwysterau Cymru;
 - p) Addysg a Gwellu Iechyd Cymru;
 - q) Cyngor y Gweithlu Addysg;
 - r) Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

Atodiad 4 – Tablau Costau Cryno Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Tabl 7: costau i Lywodraeth Cymru (£)

	Blwyddyn ariannol				
	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28
Tabl 2.3: Costau cyfle dangosol cyfarfod dwy awr i aelodau	9,600	9,600	9,600	9,600	9,600
Tabl 2.4: Cyfrifo'r costau cyfle a amcangyfrifir ar gyfer rhedeg is-grŵp	8,600	8,600	8,600	8,600	8,600
Tabl 2.5: Cost cyfle aelodau'r CPG yn treulio awr a hanner y flwyddyn yn ymgysylltu â'u sector drwy eu strwythurau cynrychioladol sefydledig	1,400	1,400	1,400	1,400	1,400
Tabl 2.6: Cyfrifo'r amcangyfrif o gost cyfle cynhyrchu cyngor i Weinidogion ar fater syml	4,400	4,400	4,400	4,400	4,400
Tabl 2.7: Cyfrifo'r amcangyfrif o gost cyfle cynhyrchu cyngor i Weinidogion ar fater cymhleth	7,600	7,600	7,600	7,600	7,600
Cost datblygu presenoldeb digidol yr CPG	10,000				

Tabl 2.8: Cyfrifo amcangyfrif o'r gost cyfle i'r CPG wrth gymryd rhan mewn gweithdy wedi'i hwyluso.	4,700			4,700	
Tabl 3.1 – Costau rhedeg i staff Llywodraeth Cymru	162,800	162,800	162,800	162,800	162,800
Tabl 3.2 – Costau Llywodraeth Cymru am brosesu a dadansoddi adroddiadau	22,000	22,000	22,000	22,000	22,000
Tabl 3.3: cost datblygu un darn o ganllawiau statudol	21,200			21,200	
Tabl 4: Costau dynodol llunio cyngor neu ganllawiau ar fater syml:	5,400	5,400	5,400	5,400	5,400

Tabl 5.1: Cyfrifo cost cyfle amcangyfrifedig llunio canllawiau statudol ac atodol.		74,400			
Tabl 5.2: Costau yn deillio o lwyth gwaith ychwanegol llunio Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru.	8,100	8,100	8,100	8,100	8,100
Tabl 5.3 – costau ychwanegol ar gyfer staff ychwanegol i gefnogi darpariaeth barhaus	303,600	303,600	303,600	303,600	303,600
Tabl 5.4 – amcangyfrif o'r costau rhaglen ychwanegol i gefnogi gweithrediad					
Datblygu canllawiau statudol		74,400			
Sesiynau ymwybyddiaeth rhanbarthol	10,000				
Teithiau staff i gwrdd â phenaethiaid caffael	5,000				
Adolygu ac adrodd		25,000			
Gweminarau blynyddol	4,000	4,000			
Adolygiad ôl-weithredu			25,000		
Sesiynau cefnogi cyflenwyr		16,500			

Tabl 5.9 – costau yn deillio o lwyth gwaith ychwanegol wrth ystyried hysbysiadau am eithriadau ac adroddiadau cysylltiedig	59,600	59,600	59,600	59,600	59,600
--	--------	--------	--------	--------	--------

Tabl 7.1: Costau i'r Sector Cyhoeddus (£)

	Blwyddyn Ariannol				
	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28
Tabl 3.4: costau i'r sector cyhoeddus yn sgil ymgyfarwyddo â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol	22,319				
Tabl 3.5: costau i gyrrff cyhoeddus am fynychu cyfarfodydd partneriaeth gymdeithasol	82,200	82,200	82,200	82,200	82,200
Tabl 5.5: costau a ysgwyddir drwy gasglu ynghyd y data sydd eu hangen i adrodd ar ganlyniadau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol (costau blynyddol)	101,100	101,100	101,100	101,100	101,100
Tabl 5.6: costau'n gysylltiedig â	215,900	215,900	215,900	215,900	215,900

phennu a chynllunio amcanion					
Tabl 5.7: costau a ysgwyddir gan y sector cyhoeddus ar gyfer amser staff mewn sesiynau hyfforddi a sesiynau ymwybyddiaeth	352,800				
Costau rheoli contractau adeiladu	3,879,825	3,879,825	3,879,825	3,879,825	3,879,825

Tabl 7.2: Costau i'r Sector Preifat (£)

	Blwyddyn Ariannol				
	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28
Costau rheoli contractau adeiladu	1,293,275	1,293,275	1,293,275	1,293,275	1,293,275

Atodiad 5 – Cyrff sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau caffael cyhoeddus

470. Cwmpesir rhestr hirach o gyrff gan y dyletswyddau caffael o gymharu â'r dyletswyddau eraill yn y Bil; y brif resymeg dros eu cynnwys ar y rhestr yw y gall swyddogaethau corff ond cael eu harfer o ran Cymru ac maent yn bennaf ar faterion nad ydynt wedi'u cadw'n ôl i Lywodraeth y DU.
471. Nod arall yw y bydd y rhestr o gyrff sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau caffael hyn, maes o law, yn adlewyrchu cymaint â phosibl y rhai y disgwylir iddynt, yn y pen draw, gael eu diffinio fel Awdurdodau Contractio yng Nghymru gan Lywodraeth y DU, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yn ei deddfwriaeth diwygio caffael.
472. O ganlyniad i hyn, a'r ymateb i'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, mae'r rhestr o gyrff yn y Bil drafft wedi'i hymestyn i gynnwys y mwyafrif o'r cyrff a ddosberthir yn Awdurdodau Datganoledig yng Nghymru yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac eithrio rhai o'r cyrff lleiaf nad ydynt yn gwneud fawr ddim caffael. Mae'r Bil hefyd yn rhoi hyblygrwydd i gyrff newydd gael eu rhestru yn y dyfodol, a allai fod yn destun ymgynghoriad ar yr adeg honno.
473. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r holl gyrff gyflawni gweithgareddau i'r un lefel o fanylder. Bydd disgwyliadau is ar y rhai nad ydynt yn cyflawni llawer o weithgareddau caffael dros y trothwyon.
474. Mae'n bwysig nodi hefyd fod y Canllawiau a'r Cyfarwyddiadau yng Nghod y Gweithlu Dwy Haen yn berthnasol i restr wahanol o sefydliadau ar hyn o bryd, ac yr adlewyrchwyd hyn yn y Bil drafft. Fodd bynnag, datgelodd y broses ymgynghori ddisgwyliad y bydd y cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol a'r Cod Dwy Haen wedi'i fireinio yn gymwys i'r un rhestr o gyrff â'r prif ddyletswyddau.

Ôl-nodiadau

- ¹ [Y Ddeddf Gwerth Cymdeithasol: gwybodaeth ac adnoddau - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)
- ² Gwaith Teg Cymru – Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg (llyw.cymru)
- ³ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/32/section/60>
- ⁴ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gwaith-teg-cymru.pdf>
- ⁵ [FGC-Report-English.pdf \(futuregenerations.wales\)](#)
- ⁶ Podvršič, A., Becker J., Piroška, D., Profant, T. a Hodulák, V (2020) *Mitigating the COVID-19 effect: Emergency economic policy-making in Central Europe*. Ar gael yn: https://www.etui.org/sites/default/files/2020-08/Mitigating%20the%20COVID-19%20effect_2020_web.pdf
- ⁷ Gwaith Teg Cymru – Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg (llyw.cymru)
- ⁸ http://www.audit.wales/system/files/publications/Public-Procurement-in-Wales-2017-English_0.pdf
- ⁹ <https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=20119>
- ¹⁰ [ENG-Section-20-Procurement-Review.pdf \(futuregenerations.wales\)](#)
- ¹¹ [Cymru fwy cyfartal: atgyfnerthu partneriaeth gymdeithasol papur gwyn | LLYW.CYMRU](#)
- ¹² [Bil Drafft Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\) | LLYW.CYMRU](#)
- ¹³ IPA (2011) *Partnership working – a Practitioners Guide* a TUC (1999) *Partners for Progress, New Unionism in the Workplace*
- ¹⁴ <https://llyw.cymru/dyletswydd-economaidd-gymdeithasol-trosolwg>
- ¹⁵ Gwaith Teg Cymru – Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg (llyw.cymru)
- ¹⁶ Gwaith Teg Cymru – Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg (llyw.cymru)
- ¹⁷ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-10/a-healthier-wales-action-plan.pdf> Datganiad Ysgrifenedig: Y Ffordd Ymlaen ar gyfer Diwygio Caffael yng Nghymru) 18 Awst 2021) | GOV.WALES
- ¹⁸ [Cyflogaeth foesebol mewn cadwyni cyflenwi: cod ymarfer | LLYW.CYMRU](#)
- ¹⁹ Yn ôl astudiaeth gan y Sefydliad Gwaith, mae cyflogeion mewn sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth yn aros gyda chyflogwyr yn hwy, ac mae ganddynt lefelau is o absenoldeb a lefelau uwch o foddhad.
- ²⁰ <https://www.ipa-involve.com/pages/category/research-publications>
- ²¹ Susha, I., Gronlund, A. a Van Tulder, R. (2019) 'Data driven social partnerships: Exploring an emergent trend in search of research challenges and questions', *Government Information Quarterly*, 36 (1): 112–128
- ²² Greer, S.L. a Falkenbach, M. (2017) 'Social partnership, civil society and health care' yn Greer S.L., Wismar, M., Pastorino, G., et al., (goln) *Civil Society and Health: Contributions and potential*, Copenhagen: Ar gael yn <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/books/NBK459038/>
- ²³ Marshall, H. (2008) *Trade Unionism and Social Partnership: Why does Wales provide a way forward?* Bevan Foundation

-
- ²⁴ Podvršič, A., Becker J., Piroška, D., Profant, T. a Hodulák, V (2020) *Mitigating the COVID-19 effect: Emergency economic policy-making in Central Europe*. Ar gael yn: https://www.etui.org/sites/default/files/2020-08/Mitigating%20the%20COVID-19%20effect_2020_web.pdf
- ²⁵ <https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2020/05/FInal-Welsh-FG-Report.pdf>
- ²⁶ Gwaith Teg Cymru – Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg (llyw.cymru)
- ²⁷ Gwaith Teg Cymru – Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg (llyw.cymru)
- ²⁸ Er enghraifft: https://d1ssu070pg2v9i.cloudfront.net/pex/carnegie_uk_trust/2021/06/24152422/Research-findings-summary-does-good-work-have-a-positive-effect-on-productivity-Jan-2020.pdf and [Can-good-work-solve-the-productivity-puzzle-FINAL.pdf](https://d1ssu070pg2v9i.cloudfront.net/pex/carnegie_uk_trust/2021/06/24152422/Can-good-work-solve-the-productivity-puzzle-FINAL.pdf)
- ²⁹ Er enghraifft: https://d1ssu070pg2v9i.cloudfront.net/pex/carnegie_uk_trust/2020/10/27154455/Good-Work-for-Well-being-in-the-Coronavirus-Economy-Full-report.pdf
- ³⁰ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gwaith-teg-cymru.pdf>
- ³¹ Findlay, P. (2016) *A sustainable workforce and the Fair Work Convention*, Scotland: Fair Work Convention. Ar gael yn <http://www.ccpscotland.org/wp-content/uploads/2016/05/A-sustainable-workforce-and-the-Fair-Work-Convention.pdf>;
Fair Work Convention (2016) *Fair Work Framework 2016*, Scotland: Fair Work Convention. Ar gael yn <https://www.fairworkconvention.scot/wp-content/uploads/2018/12/Fair-Work-Convention-Framework-PDF-Full-Version.pdf>
- Rogers, G. a Richmond, K. (2016) *Fair work and productivity*, Fraser of Allander Institute Economic Commentary. Ar gael yn https://www.strath.ac.uk/media/departments/economics/fairse/fecvol40no3/Fair_work_and_productivity.pdf
- ³² [Fair-Work-Convention-Framework-PDF-Full-Version.pdf](https://www.fairworkconvention.scot/wp-content/uploads/2018/12/Fair-Work-Convention-Framework-PDF-Full-Version.pdf) (fairworkconvention.scot)
- ³³ <https://www.fairworkconvention.scot/wp-content/uploads/2018/12/Fair-Work-Convention-Framework-PDF-Full-Version.pdf>
- ³⁴ Felstead, A. (2020) 'Fair work, low pay and productivity in Wales', *Can Good Work Solve the Productivity Puzzle?* Ar gael yn <http://orca.cf.ac.uk/128783/1/Can-good-work-solve-the-productivity-puzzle-FINAL.pdf>
- ³⁵ BEIS (2018) *Good Work Plan*, Llundain: Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
- ³⁶ Sustainable Procurement in the United Kingdom public sector (Walker a Brammer, 2009)
- ³⁷ Cholette, S., Kleinrichert, D., Roeder, T., a Sugiyama, K. (2014) 'Emerging social entrepreneurial CSR initiatives in supply chains: exploratory case studies of four agriculturally based entrepreneurs', *The Journal of Corporate Citizenship*, 55: 40–72
- ³⁸ Carter, C. R., a Rogers, D. S. (2008) 'A framework of sustainable supply chain management: Moving toward new theory', *International Journal of Physical Distribution & Logistics Management*, 38 (5): 360–387
- ³⁹ Kozlowski, A., Searcy, C., a Bardecki, M. (2015) 'Corporate sustainability reporting in the apparel industry', *International Journal of Productivity and Performance Management*, 64 (3): 377–397

⁴⁰ Cramer, J. (2008) 'Organising corporate social responsibility in international product chains', *Journal of Cleaner Production*, 16 (3): 395–400

⁴¹ Ertl, V. a Schebesta, M. (2020) *Sustainability in global supply chains: arguments for and against a legal obligation for compliance with human rights and environmental standards*, Berlin: Konrad-Adenauer-Stiftung

⁴² [gweithgareddau caffael: adroddiad blynyddol 2018 – 2019, gov.scot \(www.gov.scot\)](http://www.gov.scot)

⁴³ [Microsoft Word – SVA review report formatted 150202.docx \(publishing.service.gov.uk\)](http://publishing.service.gov.uk)

⁴⁴ <https://llyw.cymru/cymru-fwy-cyfartal-atgyfnerthu-partneriaeth-gymdeithasol-papur-gwyn>.

⁴⁵ Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau gros cyfartalog bandiau cyflog staff sifil 2022-23. Mae hyn yn cynnwys costau cyflogaeth ychwanegol (pensiynau, cyfraniadau yswiriant gwladol, etc).

⁴⁶ Defnyddio ffigurau 2022 ONS-ASHE am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr Prif Weithredwyr ac Uwch Swyddogion Cymru fel procsi

⁴⁷ Fel yr uchod

⁴⁸ Defnyddio ffigurau 2022 ONS-ASHE am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr Prif Weithredwyr ac Uwch Swyddogion Cymru fel procsi.

⁴⁹ Fel yr uchod.

⁵⁰ Fel yr uchod.

⁵¹ Bwrdd Taliadau Senedd Cymru, [Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ar gyfer y Chweched Senedd \(Rhif Dau\)](#)

⁵² Defnyddio ffigurau 2022 ONS-ASHE am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr Prif Weithredwyr ac Uwch Swyddogion Cymru fel procsi

⁵³ Fel yr uchod

⁵⁴ Fel yr uchod

⁵⁵ Cyngor Partneriaeth y Gweithlu, [Cytundeb Cyngor Partneriaeth y Gweithlu: Partneriaeth a Rheoli Newid](#)

⁵⁶ Defnyddio ffigurau 2022 ONS-ASHE am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr rheolwyr a chyfarwyddwyr corfforaethol Cymru fel procsi

⁵⁷ Defnyddio ffigurau 2022 ONS-ASHE am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr swyddog adnoddau dynol a chysylltiadau diwydiannol Cymru fel procsi

⁵⁸ Defnyddio ffigurau 2022 ONS-ASHE am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr Prif Weithredwyr ac Uwch Swyddogion Cymru fel procsi

⁵⁹ Fel yr uchod

⁶⁰ Fel yr uchod

⁶¹ Fel yr uchod

⁶² Fel yr uchod

⁶³ Defnyddio ffigurau 2022 ONS-ASHE am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr Prif Weithredwyr ac Uwch Swyddogion Cymru fel procsi

⁶⁴ Fel yr uchod

⁶⁵ Bwrdd Taliadau Senedd Cymru, Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ar gyfer y Chweched Senedd (Rhif Dau)

⁶⁶ Fel yr uchod

⁶⁷ Fel yr uchod

⁶⁸ Defnyddio ffigurau 2022 ONS-ASHE am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr Prif Weithredwyr ac Uwch Swyddogion Cymru fel procsi

⁶⁹ Defnyddio ffigurau 2022 ONS-ASHE am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr Prif Weithredwyr ac Uwch Swyddogion Cymru fel procsi

⁷⁰ Fel yr uchod

⁷¹ Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau gros cyfartalog bandiau cyflog staff sifil 2022-23. Mae hyn yn cynnwys costau cyflogaeth ychwanegol (pensiynau, cyfraniadau yswiriant gwladol, etc).

⁷² Fel yr uchod.

⁷³ Datblygwyd Canllawiau ac Adnodd Hunanasesu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn 2019 gan Grŵp Cynghori a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Confederasiwn GIG Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chyfarwyddwyr Cynllunio'r GIG.

⁷⁴ Defnyddio ffigurau 2022 ONS-ASHE am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr Prif Weithredwyr ac Uwch Swyddogion Cymru fel procsi

⁷⁵ Fel yr uchod

⁷⁶ Fel yr uchod

⁷⁷ <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:52016DC0729&from=SL>

⁷⁸ Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau gros cyfartalog bandiau cyflog staff sifil 2022-23. Mae hyn yn cynnwys costau cyflogaeth ychwanegol (pensiynau, cyfraniadau yswiriant gwladol, etc).

⁷⁹ Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau gros cyfartalog bandiau cyflog staff sifil 2022-23. Mae hyn yn cynnwys costau cyflogaeth ychwanegol (pensiynau, cyfraniadau yswiriant gwladol, etc).

⁸⁰ Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau gros cyfartalog bandiau cyflog staff sifil 2022-23. Mae hyn yn cynnwys costau cyflogaeth ychwanegol (pensiynau, cyfraniadau yswiriant gwladol, etc).

⁸¹ Defnyddio ffigurau 2022 ONS-ASHE am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr swyddog adnoddau dynol a chysylltiadau diwydiannol Cymru fel procsi

⁸² Fel yr uchod

⁸³ Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau gros cyfartalog bandiau cyflog staff sifil 2022-23. Mae hyn yn cynnwys costau cyflogaeth ychwanegol (pensiynau, cyfraniadau yswiriant gwladol, etc).

⁸⁴ Carnegie UK Trust and RSA Future Work Centre: Can Good Work Solve the Productivity Puzzle? Ar gael yn: https://d1ssu070pg2v9i.cloudfront.net/pex/pex_carnegie2021/2020/01/05125116/Can-good-work-solve-the-productivity-puzzle-FINAL.pdf

⁸⁵ Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau gros cyfartalog bandiau cyflog staff sifil 2022-23. Mae hyn yn cynnwys costau cyflogaeth ychwanegol (pensiynau, cyfraniadau yswiriant gwladol, etc).

⁸⁶ Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau gros cyfartalog bandiau cyflog staff sifil 2022-23. Mae hyn yn cynnwys costau cyflogaeth ychwanegol (pensiynau, cyfraniadau yswiriant gwladol, etc).

⁸⁷ Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau gros cyfartalog bandiau cyflog staff sifil 2022-23. Mae hyn yn cynnwys costau cyflogaeth ychwanegol (pensiynau, cyfraniadau yswiriant gwladol, etc).

⁸⁸ Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau gros cyfartalog bandiau cyflog staff sifil 2022-23. Mae hyn yn cynnwys costau cyflogaeth ychwanegol (pensiynau, cyfraniadau yswiriant gwladol, etc).

⁸⁹ Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau gros cyfartalog bandiau cyflog staff sifil 2022-23. Mae hyn yn cynnwys costau cyflogaeth ychwanegol (pensiynau, cyfraniadau yswiriant gwladol, etc).

⁹⁰ Fel yr uchod

⁹¹ Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau gros cyfartalog bandiau cyflog staff sifil 2022-23. Mae hyn yn cynnwys costau cyflogaeth ychwanegol (pensiynau, cyfraniadau yswiriant gwladol, etc).

⁹² John McClelland, Gwneud y Gorau o Bolisi Caffael Cymru: Crynodeb Gweithredol (2012)

⁹³ Cynllun gweithredu adfer Natur | LLYW.CYMRU